



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

# **Amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru**

**Canllaw i'r gyfraith**

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisiau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i bobl heneiddio ynddo.

## Sut mae cysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670  
E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)  
Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

## Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>04</b>
<b>Pennod 1: Hawliau Dynol a Diogelu Oedolion</b>	<b>05</b>
<b>Pennod 2: Eiriolaeth</b>	<b>12</b>
<b>Pennod 3: Cydsyniad, Gwrthod a Galluedd Meddyliol</b>	<b>17</b>
<b>Pennod 4: Amddifadu o Ryddid</b>	<b>28</b>
<b>Pennod 5: Cyfrinachedd a diogelu data</b>	<b>36</b>
<b>Pennod 6: Diogelu Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</b>	<b>42</b>
<b>Pennod 7: Cyfiawnder Troseddol</b>	<b>59</b>
<b>Pennod 8: Pwerau Mynediad ac Arestio</b>	<b>71</b>
<b>Pennod 9: Cam-drin Domestig</b>	<b>74</b>
<b>Astudiaethau Achos</b>	<b>79</b>
<b>Atodiad 1: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn</b>	<b>82</b>
<b>Atodiad 2: Llyfryddiaeth</b>	<b>85</b>

# Rhagair

Mae ystod eang o ddeddfwriaeth yn sail i'n systemau amddiffyn oedolion, iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r nod o ddiogelu ac amddiffyn pobl hŷn a gosod dyletswyddau ar sefydliadau ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau.

Mae'r ganllaw hon yn ceisio helpu ymarferwyr i fod yn fwy ymwybodol o'r gyfraith sydd ar gael i'w cefnogi yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Dydy'r ganllaw ddim yn cymryd lle cyngor cyfreithiol ac nid datganiad diffiniol o'r gyfraith mohono, ond mae'n cynnig trosolwg manwl, cyd-destun ac enghreifftiau buddiol o'r ffyrdd y gallant ddefnyddio'r gyfraith.

Hwn yw trydydd rhifyn y ganllaw, sydd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu deddfwriaeth Gymreig ddiweddar, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac mae'n sicrhau bod gan ymarferwyr yr wybodaeth ddiweddaraf wrth law.

Hoffwn ddiolch i John Williams, Athro Emeritws y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, am ei holl waith caled yn drafftio'r fersiwn ddiweddaraf hon. Mae ymrwymiad John i hyrwyddo hawliau dynol a diogelu pobl hŷn yn ysbrydoledig, ac mae ei allu i gyfleu cysyniadau cymhleth mewn ffordd syml yn golygu bod hwn yn adnodd gwerthfawr i ymarferwyr.

Mae deddfwriaeth yn sylfaen bwysig y mae nifer o'n gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig arni, ond mae'r ffordd y caiff y gyfraith ei dehongli, ei chymhwyso a'i defnyddio yr un mor bwysig. Drwy'r ganllaw hon, rwyf eisiau sicrhau bod y gyfraith wedi'i deall mor eang â phosibl ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, bod eu hawliau'n cael eu parchu, a'u bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn.



**Heléna Herklots CBE**  
**Older People's Commissioner for Wales**

# Pennod 1: Hawliau Dynol a Diogelu Oedolion

## Cyflwyniad

Mae hawliau dynol yn eiddo i bawb; nid yw henaint yn rheswm i wrthod neu i gyfyngu ar hawliau dynol pobl ac mae llawer o gytundebau rhyngwladol yn gwarantu hawliau dynol i **bawb**, yn ddiwahân. Mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, a gymeradwywyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, yn un o'r cytundebau mwyaf adnabyddus. Mae'r Deyrnas Unedig wedi pleidleisio o blaid Penderfyniad y Cenhedloedd Unedig a oedd yn cymeradwyo'r Datganiad. Fel Penderfyniad y Cynulliad Cyffredinol, nid yw'r Datganiad yn cael effaith gyfreithiol uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod y Datganiad yn awr yn rhan o gyfraith ryngwladol wrth ddefod ac mae'n feincnod ar gyfer cydymffurfiaeth â hawliau dynol.

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (gweler Atodiad 2) yn enwi Annibyniaeth, Cyfranogi, Gofal, Hunan gyflawniad ac Urddas fel egwyddorion allweddol. Er nad oes modd gorfodi'r egwyddorion yn uniongyrchol, gellir eu defnyddio fel sail ac i arwain gwaith gyda phobl hŷn. Rhaid i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ystyried yr Egwyddorion wrth gyflawni ei rôl ac mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI(C) 2014) hefyd yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol ac eraill sy'n gweithio o dan y Ddeddf 'roi sylw dyladwy' i'r Egwyddorion. O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, rhaid i'r Llywodraeth gynnwys manylion yn ei hadroddiad blynyddol ar sut mae'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy wedi effeithio ar weithredu'r broses reoleiddio.

Yn 2006, mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau, sydd â'r nodi o wneud yn siŵr nad yw pobl ag anableddau'n wrthrych elusen, triniaeth feddygol, ac amddiffyniad cymdeithasol, ond eu bod yn cael eu trin fel gwrthrychau â hawliau. Er nad yw'n diffinio 'anabledd', mae'r Rhaglith yn pwysleisio ei fod yn:

**“...results from the interaction between persons with impairments and attitudinal and environmental barriers that hinders full and effective participation in society on an equal basis with others.”**

Ymhlith egwyddorion cyffredinol y Confensiwn Anabledd mae peidio â gwahaniaethu, parchu urddas, a pharchu gwahaniaeth. Nid yw bod yn berson hŷn yn anabledd ac mae llawer o bobl hŷn yn byw heb anabledd. Fodd bynnag, mae gan rai pobl hŷn anableddau ac maent yn dod o fewn y Confensiwn. Mae'r Deyrnas Unedig wedi llofnodi a chadarnhau'r Confensiwn, ond nid yw wedi'i wneud yn rhan o'n cyfraith ni felly ni ellir ei orfodi'n uniongyrchol yn y llysoedd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi rhwystro'r llysoedd rhag cyfeirio ato wrth ddehongli deddfwriaeth, fel Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn cyfeirio'n aml at y Confensiwn Ewropeaidd wrth ddehongli'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).

Yn Ewrop, y prif gytuniad hawliau dynol yw'r ECHR. Mae'r Deyrnas Unedig yn wedi llofnodi'r ECHR ac wedi chwarae rhan bwysig yn y broses o'i ddrafftio. Roedd Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA 1998) yn y diwedd yn ei wneud yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig a oedd yn golygu ei fod yn cael ei orfodi mewn llysoedd cenedlaethol ac mewn tribiwnlysoedd. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus (er enghraifft, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Erlyn y Goron,

yr heddlu, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) gydymffurfio â'r ECHR. Fel y gwelir isod, mae newidiadau i'r gyfraith hefyd yn egluro statws llawer o ddarparwyr preifat gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

Mae hawliau dynol yn gosod dyletswyddau ar y wladwriaeth i sicrhau ei bod yn ein trin yn briodol, yn agored, ac yn deg. Maent hefyd yn datgan bod yn rhaid i'r wladwriaeth wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu gwarchod rhag eraill sy'n ymyrryd yn amhriodol â'u hawliau. Mae'n bwysig peidio â gorsymleiddio sut mae hawliau dynol yn gweithio'n ymarferol; mae angen cydbwysu gofalus gan fod gwrthdaro ymddangosiadol yn aml rhwng hawliau. Er enghraifft, yn achos cam-drin yr henoed, mae angen cydbwysu'n aml y ddyletswydd i amddiffyn y person hŷn â'r ddyletswydd i barchu eu hawl i benderfynu drostynt eu hunain. Mae'n bwysig ystyried felly a oes angen ymyrryd ac, os oes, sut ddylid gwneud hynny.

Mewn rhai amgylchiadau, mae gan y wladwriaeth reswm dilys dros ymyrryd yn hawliau dynol unigolyn. Er enghraifft, os ydynt wedi troseddu, mae carchar ar ôl treial teg yn ymateb teg, er bod hynny'n amddifadu'r unigolyn o'i ryddid. Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd angen ymyrryd â hawl unigolyn i benderfynu drostynt eu hunain er mwyn amddiffyn hawliau pobl eraill – os yw rhywun sy'n cam-drin yn ofalwr proffesiynol sy'n gweithio â phobl hŷn, er enghraifft.

Mae hawliau dynol yn diogelu ac amddiffyn oedolion mewn dwy ffordd:

- Mae mynd yn groes i hawliau dynol unigolyn yn fath o gam-drin – er enghraifft, mae amddifadu unigolyn o'i ryddid yn anghyfreithlon, ac mae polisïau tawelu diangen, neu 'beidio â dadebru' ar sail oedran yn mynd yn groes i hawliau dynol unigolion ac mae'n fath o gam-drin.
- Mae hawliau dynol yn mynnu bod yn rhaid i'r wladwriaeth weithredu i atal cam-drin, ble bynnag mae'n digwydd, ac i ymateb iddo. Mae Erthygl 13 o'r ECHR yn datgan bod yn rhaid cael camau unioni effeithiol pan fydd hawliau dynol yn cael eu torri. Bydd methiant y wladwriaeth i wneud hynny'n cyfrif fel cam-drin.

### Hawliau dynol:

- Maent yn eiddo i bawb – beth bynnag yw eu hoed.
- Maent yn seiliedig ar degwch, cydraddoldeb, urddas a pharch.
- Maent yn golygu na chaniateir i'r wladwriaeth ymyrryd yn anghyfreithlon na chaniatáu ymyrraeth â hawliau, er enghraifft drwy drin pobl mewn modd annynol neu israddol.
- Datgan bod yn rhaid i'r wladwriaeth weithredu i amddiffyn hawliau, er enghraifft, i warchod bywyd.

### Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

Rhaid deall a defnyddio'r ystod o offerynnau hawliau dynol mae'r Deyrnas Unedig wedi eu llofnodi. Dyma'r achos gydag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig o gofio'r ddyletswydd 'sylw dyladwy' yn DGCLI(C) 2014, er bod y term 'sylw dyladwy' yn aneglur. Mewn achos sy'n cynnwys dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 lle mae dyletswydd 'sylw dyladwy' debyg, dywedodd y llys:

**“(T) he duty must be exercised in substance, with rigour and with an open mind. The duty has to be integrated within the discharge of the public functions of the authority. It is not a question of ‘ticking boxes’.”**

Mae dyletswyddau y gellir eu gorfodi'n uniongyrchol i'w cael yn HRA 1998, drwy ei hymgorfforiad o'r ECHR yng nghyfraith y Deyrnas Unedig. Yn dilyn HRA 1998, gellir dadlau dros hawliau ECHR mewn unrhyw lys neu dribiwnlys yn y Deyrnas Unedig ac mae'r Ddeddf yn datgan na ddylai 'awdurdod cyhoeddus' weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau ECHR.

Fel y nodwyd uchod, mae llywodraeth, yr heddlu, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd yn awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae peth amheuaeth a yw darparwyr preifat gwasanaethau gofal yn y cartref a phreswyl yn awdurdodau cyhoeddus. Y sector annibynnol yw prif ddarparwr gofal cartref a phreswyl i bobl hŷn yng Nghymru, ac nid oes llawer o ddarpariaeth uniongyrchol gan awdurdodau lleol na Byrddau Iechyd. Mae Deddf Gofal 2014 (y ddeddf sy'n cyfateb i DGCLI(C) 2014 yn Lloegr) yn sicrhau lle bydd awdurdod lleol yn ariannu'r gofal neu os yw wedi gwneud trefniadau o dan DGCLI(C) 2014 ar gyfer gofal, yna bydd darparwr preifat y gwasanaeth yn awdurdod cyhoeddus ac yn dod o fewn HRA 1998 a'r ECHR. Nid yw hyn yn gymwys os yw'r unigolyn sy'n cael y gwasanaeth yn talu amdano a lle nad yw'r awdurdod lleol wedi bod yn gysylltiedig â threfnu'r gofal.

Mae'r llysoedd yn pwysleisio bod yr ECHR yn gosod dyletswydd bositif ar awdurdodau cyhoeddus i atal hawliau rhag cael eu torri, yn hytrach nag ymateb ar ôl i hynny ddigwydd. Yn **A v UK** dywedodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod gan unigolion agored i niwed yr hawl i gael amddiffyniad y wladwriaeth ar ffurf ataliaeth effeithiol rhag mynd yn groes i'w huniondeb personol. Mae dyletswydd bositif i warchod ac mae'r Llys Ewropeaidd wedi dweud bod yn rhaid i'r wladwriaeth amddiffyn hawliau er bod y cam-drin yn digwydd mewn gofod preifat, fel cartref unigolyn neu gartref sy'n cael ei redeg yn breifat.

## **Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cynnwys hawliau sy'n berthnasol i gam-drin pobl hŷn**

**Erthygl 2: Bydd hawl pawb i fywyd yn cael ei amddiffyn gan y gyfraith.** Mae hwn weithiau'n cael ei alw'n hawl i fywyd, a hynny ar gam; mae'n hawl i fywyd gael ei amddiffyn. Pan fydd bywyd person hŷn yn cael eu bygwth gan gamdriniaeth neu esgeulustod, mae dyletswydd ar y wladwriaeth i'w hamddiffyn. Gall hyn gynnwys defnyddio'r gyfraith droseddol a/neu ymyrraeth o dan gyfreithiau a gweithdrefnau diogelu. Y dybiaeth yw bod y fath gyfreithiau a gweithdrefnau'n bodoli. Gall yr erthygl hon gynnwys hysbysiadau 'peidio â dadebru' ar sail oedran, symud person hŷn i leoliad arall heb asesiad priodol, a chamddefnyddio meddyginiaethau.

**Erthygl 3: Ni fydd neb yn rhaid i neb ddiodeff artaith na thriniaeth annynol neu ddiraddiol na chosb ddiraddiol.** Y geiriau pwysig yma yw 'triniaeth annynol neu ddiraddiol'. Mae triniaeth yn annynol neu ddiraddiol os yw wedi ei hasesu fel bod ar lefel isaf o ran difrifoldeb ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys hyd y driniaeth; ei heffeithiau corfforol a meddyliol; rhyw, oedran a chyflwr iechyd yr unigolyn; a diben y driniaeth, gan gynnwys y rheswm sydd wrth ei gwraidd a'r cyd-destun. Mae'n cynnwys dioddefaint sy'n deillio o salwch (corfforol neu feddyliol) lle mae, neu mewn perygl, o waethygu o ganlyniad i driniaeth wael lle mae awdurdod cyhoeddus yn gyfrifol (er enghraifft, gofal gwael mewn cartref gofal unigolyn sy'n byw â dementia).

**Erthygl 5: Mae gan bawb yr hawl i ryddid a diogelwch personol.** Ni chawn gloi person hŷn yn eu hystafell wely, mewn ward ysbyty na chartref gofal. Byddai hyn yn cyfrif fel camdriniaeth a byddai'n anghyfreithlon, hyd yn oed os yw unigolyn sy'n gwneud hynny'n meddwl ei fod er 'budd gorau' y person hŷn. Mae'r Erthygl yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle mae angen cymryd rhyddid rhywun oddi arnynt neu gyfyngu arno – os ydynt mewn perygl o niwed, er enghraifft. Fodd bynnag, rhaid cael cyfraith sy'n caniatáu hyn ac sy'n nodi meini prawf ar gyfer defnyddio pŵer o'r fath. Rhaid i'r gyfraith hefyd gynnwys mesurau diogelu rhag cam-drin neu gamddefnydd. Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn enghraifft o gyfraith o'r fath.

**Erthygl 6: Mae gan bawb hawl i wrandawriad teg a chyhoeddus o fewn amser rhesymol gan driwlynlys annibynnol ac amhleidiol a sefydlwyd gan gyfraith.** Mae'r hawl hwn yn ymestyn nid yn unig i achosion troseddol (ar gyfer diffynyddion a thystion) ond hefyd i unrhyw wrandawriad lle bydd y canlyniad yn newid bywyd unigolyn yn sylweddol, fel Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.

**Erthygl 8: Mae gan bawb yr hawl i gael parch am fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.** Mae hwn yn hawl eang ei gwmpas. Mae bywyd preifat yn cynnwys yr hawl i benderfynu, cael eich trin ag urddas a pharch, yr hawl i wneud penderfyniadau y gall eraill feddwl sy'n 'annoeth neu echreiddig', a'r hawl i wrthod triniaeth feddygol. Mae bywyd teuluol yn cynnwys gallu cadw cysylltiad â theulu heb fod gormod o rwystrau'n cael eu rhoi yn y ffordd. Mae cartref unigolyn hefyd yn bwysig a rhaid parchu hynny. Nid yw cartref wedi'i gyfyngu i dy neu fflat y gall person hŷn fod yn berchen arno neu'n ei rentu - mae hefyd yn cynnwys gartref gofal. Rhaid parchu gohebiaeth, sy'n cynnwys galwadau ffôn, negeseuon e-bost a llythyrau.

**Erthygl 9: Mae gan bawb ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd.** Mae hyn yn cynnwys y gallu i addoli'n unol â'r grefydd o ddewis yr unigolyn a diwallu unrhyw anghenion o ran diet.

**Erthygl 10: Mae gan bawb hawl i ryddid mynegiant.** Mae gan bawb yr hawl i gred a barn. Mae cyfyngiadau ar fynegi barn, fel gwneud sylwadau difenwol neu sylwadau casineb.

**Erthygl 11: Mae gan bawb yr hawl i ymgynnull yn heddychlon a'r rhyddid i gymdeithasu ag eraill, gan gynnwys yr hawl i ffurfio ac ymuno ag undebau llafur i ddiogelu eu buddiannau.** Mae hyn yn cynnwys yr hawl i berthyn, i gefnogi neu i weithredu â grwpiau heb ofn dial.

**Erthygl 14: Bydd mwynhau hawliau a rhyddid [yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol] yn cael eu diogelu heb wahaniaethu ar unrhyw sail fel rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, gysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.** Er nad yw oedran yn cael ei grybwyll, mae'n dod o fewn 'neu statws arall'.



Mae'r hawliau uchod yn dod o fewn un o dri chategori – absoliwt, cyfyngedig, ac amodol:

<b>Hawliau absoliwt:</b>	Ni all y wladwriaeth gyfyngu ar weithredu'r hawliau hyn mewn unrhyw amgylchiadau.	Erthygl 2 - amddiffyn bywyd.  Erthygl 3 - gwahardd triniaeth annynol ac israddol.
<b>Hawliau cyfyngedig:</b>	Mae'r hawliau hyn yn cynnwys amgylchiadau lle gellid ymyrryd â hwy'n gyfreithiol.	Erthygl 5—yr hawl i ryddid a diogelwch
<b>Hawliau amodol:</b>	Mae'r hawliau hyn yn amodol.	Erthygl 8 – bywyd teuluol, bywyd preifat, cartref a gohebiaeth  Erthygl 9—rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd  Erthygl 10 rhyddid mynegiant  Erthygl 11—rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu.

Mae'n bwysig deall y gwahanol fathau hyn a sut maent yn gweithio'n ymarferol. Fel mae'r enw'n ei awgrymu, ni ellir rhoi amodau ar hawliau absoliwt; ni ellir byth â chyfiawnhau triniaeth annynol neu israddol.

Ni ellir ymyrryd â hawl cyfyngedig oni bai bod y weithred yn dod o fewn un o'r categorïau a restrir yn yr erthygl. Er enghraifft, ni ellir ymyrryd â'r hawl Erthygl 5 i ryddid oni bai bod y ddau amod canlynol yn cael eu bodloni:

1. Os yw o dan weithdrefn sydd wedi'i phennu gan gyfraith. Er enghraifft, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, (neu o Wanwyn 2020, Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019), neu'r pwerau i gadw'n gaeth yn Neddf Iechyd Meddwl 1983. Ni ellir amddifadu pobl o'u rhyddid am fod rhywun yn credu mai dyna sydd orau iddynt.
2. Y rheswm dros yr ymyriad yw am un o'r rhesymau a restrir yn yr Erthygl. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sydd â meddwl ansefydlog neu 'unsound mind', yng ngeiriau'r Erthygl. Mae'r geiriau'n adlewyrchiad o'r cyfnod pan gafodd yr ECHR ei ddrafftio. Fodd bynnag, mae ei ystyr cyfoes yn cynnwys anhwylder meddyliol a diffyg galluedd meddyliol.

Mae hawliau amodol yn golygu y dylid cynnal asesiad i ganfod a oes hawl i unrhyw ymyrryd yn cael ei ganiatáu o dan yr ECHR. Fel y nodwyd uchod, mae Erthygl 8 yn rhoi hawl i barch am fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth. Fodd bynnag, o dan Erthygl 8(2) gall y wladwriaeth ymyrryd â'r hawl hwn os yw'n bodloni'r canlynol:

- Ei fod ‘yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd’: mae hyn yn golygu bod yn rhaid i’r awdurdod cyhoeddus bwysu a mesur hawliau’r unigolyn â buddiannau ehangach cymdeithas. Mewn achosion o gam-drin pobl hŷn, er enghraifft, gall yr unigolyn wrthod cais i wasanaethau cymdeithasol neu’r heddlu fod yn gysylltiedig â’r achos. Dyna yw eu hawl i fywyd preifat, sef eu hawl i hunaniaeth. Fodd bynnag, gall y budd cyhoeddus ehangach fynnu ymyrraeth, yn enwedig os oes eraill mewn perygl o gael eu cam-drin. Bydd yn rhaid i ymarferwyr ddangos eu bod wedi pwysu a mesur yr achos. Gall dull mantolen helpu.
- Rhaid bod cyfraith yn bodoli sy’n caniatáu’r cyfyngiad: Os nad oes, bydd yn torri’r hawl hwn.
- Rhaid i nod yr ymyrraeth fod yn ddilys: Mae’r Erthygl yn rhestru’r categorïau o nodau dilys ac mae’r rhain yn cynnwys diogelwch cyhoeddus y wlad, atal anrhefn neu drosedd, amddiffyn iechyd neu foesau, neu warchod hawliau a rhyddid pobl eraill.
- Ni ddylai’r ymyrraeth fynd yn ddim pellach na’r angen yn yr amgylchiadau unigol – rhaid iddo fod yn gymesur: Mae cymesuredd yn mynnu bod y sawl sy’n gwneud y penderfyniad yn cael cydbwysedd deg rhwng gofynion buddiannau cyffredinol y gymuned ac amddiffyn hawliau dynol yr unigolyn. Rhaid i’r hyn sy’n cael ei gynnig (er enghraifft y defnydd o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid) fod yn addas i gyflawni’r nod a rhaid iddo fod yr opsiwn lleiaf cyfyngol posibl.

Nid oes cyfeiriad at urddas yn yr ECHR, ond mae’r Llys Ewropeaidd yn cydnabod bod gwarchod urddas a rhyddid pobl yn hanfodol i’r ECHR (Gweler McDonald v UK 2014 a SW v UK 1995); mae urddas wedi’i ymgorffori yn Erthyglau 2, 3 ac 8.

Nodwedd bwysig o hawliau dynol yw bod rhaid i bobl allu mynegi eu safbwyntiau a’u barn. Mae peidio â gwrando ar berson hŷn yn mynd yn groes i’w hawliau dynol. Mae eiriolaeth annibynnol yn bwysig felly gan fod yn rhaid i lais y person hŷn gael ei glywed boed hwy yn eu cartref eu hunain, mewn cartref gofal, mewn ysbyty neu rywle arall. Mae hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn ganolog i unrhyw ymchwiliad ac wrth benderfynu ar y ffordd orau i ymateb i honiadau o gam-drin neu esgeuluso. Rhaid i lais y person hŷn gael ei glywed drwy gydol yr ymchwiliad ac nid ar adegau penodol yn unig.

Mae gallu’r ymarferydd gofal cymdeithasol i eiriol ar ran person hŷn yn gyfyngedig gan fod perygl i hynny wrthdaro â gwaith eu hasiantaeth. Mae annibyniaeth yr eiriolydd yn bwysig. Nid yw eiriolydd yn fygythiad i ymarferwyr. Ond mae’n hytrach yn gyfle i ddysgu mwy am y person hŷn, a’r hyn maent am ei gael. Trafodir eiriolaeth ym Mhennod 2.

## Pa bryd ddylai gael ei ddefnyddio?

Mae hawliau dynol yn ategu penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus. Rhaid i benderfyniadau a wneir gan ymarferwyr mewn ymateb i gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn gydymffurfio â hawliau dynol a rhaid iddynt ddangos mai dyna yw’r achos. Mae ymgorffori hawliau dynol mewn polisi, gweithdrefnau ac ymarfer yn hanfodol. Mae canllaw [Arolygiaeth Gofal Cymru Hawliau Dynol: Ymrwymiad AGC](#) i hybu a chynnal hawliau pobl sy’n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn enghraifft dda o sut y gall hawliau dynol gael eu mapio ar thema arolygu a thempled trywydd ymchwilio, drwy ganolbwyntio ar yr hawliau dynol sy’n rhan o’r broses arolygu.

## Pa bryd ddylid ei defnyddio?

Pan fydd cyfraith hawliau dynol yn cael ei defnyddio, cofiwch y bydd hawliau a buddiannau a fydd yn cystadlu â'i gilydd. Mae'r cydbwysu angenrheidiol yn golygu bod yn rhaid ystyried y canlynol:

- Pa hawl(iau) sydd dan sylw? Efallai y bydd mwy nag un hawl ynghlwm wrth achosion o gam-drin neu esgeuluso pobl hŷn - hawl Erthygl 3 a hawl Erthygl 8, er enghraifft.
- Os oes mwy nag un hawl ynghlwm wrth achos a bod gwrthdaro rhyngddynt, pa un sydd â goruchafiaeth? Er enghraifft, gellir cael gwrthdaro rhwng hawl Erthygl 3 i gael eich amddiffyn rhag triniaeth annynol neu israddol a phenderfyniad gan yr unigolyn i wrthod ymyrraeth (hawl Erthygl 8). Rhaid i ymarferwyr bwysu a mesur y dystiolaeth sy'n cystadlu a dod i gasgliad proffesiynol ynglŷn â pha un ddylai gael goruchafiaeth. Mae pob achos yn wahanol a dylid gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y ffeithiau.
- A yw hawliau dynol unigolyn arall yn cael eu heffeithio? Os ydynt, faint o bwyslais a ddylid ei roi arnynt? Er enghraifft, hawliau preswlydd arall mewn cartref gofal.
- A yw'r hawl sydd ynghlwm wrth achos yn hawl absoliwt, cyfyngedig ynteu amodol? Os yw'n gyfyngedig, a yw'n dod o fewn un o'r rhesymau a restrwyd dros ymyrryd ac a oes cyfraith sy'n caniatáu'r hyn sy'n cael ei gynrig? Os yw'n hawl amodol, a yw'r cydymffurfio â'r amodau i gyfiawnhau ymyrraeth?
- A yw'r ymyrraeth a gynigir yn gymesur?

## Beth yw'r cyfyngiadau?

Un o agweddau mwyaf rhwystredig cyfraith hawliau dynol yw ei bod yn aml yn adweithiol – mae'r hawl wedi'i dorri'n barod ac mae'r ymarferwr yn ceisio gwneud iawn am hynny. Rhaid i ymwybyddiaeth o hawliau dynol fod yn amlwg yn ystod pob cam (gan gynnwys datblygu polisi) o ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth ymchwilio i achosion o gam-drin ac esgeuluso.

## Pwyntiau i'w cofio

- Mae hawliau dynol yn eiddo i bawb
- Nid yw henaint yn rheswm i wrthod parch tuag at hawliau dynol rhywun
- Nid yw hawliau dynol yn golygu bod yn rhaid osgoi pob risg

# Pennod 2: Eiriolaeth

## Cyflwyniad

Mae gan y gair eiriolaeth sawl ystyr. Yn ei ystyr ffurfiol iawn, bydd cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran client yn eiriol drwy gyflwyno achos y client gerbron llys, tribiwnlys neu barti sy'n gwrthwynebu. Mewn ystyr llai ffurfiol, mae eiriolydd yn rhywun sy'n siarad ar ran unigolyn arall, neu achos. Mae mathau o eiriolaeth yn cynnwys hunaneiriolaeth, eiriolaeth gan gymheiriaid, eiriolaeth dinasyddion, eiriolaeth broffesiynol ac eiriolaeth sy'n deillio o ddarpariaethau mewn deddfwriaeth fel Deddf Iechyd Meddwl 1983, a adwaenir fel eiriolaeth statudol.

O fewn diogelu oedolion, mae eiriolaeth yn sicrhau bod llais y person hŷn yn cael ei glywed mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, iechyd a chyfiawnder troseddol. Fel y gwelwyd yn y bennod ar Hawliau Dynol, mae'r hawl i fywyd preifat yn cynnwys yr hawl i benderfynu; mae'r hawl i benderfynu'n rhagdybio bod yr unigolyn wedi cyfrannu at wneud y penderfyniad. Gall rhai pobl eiriol drostynt eu hunain ac nid ydynt yn teimlo'r angen am eiriolydd. Yr unig beth yw bod ganddynt ddigon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth honno a rhaid i ymarferwyr sicrhau mai dyna yw'r achos. Gall gofalmwyr ac aelodau'r teulu hefyd wneud eiriolwyr effeithiol, er bod yn rhaid bod yn ymwybodol o wrthdrawiad mewn buddiannau.

Mae eraill yn llai galluog i eirioli ar eu rhan eu hunain ac nid oes ganddynt neb i eirioli ar eu rhan. Efallai bod ganddynt anabledd sy'n ei gwneud yn anodd iddynt i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, neu efallai y byddant yn teimlo bod yr holl broses yn ormesol, yn enwedig os yw'n cynnwys y system cyfiawnder troseddol. Y perygl yw y byddant o dan anfantais ac mae perygl y bydd pethau'n cael eu gwneud iddynt yn hytrach na gyda hwy. Mewn amgylchiadau o'r fath mae cymorth eiriolydd yn hanfodol os yw hawliau dynol yr unigolyn am gael eu gwarchod.

## Beth sydd gan y gyfraith i'w ddweud?

### Eirioli Proffesiynol Annibynnol - Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (SSW(W)A 2014)

Mae DGCLI(C) 2014 yn ymdrech i roi'r unigolyn a'u canlyniadau llesiant yng nghanol y fframwaith cyfreithiol. Os am gyflawni hyn mae'n hanfodol bod pobl yn cael llais a bod y llais hwnnw'n cael ei glywed. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen help ar unigolyn er mwyn i'w llais gael ei glywed. Gall dwyster yr help hwn amrywio'n ôl gallu'r unigolyn i eiriol ar ei ran ei hun. Mae DGCLI(C) 2014 yn diffinio 'gwasanaethau sy'n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth' (adran 181(2)). Nid yw hyn yn berthnasol o ran diogelu yn unig. Mae'n berthnasol o ran cynllunio gofal a chymorth, asesu, adolygu, a swyddogaethau eraill yr awdurdod lleol o dan DGCLI(C) 2015.

Mae Adran 181 o DGCLI(C) 2014 yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol i drefnu bod gwasanaethau eirioli ar gael i bobl ag anghenion gofal a chymorth, er nad oes dim rheoliadau o'r fath wedi'u gwneud. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cynnwys trefniadau ar gyfer eirioli yn **Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)**. Cyfiawnhad y Llywodraeth dros hyn yw bod eiriolaeth yn elfen gyson o'r Ddeddf – mae'n 'edefyn euraidd'. Mae gwahaniaeth barn ar y mater hwn.

Mae'r Cod yn nodi dwy brif thema ar gyfer eiriolaeth. Y gyntaf yw siarad ar ran unigolion nad ydynt yn cael eu clywed a'u helpu i fynegi eu barn ac i wneud penderfyniadau a chyfraniadau ar sail gwybodaeth. Yr ail thema yw diogelu oedolion sy'n wynebu risg.

Diogelu yw un o'r swyddogaethau o dan DGCLI(C) 2014 lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol 'ystyried angen unigolion am eiriolaeth a chymorth.' Dywed y Cod y gall yr angen am eiriolaeth ddwysau pan fydd oedolyn mewn perygl a bod ymchwiliad adran 126, gweithredu o dan adran 127 (Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion), ac adran 128 (y ddyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg). Trafodir y dyletswyddau diogelu ym Mhennod 6.

Dywed y cod bod:

**“Rhaid i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu eiriolwr proffesiynol annibynnol pan all unigolyn ddim ond goresgyn y rhwystr(au) i gyfranogi yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu gyda chymorth gan unigolyn priodol, ond nid oes unrhyw unigolyn priodol ar gael.” (paragraff 47)**

Gall unigolyn priodol fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu rywun o rwydwaith cymdeithasol ehangach. O dan y Cod, os gall unigolion priodol sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynnwys, yna gallant eirioli. Fodd bynnag, ni all unigolyn o'r fath weithredu os:

1. Nad yw'r unigolyn sy'n wynebu risg yn dymuno bod yr unigolyn hwnnw'n eu helpu.
2. Nad yw'r unigolyn yn debygol o allu neu fod ar gael i helpu'r person.
3. Bod y person hwnnw'n ymwneud â'r broses ddiogelu (bod amheuaeth ei fod yn gyflawnwr, er enghraifft (paragraff 61 o'r Cod).

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yn anodd i ymarferwyr fel gweithwyr cymdeithasol eirioli ar ran eu cleientiaid yn sgil gwrthdaro buddiannau go iawn neu ganfyddiad o hynny. Gall eiriolwyr eraill fod yn gysylltiedig â'r achos, fel Eiriolydd Galluedd Meddyliol Annibynnol. Mae paragraff 86 o'r Cod yn nodi pwysigrwydd dilyniant a'r angen i osgoi dyblygu. Pan yn bosibl, dylid cytuno ar un eiriolydd.

## **Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA)**

O dan adran 130E o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud trefniadau i alluogi Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol i fod ar gael i helpu cleifion pan fydd hynny'n ofynnol yn ôl y Ddeddf. Cafodd hyn ei weithredu gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Mae'r hawl i gael IMHA yn gymwys i 'gleifion cymwys', sy'n dod mewn dau gategori:

1. Cleifion cymwys dan orfodaeth: Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael eu cadw neu a all gael eu cadw (gan gynnwys rhai sydd â chaniatâd i fod yn absennol), wedi'u rhyddhau'n amodol, sy'n destun gwarcheidwaeth neu'n destun gorchymyn triniaeth gymunedol. Yn achos pob un o'r rhain, rhaid i'r ysbyty neu'r sefydliad cofrestredig fod wedi'u lleoli yng Nghymru.
2. Cleifion anffurfiol cymwys: Mae hyn yn cynnwys cleifion preswyl mewn ysbyty neu sefydliad cofrestredig lle maent yn cael triniaeth neu'n cael eu hasesu oherwydd anhwylder meddyliol. Ni chânt fod yn destun unrhyw bwerau o dan y Ddeddf sy'n gwneud iddynt fod yn debygol o gael eu cadw.

I sicrhau eglurder, mae cleifion cymwys dan orfodaeth yn cynnwys cleifion sy'n cael eu cadw o dan ddarpariaethau brys adran 4 neu bwerau cadw yn adran 5. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw un sy'n cael ei ystyried ar gyfer triniaeth lle mae adran 57 yn berthnasol (triniaeth lle mae angen cydsyniad ac ail farn) boed hwy'n cael eu cadw neu beidio. Nid yw'n cynnwys pobl sy'n cael eu cadw mewn man diogel o dan adran 135 neu adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

**Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983: Cod Ymarfer Cymru (2016)** yn disgrifio rôl yr IMHA, sy'n cynnwys cynorthwyo'r claf i gael gwybodaeth ac i ddeall eu hawliau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Rhaid i'r IMHA sicrhau hefyd bod llais y claf yn cael ei glywed drwy eu helpu mewn cyfarfodydd timau amlddisgyblaethol. Rhan o'r rôl hefyd yw helpu cleifion i wrthweithio unrhyw wahaniaethu gwirioneddol neu bosib. Rhaid i'r IMHA hefyd gyfeirio gwasanaethau eraill at y claf a'r claf at wasanaethau eraill, a all gynnwys timau diogelu.

Er nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â diogelu, mae gan yr IMHA rôl i'w chwarae i sicrhau eu bod yn hysbysu unrhyw bryderon os yw'r claf yn oedolyn a all fod yn wynebu risg.

### **Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)**

Mae Adran 35 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cyflwyno'r gwasanaeth IMCA, sy'n galluogi IMCA i gael ei benodi mewn rhai penderfyniadau sy'n cynnwys pobl heb alluedd. Rhaid penodi IMCA lle mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â newid tymor hir mewn llety, fel mynd i gartref gofal, lle mae triniaeth feddygol ddifrifol yn cael ei chynnig, neu os oes cais i amddifadu unigolyn o ryddid yn cael ei wneud. Yn yr achosion hyn, ni fydd neb arall sy'n briodol a all neu a ddylai eiriol ar ran yr unigolyn (dywedir fod yn unigolyn yn 'ddigyfaill'). Mae pŵer (nid dyletswydd) i benodi IMCA mewn achosion amddiffyn oedolion; nid yw'r gofyniad digyfaill yn gymwys. Fodd bynnag, oes yw amddifadu o ryddid yn cael ei ystyried fel rhan o broses diogelu oedolyn, dim ond os yw'r unigolyn yn ddigyfaill y mae'n rhaid penodi IMCA.

Gellir crynhoi'r defnydd o IMCA fel a ganlyn:

<b>Symudiad gofal tymor-hir</b>	Rhaid penodi IMCA os nad oes unrhyw un yn gallu cefnogi'r unigolyn.
<b>Triniaeth feddygol ddifrifol</b>	Rhaid penodi IMCA os nad oes unrhyw un yn gallu cefnogi'r unigolyn.
<b>Adolygiad Gofal</b>	Gellir dewis penodi IMCA lle nad oes teulu na ffrindiau sy'n addas i'w cefnogi, ac mae'r unigolyn wedi bod yn aros, neu'n debygol o aros yn y llety am gyfnod parhaus o fwy na 12 wythnos.
<b>Gweithdrefnau diogelu oedolion</b>	Mae penodi IMCA o safbwynt diogelu'n ddewisol. Gall IMCA gefnogi'r unigolyn sy'n cael ei gam-drin neu'i esgeuluso, neu'r unigolyn sy'n cael ei amau o fod yn cam-drin. Yn y ddau achos, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi fod heb alluedd.  Nid yw'r gofyniad nad oes neb arall i gefnogi'r unigolyn yn berthnasol fel arfer. Fodd bynnag, os yw Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymyriad diogelu, mae'n angenrheidiol dangos nad oes neb arall i gefnogi'r unigolyn.

(Noder y weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer amddifadu o ryddid o dan y trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a fydd yn cael eu gweithredu yng Ngwanwyn 2020 – gweler Pennod 4).

Mae rôl yr IMCA mewn amddiffyn oedolion yn hanfodol ac yn fesur diogelu pwysig. Nid yw'r IMCA yn penderfynu, ond mae'n hytrach yn sicrhau bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn rhoi ystyriaeth briodol i ddymuniadau, teimladau a chredoau'r unigolyn;

Dywed **Deddf Galluedd Meddyliol 2005: Cod Ymarfer:**

**'Any information or reports provided by an IMCA must be taken into account as part of the process of working out whether a proposed decision is in the person's best interests.'**(p.179)

Mae gan IMCA fynediad at yr holl gofnodion gofal iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol. O dan y Cod eu rôl yw:

- bod yn annibynnol o'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad;
- rhoi cymorth i'r unigolyn sydd heb alluedd;
- cynrychioli'r unigolyn heb alluedd mewn trafodaethau i benderfynu a yw'r penderfyniad sy'n cael ei gynnig er budd gorau'r unigolyn;
- rhoi gwybodaeth i helpu i ganfod yr hyn sydd er budd gorau'r unigolyn; a
- chodi cwestiynau neu herio penderfyniadau yr ymddengys nad ydynt er budd gorau'r unigolyn (paragraff 10.4).

Mae annibyniaeth yr IMCA yn sicrhau bod yr unigolyn yn cyfrannu, i'r graddau posibl, at y broses benderfynu. Mae cynnwys IMCA mewn diogelu fel mewn meysydd eraill o wneud penderfyniadau, yn hanfodol i sicrhau nad yw prosesau a gweithdrefnau'n drech na hawliau pobl.

## **Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA)**

Er nad yw'n eiriolydd mewn gwirionedd – mae'n gweithredu fel cynghorydd – mae IDVA yn helpu dioddefwyr hŷn sy'n wynebu risg uchel o gam-drin domestig a gall hyn gynnwys rôl eiriolaeth. Rôl yr IDVA yw cynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig a'u helpu i fod yn ddiogel. Mae'n cynnwys gweithio â gwasanaethau statudol y bydd dioddefwyr yn dod ar eu traws fel diogelu, iechyd, cyfiawnder troseddol, a thai. Gall IDVA hefyd sicrhau bod llais y dioddefwr yn ganolog mewn trafodaethau amlddisgyblaethol.

## **Gwasanaethau eiriolaeth eraill**

Yn ychwanegol at yr uchod, mae gwasanaethau eiriolaeth eraill sy'n cael eu darparu gan fudiadau trydydd sector. Gall y rhain fod yn gysylltiedig â grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth, neu gallant ddarparu gwasanaeth generig.

## **Sut ddylai gael ei ddefnyddio?**

Dylai'r angen am eiriolydd mewn achosion diogelu fod yn fater sy'n cael ei ystyried bob amser. Efallai y bydd angen ailedrych ar benderfyniad cynharach i beidio â phenodi eiriolydd gan fod amgylchiadau wedi newid. Mae angen bod yn ofalus wrth ganiatáu i aelodau'r teulu ac eraill i eirioli. Er y gallai hyn fod yn effeithiol, a bod yr unigolyn yn teimlo'n gyfforddus o'u cael fel

eiriolydd, efallai y bydd achosion lle mae gwrthdaro rhwng buddiannau aelodau'r teulu a phobl eraill.

## **Beth yw ei gyfyngiadau?**

Y cyfyngiad mwyaf yw'r gallu i gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth. Mae Age Cymru yn adrodd bod gostyngiad o 32% yn y nifer o wasanaethau eirioli sy'n benodol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru rhwng 2016 a 2018. Hefyd, mae'r ffaith bod y darpariaethau eirioli o dan DGCLI(C) 2014 i'w cael yn y Cod yn hytrach na'r rheoliadau'n destun siom. Rhaid i awdurdodau lleol ddilyn darpariaethau'r Cod ac ni allant ddefnyddio'r weithdrefn adran 147 i wyro oddi wrth ei ofynion. Fodd bynnag, mae'n anffodus nad yw eiriolaeth annibynnol ar seiliau statudol llawn, fel yn Lloegr, lle mae rheoliadau wedi cael eu gwneud.

## **Pwyntiau i'w cadw mewn cof.**

- Mae eiriolwyr yn sicrhau bod llais y person hŷn yn cael ei glywed a bod eu dymuniadau a'u teimladau'n hysbys i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.
- Dylai eiriolwyr roi gwybod i bobl am eu hawliau.
- Dylai eiriolwyr herio ymarferwyr pan fydd hynny'n briodol.
- Mae'n rhaid i eiriolwyr fod yn annibynnol.



# Pennod 3: Cydsyniad, Gwrthod a Galluedd Meddyliol

## Cyflwyniad

Mae galluedd yn rhywbeth rydym yn ei gymryd yn ganiataol. Pan fyddwn yn mynd i siopa, yn gwneud ewyllys, yn llofnodi cytundeb morgais neu brydles, neu'n gwrthod triniaeth feddygol, rydym yn cymryd yn ganiataol na fydd ein gallu i wneud hynny'n cael ei herio. Mae penderfynu drosom ein hunain yn rhan o'n hawl dynol i gael bywyd preifat ac mae hynny'n cynnwys gwneud penderfyniadau y gall eraill eu gweld fel rhai annoeth, anghywir neu chwithig. Mae'n cynnwys yr hawl i ddweud 'ie' ac, yn bwysicach, yr hawl i ddweud 'na'.

I rai pobl, fodd bynnag, nid yw'r gallu i benderfynu mor eglur. Gall gallu unigolyn i ddewis fod yn ddiffygiol oherwydd strôc neu anaf i'r ymennydd, problem iechyd meddwl, dementia, anabledd dysgu, dryswch, syrthni, bod yn anymwybodol oherwydd salwch neu driniaeth, neu gamddefnyddio sylweddau neu alcohol.

Gellir colli galluedd am gyfnod dros dro - pan fydd rhywun yn anymwybodol neu'n dioddef sgil effeithiau meddyginiaeth. Gall haint y llwybr wrinol neu ddeliriwm hefyd arwain at golli galluedd dros dro. Neu, gall fod yn nam tymor hir neu barhaol. Ffactor amrywiol arall yw y gall person fod â'r galluedd i wneud rhai penderfyniadau (cydsynio neu wrthod archwiliad deintyddol, er enghraifft) ond heb y galluedd i wneud penderfyniadau eraill (fel cydsynio neu wrthod llawdriniaeth fawr).

Mae asesu rhywun fel bod heb alluedd neu'n ddiffygiol yn arwain at oblygiadau pellgyrhaeddol. Byddai'n hurt, i wrthod triniaeth feddygol i'r unigolyn am nad yw meddygon wedi cael y cydsyniad angenrheidiol. Oherwydd hyn, mae'r llysoedd wedi dyfeisio'r hyn y cyfeiriwyd ato fel yr 'athrawiaeth anghenraid', o dan hwn mae penderfyniadau sy'n effeithio ar unigolyn heb alluedd yn gyfreithiol os ydynt yn cael eu gwneud er 'budd gorau' yr unigolyn. Fodd bynnag, mae perygl o ymagwedd nawddoglyd ynghlwm wrth fudd gorau a gall pobl deimlo bod gwneud yr hyn maent yn ei dybio sy'n briodol yn mynd i fod er budd gorau'r unigolyn bob tro. Gall hyn ddiystyru dymuniadau a fynegwyd yn y gorffennol neu fynd yn groes i gredoau crefyddol neu bersonol.

Mae gan asesiadau o alluedd a phenderfynu beth sydd er budd gorau rhywun heb alluedd oblygiadau hawliau dynol sylweddol ac maent yn codi nifer o gwestiynau. Pa mor hyderus ydym ni nad oes gan yr unigolyn alluedd? Beth allwn ni ei wneud i wella eu gallu i benderfynu drostynt eu hunain? Pa ffactorau a ddylid eu hystyried wrth benderfynu beth sydd er eu budd gorau? Pa fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau nad ydynt yn cael eu cam-drin neu fod y cyfrifoldeb i wneud y penderfyniadau hyn yn cael ei gamddefnyddio?

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud

### Rheolau cyffredinol ar gydsynio a gwrthod

Cyn ystyried galluedd, mae'n werth nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cydsynio neu wrthod. Mae hyn yn berthnasol wrth benderfynu a oes cam-drin wedi digwydd (er enghraifft, a gafodd yr unigolyn ei orfodi i lofnodi i drosglwyddo eiddo?) ac i gael eu cydsyniad i gymryd rhan yn y broses ddiogelu. Mae'r gyfraith yn gofyn am y canlynol:

- Gwybodaeth
- Galluedd
- Penderfyniad sydd wedi'i wneud o'i wirfodd gan yr unigolyn

## Gwybodaeth

Weithiau bydd yn anodd penderfynu faint o wybodaeth i'w rhoi i helpu pobl i wneud yr hyn a all fod yn benderfyniadau cymhleth. Mae'n amhosibl rhoi'r holl wybodaeth i rywun, ond mae ganddynt hawl i gael gwybod am y materion pwysicaf sy'n effeithio ar y penderfyniad. Er enghraifft, fel rhan o ymchwiliad diogelu, gall symud person hŷn i gartref gofal gael ei weld fel opsiwn. Rhaid iddo ef neu hi gael gwybodaeth am y goblygiadau ariannol ac eraill posibl cyn penderfynu cytuno i symud. Mewn achosion o gam-drin ariannol, mae'n bwysig ystyried a oedd y person hŷn wedi cael yr wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad ar, er enghraifft, drosglwyddo eu cartref i aelod o'r teulu. Mae rhwymedigaeth ar ymarferwyr i sicrhau bod gan bobl wybodaeth ac i ateb unrhyw gwestiynau maent yn eu gofyn yn onest ac yn llawn, hyd yn oed os nad yw gwybod yr ateb yn cael ei weld fel yr hyn sydd orau iddynt.

Yn 2015 bu Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn adolygu'r gyfraith ar gydsynio i neu wrthod triniaeth feddygol mewn achos a adwaenir fel **Montgomery v NHS Lanarkshire**. Penderfynwyd fod yn rhaid i feddygon sicrhau eu bod yn cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod claf yn ymwybodol o unrhyw risg sylweddol ac unrhyw driniaethau amgen posibl. Mae risg sylweddol yn un:

**“(A)reasonable person in the patient’s position would be likely to attach significance to the risk, or the doctor is or should reasonably be aware that the particular patient would be likely to attach significance to it.”**

Mae hyn yn cefnu ar y gyfraith flaenorol lle'r oedd meddygon yn penderfynu pa wybodaeth i'w rhoi'n seiliedig ar yr hyn y byddai corff cyfrifol o'u cymheiriaid meddygol wedi ei wneud – yr hyn a oedd yn cael ei adnabod fel y prawf Bolam. Wrth ddisgrifio'r risg dywedodd y Llysoedd na ddylai meddygon ddibynnu ar y siawns ganrannol y byddai rhywbeth yn digwydd neu ddim yn digwydd. Yn hytrach, dylai asesiadau risg edrych ar natur y risg a'r effaith ar y claf, pa mor bwysig i'r claf yw unrhyw fudd o'r driniaeth, a beth yw'r opsiynau eraill sydd ar gael. Pwysleisiodd y Llys:

**“... the doctor’s duty is not... fulfilled by bombarding the patient with technical information, which she cannot reasonably be expected to grasp, let alone by routinely demanding her signature on a consent form.”**

Er mai achos o esgeulustod meddygol oedd Montgomery, mae'n nodi cydrannau hanfodol cydsynio neu wrthod mewn achosion o gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn, a gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol. Nid cael llofnod ar ffurflen yw'r nod, ond yn hytrach gwneud yn siŵr bod yr unigolyn wedi gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Nid yw'r llofnod o reidrydd yn derfynol oni bai ei fod wedi'i ategu gan wybodaeth briodol.

## Galluedd

Rhaid bod gan yr unigolyn alluedd (gweler isod).

## O wirfodd

Rhaid i'r unigolyn wneud y penderfyniad o'i wirfodd a heb orfodaeth. Er bod llofnod fel arfer yn dystiolaeth derfynol o gydsyniad, nid yw un a geir oherwydd bygythiadau o drais neu bwysau seicolegol yn ddilys. Mae'r gyfraith yn cydnabod bod yr hyn sy'n cael ei weld yn awr fel ymddygiad rheolgar neu gymhellol yn dirymu cydsyniad neu wrthodiad. Cyfeirid at hyn yn flaenorol fel dylanwad gormodol.

Mae'r diffiniad traws-lywodraeth o drais a cham-drin domestig yn diffinio ymddygiad rheolgar neu gymhellol fel:

**Mae ymddygiad gymhellol yn weithred neu batrwm o weithrediadau ymosodiadau, bygythiadau a neu fathau eraill o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn eu dioddefwr.**

**Mae ymddygiad rheolgar yn gyfres o weithredoedd sydd â'r nod o wneud unigolyn yn israddol a / neu'n ddibynnol drwy eu hynysu o ffynonellau cymorth, camfanteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er mwyn elw personol, eu hamddifadu o'r hyd sydd eu hangen i fod yn annibynnol, i wrthsefyll ac i ddianc ac i reoli eu hymddygiad pob dydd.**

Mewn achosion diogelu, mae ymddygiad cymhellol neu reolgar yn ystyriaeth gan ei bod yn debygol iawn bod gan y cyflawnwr reolaeth ac awdurdod. Mae'r ymddygiad hwn yn aml yn digwydd mewn amgylchedd caeedig, fel cartref yr unigolyn lle mae'n cael ei guddio. Trafodir ymddygiad cymhellol neu reolgar yn fwy manwl ym Mhennod 7. I'r dibenion presennol, dylid ystyried y pwyntiau canlynol wrth benderfynu ai cydsyniad neu wrthodiad yw ewyllys yr unigolyn:

- A oes amheuaeth bod yr unigolyn sydd dan amheuaeth o ymddwyn mewn ffordd gymhellol neu reolgar mewn sefyllfa o ymddiried (er enghraifft, staff cartref gofal, gofalwr neu berthynas)?
- Mewn achosion o gam-drin ariannol, neu drosglwyddo eiddo fel cartref, a yw'r person hyn wedi cael cynnig cyngor cyfreithiol neu gyngor ariannol annibynnol?
- A yw'r ymarferydd wedi gallu siarad â'r person hyn heb i'r cyflawnwr honedig fod yn bresennol?
- A yw'r weithred yn annodweddiadol ac yn groes i gymeriad yn seiliedig ar yr hyn y gwyddoch chi neu a ddwedwyd wrthy ch chi am y person hyn gan rywun sy'n agos atynt?

Nid yw'r rhain ar eu pen eu hunain yn profi dim ond gallant fod yn arwydd ac yn awgrymu y dylid ymchwilio ymhellach.

# Deddf Galluedd Meddyliol 2005

## Yr Egwyddorion

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn codeiddio'r gyfraith ac mae'n disodli cyfraith gynharach a wnaed gan farnwr. Mae'r Ddeddf honno yn gymwys yn achos y rhan fwyaf o benderfyniadau mae pobl yn eu gwneud, er bod eithriadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Penderfyniadau sy'n ymwneud â pherthnasoedd, fel cydsynio i briodas neu bartneriaeth sifil, perthnasoedd rhywiol, ac ysgariad neu ddiddymu yn seiliedig ar wahanu am ddwy flynedd.
- Triniaeth o dan Ran IV o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Pleidleisio.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cynnwys egwyddorion cyfreithiol y mae'n rhaid eu dilyn. Yr egwyddorion yw:

1. Rhagdybiaeth o alluedd – mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddynt y galluedd i wneud hynny oni phrofir yn wahanol.
2. Hawl unigolion i gael cymorth i wneud eu penderfyniadau eu hunain – rhaid i bobl gael pob cymorth ymarferol cyn dod i'r casgliad na allant wneud penderfyniad.
3. Mae gan yr unigolyn yr hawl i wneud yr hyn a all gael ei weld gan eraill fel penderfyniadau echreiddig neu annoeth.
4. 'Budd gorau' – rhaid i bopeth a wneir i neu ar ran pobl heb alluedd fod er eu budd gorau.
5. Ymyrraeth lleiaf cyfyngol – dylai unrhyw beth a wneir ar ran pobl heb alluedd fod yr opsiwn sy'n cyfyngu leiaf ar eu hawliau sylfaenol a'u rhyddid.

Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu dilyn a'u bod yn gallu dangos, trwy gofnodion a gedwir, bod hynny'n digwydd. Er bod yr egwyddorion yn egluro'u hunain, mae'n bwysig nodi'r canlynol:

**Egwyddor 1 – rhagdybiaeth o allu:** dyma'r man cychwyn ar gyfer asesiadau o alluedd. Nid oes yn rhaid i'r unigolyn sy'n cael ei asesu brofi bod ganddo alluedd; rhaid i'r sawl sy'n penderfynu brofi, ar ôl pwysu a mesur y tebygolrwydd, nad oes ganddo alluedd. Y cwestiwn yw, ar sail y dystiolaeth berthnasol, yn fwy na thebyg nad oes gan yr unigolyn alluedd. Mae pobl wahanol yn asesu galluedd – gall fod yn ofalwr di-dâl neu weithiwr ofal cymdeithasol, neu feddyg neu uwch ymarferydd gofal cymdeithasol. Mae'r math o benderfyniad yn amrywio o faterion byw o ddydd i ddydd i symud i ofal preswyl, trafodiad cyfreithiol, neu ymyrraeth feddygol. Er bod cymhlethdod penderfyniadau'n amrywio, mae'r meini prawf yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gymwys ymhob achos. Mewn achosion cymhleth, gall y sawl sy'n gwneud y penderfyniad ofyn am gyngor arbenigol. Fodd bynnag, mae'r llysoedd yn pwysleisio mai'r sawl sy'n penderfynu ac nid yr arbenigwr allai fod wedi cynghori sy'n gwneud y penderfyniad.

**Egwyddor 2 – cynorthwyo pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain:** mae'r egwyddor hon yn gosod dyletswydd eang ar y penderfynwr, a fydd yn gorfod dangos (i lys os bydd angen) bod pob cam ymarferol wedi'u cymryd i gynorthwyo'r unigolyn. Mae Pennod 3 o [God](#)

**Ymarfer** y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cynnwys canllaw ar helpu pobl i benderfynu drostynt eu hunain. Gellir defnyddio llawer o dechnegau, sy'n gynnwys dulliau cyfathrebu amgen fel defnyddio lluniau a dulliau eraill mwy hygyrch, i helpu'r unigolyn i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu. Mae'r ddyletswydd i roi gwybodaeth yn gymwys a rhaid i'r penderfynwr gyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf briodol. Rhaid hefyd ystyried amseriad a lleoliad unrhyw asesiadau: efallai y bydd unigolyn yn ymateb yn well yn ei gartref ei hun yn y prynhawn yn hytrach nag yn gynnar yn y bore mewn meddygfa.

**Egwyddor 3 – penderfyniadau annoeth neu echreiddig:** nid yw'r ffaith bod unigolyn yn gwneud 'penderfyniad direswm' ynddo'i hyn yn golygu nad oes ganddynt alluedd. Dyma safbwynt y llysoedd ers amser, ac maent wedi mabwysiadu ymagwedd weithredol at gymhwysedd cyn Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae gan bawb yr hawl i wneud yr hyn mae pobl eraill yn ei weld fel penderfyniad ffôl; crynhodd un barnwr hyn drwy ddweud bod yr hawl i ddewis yn bod '... er gwaethaf bod y rhesymau dros wneud dewis yn rhesymol, afresymol, anhysbys neu nad ydynt hyd yn oed yn bodoli.' Mae'r Cod yn cydnabod er bod penderfyniad annoeth neu echreiddig yn gallu gwneud i'r penderfynwr ystyried ymchwiliadau pellach, nid yw gwneud penderfyniad o'r fath ynddo'i hun yn ddigon o reswm i ddod i'r casgliad nad oes gan yr unigolyn alluedd.

**Egwyddor 4 – 'budd gorau:** rhagor am hyn isod.

**Egwyddor 5 – ymyrraeth lleiaf cyfyngol:** mae'r egwyddor hon yn defnyddio'r athrawiaeth gymesuredd a nodwyd ym Mhennod 1. Pan fydd rhywun wedi'i asesu fel bod heb alluedd, nid yw'n dilyn bod y sawl sy'n penderfynu yn cael gwneud fel y mynnant i wneud 'beth sydd orau iddynt'. Efallai na fydd angen gwneud dim. Os oes angen gweithredu, efallai y bydd gwahanol opsiynau, ac y bydd rhai nad ydynt mor ymwithiol ac sy'n ymyrryd llai â hawliau dynol yr unigolyn. Wrth benderfynu beth i'w wneud (er enghraifft, a ddylid gwneud cais am awdurdodaeth Amddifadu o Ryddid neu gynnal archwiliad fforensig), rhaid i'r cam arfaethedig gael ei gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniad a fwriadwyd. Felly er bod cytundeb, er enghraifft, mai awdurdodaeth Amddifadu o Ryddid sydd er budd gorau'r unigolyn, ni ddylai hyd yr amddifadedd hwnnw fod yn anghymesur i'r risg.

Rhaid i ymarferwyr gofio bod yr egwyddorion yn egwyddorion cyfreithiol. Yn yr achosion prin sy'n mynd i'r llys, gellir gofyn iddynt sut maent wedi gweithredu'r egwyddorion. Mae'n hanfodol felly cael trefniadau cadw cofnodion da. Hyd yn oed os na fydd yr achos yn mynd i'r llys, mae gan yr unigolyn a'i deulu neu ei gynrychiolwyr yr hawl i wybod bod unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud wedi gwneud o fewn fframwaith Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Mae trin pobl yn gyfartal ac osgoi stereoteipio hefyd yn hanfodol. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn datgan yn glir na ellir penderfynu ar ddiffyg galluedd ar sail oedran neu ymddangosiad unigolyn yn unig, na chyflwr neu ymddygiad a all achosi i bobl wneud tybiaethau na ellir eu cyfiawnhau ar alluedd. Mae Paragraff 4.8 o'r Cod yn rhoi arweiniad ar y defnydd o'r gair 'ymddangosiad':

**“The Act deliberately uses the word ‘appearance’, because it covers all aspects of the way people look. So, for example, it includes the physical characteristics of certain conditions (for example, scars, features linked to Down’s syndrome or muscle spasms caused by cerebral palsy) as well as aspects of appearance like skin colour, tattoos and body piercings, or the way people dress (including religious dress).” (Cod y Ddeddf Galluedd Meddyliol, paragraff 4.8)**

Yn yr un modd, bwriedir i'r defnydd o'r gair 'cyflwr' fod yn gynhwysol ac i beidio gwahaniaethu:

**“The word ‘condition’ is also wide-ranging. It includes physical disabilities, learning difficulties and disabilities, illness related to age, and temporary conditions (for example, drunkenness or unconsciousness). Aspects of behaviour might include extrovert (for example, shouting or gesticulating) and withdrawn behaviour (for example, talking to yourself or avoiding eye contact). (Cod y Ddeddf Galluedd Meddyliol, paragraff 4.9).”**

## Asesu galluedd – yr ymagwedd weithredol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn dilyn yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan y llysoedd cyn iddo ddod i rym. Dywed Adran 2 bod gan unigolyn ddiffyg galluedd:

**“... in relation to a matter if at the material time he/she is unable to make a decision for him/herself in relation to the matter because of an impairment of, or a disturbance in the functioning of, the mind or brain.”**

Dylid cadw tri phwynt mewn cof:

1. **Mae'r prawf yn benodol i bwnc** – mae'n cyfeirio at y ffaith bod yr asesiad yn 'gysylltiedig â mater'. Efallai y bydd gan unigolyn alluedd i wneud rhai pethau a heb alluedd i wneud pethau eraill ar yr un adeg. Dylid osgoi labeli cyffredinol 'analluedd'; anaml iawn y bydd rhywun heb alluedd o gwbl.
2. **Mae'r prawf yn benodol i amser** – mae'n cyfeirio at yr 'amser perthnasol, sef amser y penderfyniad. Nid yw asesiad bod rhywun heb alluedd ar amser penodol yn golygu na fydd ganddo alluedd am byth. Rhaid adolygu'r asesiad i sicrhau os bydd yr unigolyn yn adennill galluedd yn ddiweddarach y gallant wneud penderfyniadau. Dywed Deddf Galluedd Meddyliol 2005 y gall 'impairment or disturbance' fod yn barhaol neu dros dro. Os yw'n debygol y gall yr unigolyn adennill galluedd yn y dyfodol, a bod y penderfyniad yn gallu aros tan hynny, dylid ei ohirio.
3. **Mae'r prawf yn cyfeirio at anallu i benderfynu oherwydd 'impairment of or disturbance in the functioning of the mind or brain'. Mae cysylltiad damweiniol rhwng y ddau** – nid yw'r ffaith na all rhywun benderfynu'n golygu nad oes ganddynt alluedd. Rhaid ei fod oherwydd y nam neu'r amhariad. Yn yr un modd, nid yw'r ffaith bod nam ar rywun yn golygu nad oes ganddynt alluedd os ydynt yn gallu penderfynu drostynt eu hunain.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cyfeirio at anallu i benderfynu, ac mae'n bwysig ystyried beth mae hyn yn ei olygu. Mae adran 3 o'r Ddeddf honno yn rhoi'r diffiniad: nid yw unigolyn yn gallu penderfynu os nad ydynt yn gallu:

1. **deall yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad:** Rhan allweddol o hyn yw hawl yr unigolyn i gael gwybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad. Fel y nodwyd uchod, mae Egwyddor 2 yn ei gwneud yn ofynnol bod help yn cael ei roi i'r unigolyn drwy gyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd y gallant ei deall, mewn fformat hygyrch, mewn lleoliad cyfarwydd, ac ar amser priodol.

2. **cofio'r wybodaeth honno:** Am ba hyd fydd angen cofio'r wybodaeth? Yr ateb syml yw 'am gyhyd ag y bydd angen' i ddefnyddio a phwyso a mesur yr wybodaeth fel rhan o'r broses benderfynu. I rai â galluoedd sy'n amrywio neu sy'n dirywio'n gyflym, efallai mai cyfnod cymharol fyr yn unig fydd ar gael i wneud penderfyniad. Efallai na fydd rhywun yn y sefyllfa hon yn gallu treulio mwy o amser yn penderfynu. Fodd bynnag, rhaid iddynt gael pob cyfle i wneud y penderfyniad er nad yw'r amser sydd ar gael yn ddelfrydol. Mae Adran 3(3) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn dweud na ddylai'r ffaith bod unigolyn yn gallu cofio gwybodaeth berthnasol am gyfnod byr yn unig eu hatal rhag bod yn rhywun sy'n gallu gwneud penderfyniad.
3. **defnyddio na phwyso a mesur yr wybodaeth honno fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad:** Mae hyn yn gysylltiedig â gallu'r unigolyn i ddeall yr wybodaeth a'i defnyddio i wneud y penderfyniad. Mae'r llysoedd wedi pwysleisio hefyd pa mor bwysig yw hi hefyd bod yr unigolyn yn credu'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddo.
4. **cyfleu'r penderfyniad boed drwy siarad, iaith arwyddion neu ddull arall:** Mae hwn yn gategori gweddilliol ac ni fwriedir iddo dynnu'r rhwymedigaeth oddi ar ymarferwyr i ddefnyddio pob dull posibl i gyfathrebu (er enghraifft, iaith arwyddion). Bwriedir i'r categori gynnwys pobl sy'n debygol o fod â galluedd o dan yr amodau y cyfeiriwyd atynt uchod, ond na allant gyfleu eu dymuniadau hyd yn oed gyda chymorth. Yr enghraifft a roddir yn aml yw rhywun â 'locked-in syndrome'.

## Analluedd dros dro

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cydnabod y gall colli galluedd fod yn rhywbeth dros dro'n unig. Gall analluedd dros dro ddeilio o gyflyrau corfforol neu feddygol sy'n achosi dryswch, syrthni neu fod yn anymwybodol, deliriwm, cyfergyd yn dilyn anaf i'r pen, neu drwy ddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Mae adran 2(2) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn datgan yn eglur nad yw'n gwneud gwahaniaeth a yw'r analluedd yn barhaol neu dros dro. Nid yw penderfyniad gan unigolyn yn ystod cyfnod o analluedd dros dro yn gyfreithiol rwymol. Fodd bynnag, pan fydd yr unigolyn yn adennill galluedd, gall wneud penderfyniad sy'n gyfreithiol rwymol. Nid yw penderfyniad sy'n rhwymo o dan y gyfraith a wneir yn ystod cyfnod o alluedd (er enghraifft, gwrthod triniaeth feddygol) yn peidio â bod yn weithredol yn ystod cyfnod o analluedd dros dro (neu'n wir barhaol).

Os collir galluedd dros dro, rhaid i'r sawl sy'n penderfynu ystyried a yw'r unigolyn yn debygol o adennill galluedd. Os yw hynny'n debygol, a oes modd oedi cyn gwneud y penderfyniad? Bydd hyn yn galluogi'r unigolyn i benderfynu. Os oes angen gweithredu ar frys, efallai na fydd modd oedi.

## Y prawf budd gorau

Os yw unigolyn heb alluedd yn achos mater penodol ar adeg benodol, rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n seiliedig ar yr hyn sydd er 'budd gorau' iddynt. Mae'n anodd barnu beth sydd er budd gorau rhywun arall ac i allu gwneud y penderfyniad hwn rhaid gwybod cymaint â phosibl am yr unigolyn a darganfod beth allai ddylanwadu ar eu penderfyniad pe bai'r galluedd ganddynt. Mae perygl i'r sawl sy'n penderfynu orfodi eu syniadau eu hunain o werthoedd ar yr unigolyn – gallant ddefnyddio'r ddadl 'os byddwn i yn esgidiau'r person, mi fyddwn i eisiau...'. Nid dyma'r ffordd gywir o fynd ati. Er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n penderfynu mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cyflwyno rhestr wirio o ffactorau y dylid eu hystyried.

Fel yn achos asesiadau galluedd, mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhybuddio rhag gwneud penderfyniadau budd gorau sy'n seiliedig ar oedran neu ymddangosiad yr unigolyn yn unig, nac ar gyflwr neu agwedd at ei ymddygiad, a allai annog eraill i ddod i gasgliadau na ellid eu cyfiawnhau ynglŷn â beth sydd er ei fudd gorau.

Fel y nodwyd uchod, rhaid i ymarferwyr ystyried a yw'r unigolyn yn debygol adennill galluedd rywbyrd yn y dyfodol ac, os felly, pa bryd mae hynny'n debygol o ddigwydd. Mae cyfrifoldeb ar y sawl sy'n gwneud y penderfyniad i ganiatáu ac i annog yr unigolyn i gyfrannu cymaint â phosibl at y broses; gall hyn gynnwys cynyddu eu gallu i gymryd rhan.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 hefyd yn datgan fod yn rhaid i'r sawl sy'n penderfynu ystyried y canlynol (i'r graddau posibl):

- dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn y gorffennol a'r presennol (yn benodol, unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a wnaeth yn ystod galluedd);
- y credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar eu penderfyniad pe bai ganddynt alluedd; a'r
- ffactorau eraill y byddent yn debygol o'u hystyried pe baent yn gallu gwneud hynny.

Rhoddir sylw i ddatganiadau ysgrifenedig isod. Gellir canfod dymuniadau o'r gorffennol drwy wybodaeth am yr unigolyn, siarad â ffrindiau a gofalwyr, beth sydd gan weithwyr proffesiynol eraill i'w ddweud, ac ymddygiad yr unigolyn yn y gorffennol. Rhaid rhoi sylw i ddymuniadau a theimladau presennol yr unigolyn. Nid yw colli galluedd yn golygu na ddylid ceisio canfod barn yr unigolyn ac ystyried yr hyn sy'n rhesymol i'w dybio. Nid yw'r ffaith nad oes gan yr unigolyn alluedd yn golygu na all gymryd rhan yn y broses benderfynu.

O dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, wrth benderfynu beth sydd er budd gorau unigolyn rhaid ystyried barn:

- unrhyw un sydd wedi'u henwi gan yr unigolyn fel rhywun i ymgynghori â hwy ar y mater dan sylw neu ar faterion o'r fath;
- unrhyw un sy'n gyfrifol am ofalu am yr unigolyn neu sy'n ymddiddori yn eu llesiant;
- unrhyw un sydd ag atwrneiaeth arhosol a ganiatawyd gan yr unigolyn; ac
- unrhyw ddirprwyon a benodwyd ar gyfer yr unigolyn gan y Llys Gwarchod.

Mae hyn yn gymwys yn unig os yw'n ymarferol ac yn briodol i ymgynghori â hwy. Os yw'n argyfwng, er enghraifft, efallai na fydd yn ymarferol i ymgynghori. Yn yr un modd, efallai na fydd yn briodol i ymgynghori â rhywun sy'n cael ei amau o gam-drin yr unigolyn sydd heb alluedd, neu lle mae perthynas sydd wedi dieithrio. Mae'r ymgynghori'n digwydd i ganfod beth sydd er budd gorau'r unigolyn heb alluedd ac nid yr hyn mae'r sawl yr ymgynghorir â hwy am ei weld yn digwydd.

Mae'r llysoedd yn pwysleisio nad oes hierarchaeth rhwng y gwahanol ffactorau a drafodwyd uchod a bod y pwyslais a roddir ar bob un yn dibynnu ar amgylchiadau unigol ac asesiad yr asesydd budd gorau. Bydd dymuniadau'r unigolyn yn bwysig bob amser, ond nid dyna fydd yn cael blaenoriaeth bob amser. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cyfarwyddo penderfynwyr i lunio rhestr wirio o fuddiannau gorau. Yna rhaid i'r penderfynwr ddod i benderfyniad sy'n dilyn y cyfarwyddyd statudol pwysicaf bod unrhyw benderfyniad a wneir er budd gorau'r unigolyn.



## Cynllunio ar gyfer analluedd

O dan gyfraith gyffredin, nid oes pŵer cyffredinol i roi cydsyniad drwy ddirprwy ar ran oedolyn sydd heb alluedd. Nid oes gan 'gydsyniad' priod neu bartner, neu fab neu ferch neu riant plentyn sy'n oedolyn rym cyfreithiol fel arfer. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 mae ffyrdd lle caniateir gwneud penderfyniadau drwy ddirprwy o'r fath:

**Atwrneiaeth Arhosol (LPA):** mae hon yn ddogfen gyfreithiol lle mae person â galluedd (y rhoddwr) yn penodi eraill (y derbynwyr) i ofalu am eu materion os byddant yn colli galluedd. Mae'n hanfodol bod gan y rhoddwr alluedd pan fydd yn gwneud yr LPA. Os nad oes ganddynt, mae gwneud un 'ar eu rhan' yn cyfrif fel cam-drin. Oni bai ei fod yn dweud fel arall, ni fydd pŵer yr LPA yn weithredol oni bai bod y rhoddwr yn colli galluedd. Rhaid i'r LPA gael ei gofrestru â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i fod yn ddilys yn gyfreithiol, ond dim ond os yw'n dod o fewn telerau'r LPA. Gall LPA gynnwys:

- llesiant personol yr unigolyn yn gyffredinol, neu agwedd benodol ar hynny (er enghraifft, lle mae'r rhoddwr yn dymuno byw, er enghraifft), a/neu
- eiddo'r unigolyn a'i faterion yn gyffredinol, neu agwedd benodol ar hynny (er enghraifft, gwerthu cartref y rhoddwr)

Mae darpariaethau arbennig ynghlwm wrth roi neu wrthod cydsyniad i roi neu barhau i roi triniaeth sy'n cynnal bywyd. Rhaid i'r LPA gynnwys darpariaeth benodol sy'n caniatáu i'r derbynnydd wneud penderfyniadau o'r fath.

Os oes LPA yn bodoli, rhaid i ymarferwyr wirio bod y sawl sy'n honni mai ef/hi yw derbynnydd yr awdurdod maent yn ei honni o dan delerau'r LPA. Bydd angen cadarnhau honiad fel 'Rwyf yn dderbynnydd o dan LPA, felly fe allaf fi benderfynu'. Wrth gwrs mewn argyfwng efallai na fydd hynny'n ymarferol os bydd angen gweithredu ar unwaith – ond dylid gwirio hyn ar ôl y digwyddiad os yn bosibl.

Yn anffodus, mae gweithdrefnau sydd wedi'u cyflwyno i warchod pobl rhag cael eu cam-drin yn cael eu camdefnyddio a'u cam-liwio weithiau. Gall hyn ddigwydd gydag LPS os oes gan y derbynnydd reolaeth helaeth neu lwyr dros arian person hŷn sydd heb alluedd. Gallant gamdefnyddio'r pŵer hwn a'i ddefnyddio er eu budd eu hunain. Er enghraifft, gallant dynnu arian o'r cyfrif at eu defnydd eu hunain yn hytrach nag er budd y rhoddwr. Os ydych chi'n amau bod hyn yn digwydd, dylech roi gwybod am eich pryder i'r unigolyn priodol yn eich sefydliad. Dylid rhoi gwybod i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am bryderon, er mwyn iddynt hwy ymchwilio i'r mater.

Mae pŵer yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 i ryddhau derbynnydd o'i ddyletswyddau os ydynt yn camdefnyddio eu pŵer. Er bod y weithdrefn i lunio LPA yn gwneud camdriniaeth yn llai tebygol nag o dan y system flaenorol o Atwrneiaeth Arhosol, mae'r perygl yno o hyd.

Efallai y bydd ymarferwyr yn dal i ddod ar draws Atwrneiaeth Arhosol (EPA) a oedd wedi'i wneud o dan y gyfraith flaenorol. Os oedd wedi'i wneud cyn i'r darpariaethau LPA ddod i rym, mae EPA yn parhau'n ddilys, er mai'r prif wahaniaeth yw eu bod yn gymwys yn achos eiddo a materion ariannol ac nid i lesiant.

**Penderfyniadau Ymlaen Llaw (AD):** Cyfeirir at y rhain weithiau fel 'ewyllysiau byw' neu 'cyfarwyddiadau ymlaen llaw'. Mae AD yn galluogi unigolyn i ddatgan yn ystod galluedd na

fyddant yn dymuno cychwyn triniaeth, nac yn dymuno i driniaeth barhau, os byddant yn colli galluedd. Unwaith eto, ni ddaw'r AD i rym oni bai bod yr unigolyn yn colli galluedd a gellir tynnu AD yn ôl neu ei newid ar unrhyw adeg. Os yw AD yn cynnwys triniaeth cynnal bywyd, mae darpariaethau arbennig yn weithredol, gan gynnwys yr angen i'r unigolyn ddatgan yn ddiamwys yn ysgrifenedig bod triniaeth o'r fath wedi'i chynnwys. Rhaid i'r ddogfen gael ei llofnodi ym mhresenoldeb tyst mewn achosion o'r fath.

Gall meddygon ddiystyru AD os oes rheswm rhesymol dros gredu bod amgylchiadau nad oedd yr unigolyn wedi'u rhagweld ar adeg llofnodi'r ddogfen, ac a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad pe baent wedi eu rhagweld.

**Y Llys Gwarchod:** Mae'r Llys yn goruchwyllo sut mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei gweithredu. Fel rhan o'i rôl, gall y Llys benodi dirprwy i wneud penderfyniadau ar ran unigolyn sydd heb alluedd. Gall y dirprwy fod yn aelod o'r teulu, ffrind, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gweithiwr proffesiynol (cyfreithiwr neu gyfrifydd, er enghraifft), neu unigolyn priodol arall. Wrth weithredu o fewn y pwerau a roddir gan y Llys, gall dirprwy wneud penderfyniad cyfreithiol. Yn ogystal â phenodi dirprwy, gall y Llys Gwarchod hefyd benderfynu ar ran yr unigolyn sydd heb alluedd (i gael triniaeth feddygol, er enghraifft, neu a ddylid gwaredu asedau). Fel arfer, bydd y Llys yn gwneud gorchymyn penodol lle mae un mater i'w benderfynu a phenodi dirprwy pan fydd angen parhaol i wneud penderfyniadau fel yr angen i warchod arian y person rhag cael eu camddefnyddio. Fel yn achos LPA, os yw ymarferydd yn bryderus am y modd y mae dirprwy'n gweithredu ei bwerau, dylent hysbysu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sydd â rôl oruchwyllo dros LPA a gwaith dirprwyon.

## Sut ddylai gael ei ddefnyddio?

Mae galluedd yn berthnasol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, gall y diffyg galluedd fod yn sail i gam-drin, fel pan fydd cyflawnwr yn cymryd mantais yn ariannol ar yr unigolyn heb alluedd. Hefyd, mae'n drosedd i unigolyn gam-drin neu esgeuluso rhywun sydd heb alluedd yn fwriadol, neu rywun mae gan yr unigolyn reswm i gredu sydd heb alluedd. Yn ail, mae galluedd yn bwysig wrth benderfynu sut mae'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu'n gweithio. Mae gan unigolyn â galluedd reolaeth sylweddol ynglŷn â pha mor bell fydd ymchwiliad yn mynd. Gallant wrthod cydweithredu, a gall hyn wneud y broses yn anos. Mae ystod yr opsiynau sydd ar gael yn fwy os yw'r unigolyn â diffyg galluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005; mae'r opsiynau hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau er budd gorau'r unigolyn, a defnyddio awdurdodaeth i Amddifadu o Ryddid.

Mae penderfynu a oes gan unigolyn alluedd neu a yw llwybr a ddilynir er budd gorau'r unigolyn hwnnw'n fater cymhleth. Mae barn broffesiynol yn bwysig a rhaid i ymarferwyr fod yn siŵr bod eu penderfyniad yn un a fyddai'n ennyn parch grŵp o'u cymheiriaid. Pan yn bosibl (ac yn enwedig yn achos penderfyniadau pwysig iawn) dylid trafod safbwyntiau ag ymarferwyr eraill.

## Beth yw'r cyfyngiadau?

Nid yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhoi pŵer i ymyrryd ym mywydau pobl sy'n eiddil ac agored i niwed, ond sydd â galluedd. Nid yw'r awdurdodaeth i weithredu o dan y prawf 'budd gorau' yn bodoli oni bai bod yr unigolyn heb alluedd ar yr adeg berthnasol ac mewn cysylltiad â'r mater perthnasol. Fodd bynnag, os oes gan yr unigolyn alluedd ond ei fod yn 'agored i niwed', gellir ystyried y defnydd o ddyfarniad cynhenid. (Gweler Pennod 6).

Nid yw'r prawf 'buddiannau pennaf' yn golygu y dylem bob amser wneud yr hyn mae ymarferwyr yn credu sy'n ddymunol. Gall ffactorau eraill, fel dymuniadau a fynegwyd yn flaenorol neu farn gofalwyr arwain at gasgliad gwahanol.

## **Pwyntiau i'w cofio:**

- Y pum egwyddor - maent yn egwyddorion cyfreithiol ac nid syniadau da'n unig a rhaid eu dilyn i gadw o fewn y gyfraith.
- Rhaid i unrhyw ddyfarniadau a wneir o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 fod yn rhai a fyddai'n cael eu cefnogi gan gorff cyfrifol o'ch cymheiriaid.
- Rhaid i bob penderfyniad fod yn gydnaws â hawliau dynol yr unigolyn.
- Peidiwch â chymryd galluedd pobl yn ganiataol ar sail oedran, sut maent yn gwisgo, eu ffordd o fyw, na dim byd arall heblaw'r prawf yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Dylai asesiadau o alluedd gael eu hadolygu.

# Pennod 4: Amddifadu o Ryddid

## Cyflwyniad

Mae ein rhyddid yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd yn ganiataol. Fel arfer, ni fydd rhywun yn cael ei amddifadu o'i ryddid oni bai ei fod wedi'i gael yn euog o drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar. Er hynny, mae amgylchiadau eraill lle y gall amddifadu person o'i ryddid fod yn gyfreithlon. O dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, er enghraifft, gellir cadw pobl yn gaeth er mwyn eu hasesu neu roi triniaeth iddynt os ydynt yn bodloni'r meini prawf yn y Ddeddf.

Yn dilyn achos a alwyd yn 'achos Bournemouth' yn wreiddiol ac wedyn (pan aeth i Lys Hawliau Dynol Ewrop) yn achos HL v UK, roedd amddifadu pobl heb alluedd o'u rhyddid mewn cartref gofal neu ysbyty wedi dod yn fater o bryder cenedlaethol. Mae Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD) yn darparu na cheir amddifadu neb o'i ryddid 'save in the following cases and in accordance with a procedure prescribed by law'. Un o'r achosion yn yr Erthygl yw bod y person heb fod yn ei lawn bwyll ('of unsound mind'). Yn achos HL v UK, a benderfynwyd cyn i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ddod i rym, daliodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod yr hen brawf o dan y gyfraith gyffredin o weithredu er y budd pennaf i berson sydd heb alluedd yn rhy fypwyl a heb drefniadau diogelu digonol, yn enwedig o'i gymharu â'r trefniadau diogelu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; felly roedd yn torri amodau Erthygl 5 o'r CEHD. Cafwyd cyfnod o ymgynghori ar ôl hynny ac yn y pen draw cafodd adrannau newydd eu mewnosod yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 i gyflwyno'r hyn a elwir yn 'Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid' (TDAR). Er nad diogelu yw eu prif bwrpas, gallant fod yn berthnasol mewn achosion lle mae oedolyn hŷn heb alluedd yn wynebu risg. Mae amddifadu pobl o'u rhyddid heb awdurdodiad o dan TDAR yn anghyfreithlon, oni bai fod rhyw awdurdod cyfreithlon arall y bodoli.

Mae'n anodd dweud yn union beth yw amddifadiad o ryddid; mae'n wahanol i atal, a all fod yn gyfreithlon o dan amgylchiadau penodol. Mae'r gwahaniaeth rhwng amddifadiad ac atal yn ffeithiol a bydd yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos. Gall amgylchiadau lle mae drysau wedi'u cloi heb bosibilrwydd o adael, dulliau tawelu amhriodol, a hyd yn oed ddiwylliant y cartref neu ysbyty (neb yn meiddio gofyn am gael mynd allan) fod yn ddigon. Mae Adran 64 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn dweud bod ystyr 'amddifadu o ryddid' o dan y Ddeddf yr un fath â'r ystyr yn Erthygl 5 Siarter Hawliau Dynol Ewrop. Dywedodd

Llys Hawliau Dynol Ewrop yn achos HL v UK:

**"...the key factor [in deciding whether it is a deprivation of liberty] is that the healthcare practitioners treating and managing [the patient] exercised complete and effective control over his care and movements' and he 'was under continuous supervision and control and was not free to leave."**

Trafodwyd amddifadu o ryddid gan Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn achos **Cheshire West**, apêl ar y cyd a oedd yn gysylltiedig â dau achos gwahanol. Roedd yr achos cyntaf yn ymwneud â dyn 38 mlwydd oed (P) a oedd â pharlys yr ymennydd a syndrom Down nad oedd yn gallu gofalu amdano'i hun ac a oedd ag angen gofal 24 awr. Roedd arno angen cymorth i gyflawni'r holl weithgareddau wrth fyw o ddydd i ddydd; weithiau byddai'n rhoi darnau o'i bad anymataliaeth yn ei geg. Er mwyn atal hyn, roedd yn gwisgo siwt corff cyfan ac roedd ei geg yn cael ei chwilio â'r bys i dynnu unrhyw ddeunydd a oedd ynddi. Roedd angen ymyrraeth reolaidd

i ymdopi â'i ymddygiad heriol. Roedd yr ail achos yn ymwneud â dwy chwaer, MIG a MEG, a oedd bryd hynny'n 18 ac yn 17 oed yn y drefn honno. Roedd hanes o esgeuluso a cham-drin yn y teulu, a chawsant eu rhoi mewn gofal maeth gan yr awdurdod lleol pan oeddent yn blant. Erbyn amser y gwrandawriad llys cyntaf, roedd MIG yn parhau i fyw yng nghartref ei mam faeth. Ni wnaeth ymdrech i adael, nid oedd drws ei hystafell wely yn cael ei gloi, ac roedd yn mynychu cyfleusterau addysg lleol. Pe byddai wedi ceisio gadael cartref, fodd bynnag, byddai ei mam faeth wedi ei hatal yn gorfforol er mwyn ei rhwystro rhag gwneud hynny. Roedd MEG yn byw mewn uned GIG. Roedd ganddi broblemau ymddygiadol a oedd yn galw am ymyrraeth gan staff; byddai gofalmwr yn mynd gyda hi i ble bynnag yr âi. Roedd yn cael meddyginiaeth tawelu, er nad oedd erioed wedi ceisio gadael yr uned. Nid oedd MIG na MEG yn dod o dan weithdrefn TDAR gan nad oeddent mewn cartref gofal nac mewn ysbyty.

Roedd yn rhaid i'r Goruchaf Lys benderfynu a oedd P, MIG a MEG wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Roedd y Llys Apêl wedi seilio ei ddull o weithredu ar sail y syniad o 'normalwydd cymharol'. Mewn perthynas â P, dywedodd y Llys Apêl mai'r cymharydd priodol yw 'y math o fywydau y byddai pobl fel ef yn disgwyl eu byw fel arfer'. Y gwir oedd bod P yn byw bywyd sydd mor 'normal' ag y gall fod i rywun yn ei sefyllfa ef, ac felly nad oedd yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Nid oedd yn briodol cymharu bywyd P â bywyd oedolyn iach a fyddai'n cael ei ystyried yn amddifad o'i ryddid yn yr amgylchiadau hyn.

Anghytunodd y Goruchaf Lys a chael bod pob un o'r tri wedi'i amddifadu o'i ryddid, er mai budd pennaf y tri oedd y brif ystyriaeth. Mae gan berson ag anabledd yr un hawl i ryddid â phawb arall; os oedd yn amddifadiad i berson nad oedd yn anabl, roedd yn amddifadiad i berson sydd ag anabledd. Y cwestiwn allweddol oedd a yw'r person o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus a heb ryddid i adael. Nid yw cydymffurfiaeth y person, normalwydd cymharol y lleoliad, a'r dibenion sy'n sail iddo yn berthnasol i'r cwestiwn gwrthrychol o ba un a oedd yn amddifadiad ai peidio. Roedd yr Arglwyddes Hale yn y Goruchaf Lys wedi'i roi fel hyn:

**“If it would be a deprivation of my liberty to be obliged to live in a particular place, subject to constant monitoring and control, only allowed out with close supervision, and unable to move away without permission even if such an opportunity became available, then it must also be a deprivation of the liberty of a disabled person. The fact that my living arrangements are comfortable, and indeed make my life as enjoyable as it could possibly be, should make no difference. A gilded cage is still a cage.”**

Fel elwir hyn yn aml yn 'brawf terfynol'.

Y canlyniad i achos Cheshire West yw bod nifer mwy o lawer o bobl wedi'u hamddifadu o'u rhyddid nag a feddylwyd o'r blaen. Mae'r ffaith ei bod yn amherthnasol bod y person yn gydsyniol yn newid sylweddol ac mae wedi arwain at gynnydd mawr yn nifer y ceisiadau am TDAR sy'n aros i gael eu prosesu, ac at gadw nifer mawr o bobl yn gaeth heb awdurdodiad. Mae'r achos yn bwysig hefyd gan ei fod yn cydnabod, os mai'r wladwriaeth sy'n gyfrifol am y trefniadau gofal sy'n achosi'r amddifadiad, nad yw o bwys ble mae'r amddifadiad yn digwydd. Mae TDAR o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gymwys i gartrefi gofal ac ysbytai yn unig. Effaith achos Cheshire West yw bod angen awdurdodiad hefyd os yw'r wladwriaeth (sef yr awdurdod lleol neu'r Bwrdd Iechyd) wedi trefnu bod y gofal sy'n cynnwys amddifadiad i gael ei ddarparu mewn lleoliad byw â chymorth neu yng nghartref y person ei hun, fel y gwnaed yn achos MIG a MEG. Mewn achosion o'r fath, mae angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod i awdurdodi cadw'r person yn gaeth.

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

TDAR sy'n darparu'r weithdrefn ar gyfer rhoi awdurdodiad i amddifadu person o'i ryddid, un ai mewn cartref gofal neu mewn ysbyty. Rhaid pwysleisio mai pwrpas TDAR yw diogelu pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid ac nid darparu ffordd i gadw pobl yn gaeth yn unig.

## Meini prawf ar gyfer TDAR

Mae proses TDAR yn gymhleth, ac yn cynnwys nifer o bobl:

- Y person perthnasol – y person sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid (neu a all gael ei amddifadu o'i ryddid yn y dyfodol agos).
- Yr Awdurdod Rheoli – sef yr ysbyty neu gartref gofal lle mae'r person perthnasol ar adeg y cais, neu lle y bwriedir mynd ag ef. Mae'r Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am wneud cais am awdurdodiad amddifadu o ryddid i'r Corff Goruchwylio.
- Y Corff Goruchwylio – sef yr awdurdod lleol yn achos amddifadiad o ryddid mewn cartref gofal a'r Bwrdd Iechyd yn achos ysbyty. Bydd yn cael y cais gan yr Awdurdod Rheoli ac yn rhoi neu'n gwrthod rhoi'r awdurdodiad ar sail yr asesiadau.
- Yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (EAGM) – mae'r gwasanaeth EAGM ar gael ar gyfer oedolyn lle, yng ngeiriau Deddf Galluedd Meddyliol 2005:

**'...there is no person, other than one engaged in providing care or treatment for P in a professional capacity or for remuneration, whom it would be appropriate for them to consult...'**

Trafodir EAGM ym Mhennod 2.

- Yr Asesydd Budd Pennaf (ABP) – bydd yr ABP yn gwneud yr asesiad budd pennaf. Rhaid i'r ABP ymgynghori â 'phersonau â buddiant'. Y rhain yw:
  - partner (priod neu bartner sifil);
  - plant neu lysblant;
  - rhieni a llysrieni;
  - brodyr a chwiorydd, hanner brodyr a chwiorydd a llysfrodyr a llyschwiorydd;
  - neiniau a theidiau;
  - dirprwy a benodwyd gan Lys;
  - rhoddai Atwrneiaeth Arhosol.

Yr ABP fydd yn penderfynu a yw pobl sydd heb alluedd yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid ac, os ydynt, a yw'r amddifadiad er y budd pennaf iddynt, yn angenrheidiol i atal niwed iddynt ac yn gymesur â'r risg neu'r tebygolrwydd o gael y niwed hwnnw.

O dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, rhaid i'r Corff Goruchwylio wneud chwe asesiad.

**Asesiad oed:** a yw'r person yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn?

**Asesiad galluedd meddyliol:** a yw'r person heb alluedd i gydsynio i'r trefniadau a wnaed ar gyfer ei ofal? (Mae prawf Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gymwys – gweler Pennod 2.)

**Asesiad iechyd meddwl:** a yw'r person yn dioddef anhwylder meddyliol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983?

**Asesiad budd pennaf:** rhaid penderfynu ar dri mater.

a. A yw'r person yn cael ei amddifadu, neu ar fin cael ei amddifadu, o'i ryddid?

b. Os yw, a yw hynny:

i. er y budd pennaf i'r person; a

ii. yn angenrheidiol i atal niwed i'r person ei hun?

c. A yw'r amddifadiad gwirioneddol neu arfaethedig o ryddid yn ymateb cymesur i'r tebygolrwydd o niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw?

**Asesiad dim gwrthodiadau:** i gael gwybod a fyddai awdurdodiad yn groes i unrhyw awdurdod presennol arall ar gyfer penderfynu (er enghraifft, Atwrneiaeth Arhosol neu awdurdodaeth y Llys Gwarchod).

**Asesiad cymhwysedd:** i gael gwybod a ddylai'r person perthnasol ddod o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu TDAR o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Hon yw'r 'weithdrefn safonol'. Gellir gosod amodau ar awdurdodiad safonol, yn cynnwys argymhellion ar gyswllt, diwylliant y person, neu faterion pwysig eraill sy'n ymwneud â'r amddifadiad o ryddid a fyddai'n golygu, os nad oeddent yn cael sylw, nad yw'r amddifadiad er y budd pennaf i'r person.

Dylai awdurdodiad safonol bara mor fyr â phosibl. Os yw'r amgylchiadau a arweiniodd at TDAR wedi cael eu datrys, yna dylai'r awdurdodiad ddod i ben. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y cartref gofal a'r ysbyty i wneud pob ymdrech i beidio ag amddifadu'r person o'i ryddid: gellir cyflawni hyn, er enghraifft, drwy drefnu ymweliadau â'r tu allan, cynyddu gallu'r person i symud o gwmpas o fewn y lleoliad, annog pobl i ymweld ag ef a rhoi mynediad at awyr iach.

Mae darpariaeth hefyd ar gyfer gwneud awdurdodiadau brys. Os oes angen amddifadu'r person o'i ryddid ar frys, gall yr Awdurdod Rheoli roi awdurdodiad brys iddo'i hun sy'n darparu awdurdodiad interim tra bydd y cais am awdurdodiad safonol yn cael ei wneud. Ni ellir gwneud awdurdodiad brys oni bai fod cais yn cael ei wneud am awdurdodiad safonol hefyd yr un pryd. Bydd yr awdurdodiad brys yn para hyd at saith diwrnod, er y gall y Corff Goruchwylio ei estyn mewn amgylchiadau eithriadol.

Yn achos Cheshire West, dywedwyd bod angen awdurdodiad er mwyn i unigolyn sydd ddim mewn cartref gofal neu ysbyty gael ei amddifadu o'i ryddid. Er enghraifft, gallai unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid yn sgil pecyn gofal sy'n cael ei ddarparu yn ei gartref ei hun gan yr

awdurdod lleol, neu efallai ei fod yn byw mewn tŷ â chymorth. Nid yw TDAR o dan broses Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn berthnasol i'r achosion hyn, a rhaid cyflwyno cais i'r Llys. Mae'r weithdrefn yn cael ei nodi mewn Cyfarwyddyd Ymarfer a gyhoeddir gan y Llys. Rhaid defnyddio ffurflen arbennig (COPDOL11), a bydd angen cael cyngor cyfreithiol.

## Y Mesurau Diogelu Rhyddid sy'n disodli TDAR – Gwanwyn 2020

Mae Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yn addasu darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ar gyfer TDAR, drwy eu disodli â'r Mesurau Diogelu Rhyddid (LPS). Disgwylir i'r Mesurau Diogelu Rhyddid gael eu cyflwyno yn ystod Gwanwyn 2020, ond mae'n bosibl y bydd oedi. Nid yw proses Mesurau Diogelu Rhyddid yn gweithredu'r holl argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ynghylch TDAR, ond mae'n gwneud newidiadau sylweddol sy'n mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn achos Cheshire West. Mae hefyd yn ceisio symleiddio'r broses.

At ddibenion Mesurau Diogelu Rhyddid, mae'r diffiniad o amddifadedd yr un fath â'r diffiniad a fabwysiadwyd gan Lys Hawliau Dynol Ewrop, sy'n cael ei adlewyrchu yn y 'prawf terfynol' yn achos Cheshire West. Yn wahanol i TDAR, ni fydd Mesur Diogelu Rhyddid yn cael ei gyfyngu i achosion o amddifadu mewn cartref gofal neu ysbyty; bydd yn cynnwys trefniadau byw yn y gymuned lle mae'r wladwriaeth (yr awdurdod lleol neu'r Bwrdd Iechyd) yn gyfrifol. Nid oes cyfyngiadau ar y math o leoliad lle gellir rhoi awdurdodiad ar waith. Gall y trefniadau gynnwys cludo'r unigolyn sy'n derbyn gofal i neu o le penodol, neu rhwng llefydd penodol.

Rhaid i Fesur Diogelu Rhyddid gael ei awdurdodi gan y 'corff cyfrifol', sef:

- Ysbytai'r GIG – 'rheolwr yr ysbyty'.
- Mewn achosion Gofal Iechyd Parhaus y tu allan i'r ysbyty, y Bwrdd Iechyd perthnasol.
- Yn yr holl achosion eraill, yr awdurdod lleol (mae hyn yn cynnwys ysbytai preifat).

Cyn y bydd y corff cyfrifol yn gallu awdurdodi achos o amddifadu, rhaid iddo gynnal ymgynghoriadau er mwyn gweld beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn a fydd yn destun y Mesurau Diogelu Rhyddid. Rhaid i'r corff cyfrifol ymgynghori â'r canlynol, oni bai ei bod yn anymarferol neu'n amhriodol gwneud hynny:

- yr unigolyn sy'n derbyn gofal;
- unrhyw un sydd wedi'i enwi gan yr unigolyn fel rhywun y dylid ymgynghori â nhw;
- unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ofalu am yr unigolyn, neu sydd â diddordeb yn lles yr unigolyn;
- unrhyw un sydd wedi cael atwrneiaeth arhosol, neu ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod; ac
- unrhyw unigolyn priodol ac EAGM

Rhaid i'r corff cyfrifol ystyried penodi EAGM neu unigolyn priodol. Dylid penodi EAGM os oes gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal y galluedd i gytuno â'r penodiad, ac os yw wedi gofyn i EAGM gael ei benodi. Os nad oes gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal y galluedd i ofyn i EAGM gael ei benodi, dylai'r corff cyfrifol benodi EAGM, oni bai fod y corff cyfrifol yn fodlon na fyddai hynny o fudd i'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Ni fydd EAGM yn cael ei benodi os yw'r corff cyfrifol yn fodlon bod 'unigolyn priodol' ar gael a fyddai'n addas i gynrychioli'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Rhaid i'r unigolyn priodol gytuno i wneud hynny, ac ni chaiff fod yn gysylltiedig â'r gwaith o



gynnig gofal neu gefnogaeth i'r unigolyn sy'n derbyn gofal mewn rôl broffesiynol. Ond, ni fydd yr unigolyn hwnnw yn cael ei ystyried yn addas os oes gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal y galluedd i gytuno bod rhywun yn ei gynrychioli, ond nad yw'n rhoi ei ganiatâd. Os nad oes gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal y galluedd hwnnw, bydd yr unigolyn yn dal yn anaddas os bydd y corff cyfrifol yn fodlon na fyddai o fudd i'r unigolyn sy'n derbyn gofal gael ei gynrychioli gan yr unigolyn hwnnw.

Mae angen bodloni tri amod i gael Mesur Diogelu Rhyddid:

1. rhaid bod gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal anhwylder meddwl o dan a.2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
2. mae'r trefniadau'n angenrheidiol er mwyn atal niwed i'r unigolyn sy'n derbyn gofal, ac yn gymesur i debygolrwydd a difrifoldeb y niwed;
3. nid oes gan yr unigolyn y galluedd i gytuno â'r trefniadau (ond mae'n bosibl bod ganddo'r galluedd i wneud penderfyniadau eraill).

Pwy sy'n asesu a yw'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn bodloni'r amodau? O dan TDAR, yr asesydd budd pennaf oedd yn gwneud hynny. Mae'r Mesur Diogelu Rhyddid yn wahanol; rhywun o'r corff cyfrifol fydd yn gwneud yr asesiad. Ni chaiff yr unigolyn hwnnw fod â chysylltiad uniongyrchol â'r gwaith o gynnig gofal a chefnogaeth i'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

Ond, os bydd yr achos o amddifadu o ryddid yn digwydd mewn cartref gofal, gallai'r awdurdod lleol – os teimlir bod hynny'n briodol – ofyn i reolwr y cartref gofal wneud yr asesiadau, a rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am ei ganfyddiadau yn ei rôl fel y corff cyfrifol.

Mewn rhai achosion, rhaid i'r asesiadau gael eu cynnal gan Weithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Galluedd Meddyliol (AMCP). Yn yr achosion canlynol, rhaid i AMCP gynnal yr asesiadau:

1. mae'r trefniadau'n sicrhau bod yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn byw neu'n cael gofal a thriniaeth mewn lle penodol, ac mae'n rhesymol credu nad yw eisiau byw yno, neu gael gofal neu driniaeth yno;
2. mae'r trefniadau'n sicrhau bod yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn cael gofal neu driniaeth mewn ysbyty annibynnol yn bennaf; neu
3. mae'r achos wedi cael ei gyfeirio gan y corff cyfrifol at Weithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Galluedd Meddyliol, ac mae'r Gweithiwr hwnnw yn derbyn yr atgyfeiriad.

Bydd Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Galluedd Meddyliol wedi cael hyfforddiant arbenigol ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Os yw'r amodau wedi cael eu bodloni, bydd y corff cyfrifol yn gwneud yr awdurdodiad. Mae'n bosibl y bydd yr achos o amddifadu yn digwydd mewn mwy nag un lleoliad, ac mae hynny'n gwneud y Mesur Diogelu Rhyddid yn fwy hyblyg. Gallai'r awdurdodiad cyntaf bara am hyd at 12 mis, ond fe allai'r corff cyfrifol bennu cyfnod byrrach. Mae'n bosibl adnewyddu'r awdurdodiad.

Wrth ei adnewyddu am y tro cyntaf, mae'n bosibl adnewyddu am gyfnod o hyd at 12 mis; ar ôl hynny, mae'n bosibl adnewyddu am hyd at dair blynedd. Wrth geisio adnewyddu'r

awdurdodiad, rhaid i'r corff cyfrifol fod yn fodlon bod yr amodau yn dal i gael eu bodloni, a'i bod yn annhebygol y bydd unrhyw newid sylweddol yng nghyflwr yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Rhaid i'r corff cyfrifol gynnal yr ymgynghoriadau angenrheidiol hefyd.

Ond, os yw'r unigolyn sy'n derbyn gofal mewn cartref gofal, rhaid i reolwr y cartref gofal gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r corff cyfrifol yn datgan bod amodau'r awdurdodiad yn dal i gael eu bodloni, a'i bod yn annhebygol y bydd unrhyw newid yng nghyflwr yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Rhaid i reolwr y cartref gofal hefyd gynnal yr ymgynghoriadau angenrheidiol. Os bydd yn fodlon, gall y corff cyfrifol adnewyddu'r awdurdodiad.

Rhaid i awdurdodiad gael ei adolygu'n rheolaidd. Bydd y Llys Gwarchod yn goruchwyllo'r Mesur Diogelu Rhyddid yn gyffredinol.

## **Sut y dylid ei ddefnyddio?**

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio TDAR – dylid bob amser ystyried y math o ymyriad sy'n lleiaf cyfyngol. Mae'n bosibl y bydd angen defnyddio TDAR i symud rhywun o amgylchedd camdriniol, neu ei atal rhag dychwelyd i amgylchedd o'r fath o gartref gofal neu ysbyty. Bydd angen cydweithio'n agos â'r Awdurdod Rheoli gan ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arno i allu penderfynu a fydd yn gofyn am awdurdodiad.

Bydd bob amser yn bwysig dal y ddysgl yn wastad rhwng nifer o wahanol hawliau dynol – cartref, teulu, bywyd preifat ac amddiffyn rhag triniaeth greulon neu ddiraddiol.

Ni ddylid defnyddio TDAR fel mater o arfer, yn niffyg deddfwriaeth arall, fel modd i amddifadu pobl o'u rhyddid er mwyn eu hamddiffyn rhag eu cam-drin. Mae'r meini prawf yn fanwl a rhaid eu bodloni cyn y gellir awdurdodi amddifadiad o ryddid.

## **Pa gyfyngiadau sydd arno?**

- Ni fydd TDAR yn gymwys oni bai fod y person heb alluedd ac yn cwrdd â'r gofynion eraill yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 – nid yw'n weithdrefn gyffredinol sydd ar gael ym mhob achos lle mae pobl hŷn yn wynebu risg o gael eu cam-drin. Y tu allan i gwmpas Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gellir ystyried yr awdurdodaeth gynhenid. (gweler Pennod 6)
- Nid yw TDAR yn awdurdodi triniaeth feddygol.
- Nid yw TDAR yn gymwys i bobl y gellir eu hamddifadu o'u rhyddid yn eu cartref eu hunain – os yw'r wladwriaeth yn gyfrifol am yr amddifadiad, yna dylid gofyn am awdurdodiad gan y Llys Gwarchod.
- Bydd y Mesurau Diogelu Rhyddid yn disodli TDAR yn y pen draw. Bydd Cod Canllawiau yn cael ei gyhoeddi, ynghyd ag unrhyw reoliadau angenrheidiol. Disgwylir i hyn gael ei roi ar waith yn ystod Gwanwyn 2020.

## Pwyntiau i'w cofio

- Pwrpas TDAR ac LPS yw diogelu'r person, nid hawl i'w harfer ar wahân i amddifadu pobl o'u rhyddid.
- Rhaid i'r holl asesiadau ddangos bod angen awdurdodiad TDAR.
- Os oes Atwrneiaeth Arhosol neu ddirprwy iechyd a lles, dim ond os yw'r rhain yn gefnogol ac os yw'r mater hwn yn dod o dan eu hawdurdod y gellir awdurdodi amddifadiad o ryddid o dan TDAR. Ym mhob achos, rhaid i'r amddifadiad fod er y budd pennaf i'r person.
- Gall amddifadu o ryddid fod ar lawer ffurf.
- Nid yw'r ffaith bod y person yn cydsynio yn golygu nad yw'n amddifadiad o ryddid.

## Datblygiadau cyfredol

Yn dilyn achos Cheshire West, mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sydd angen eu hasesu. Er mwyn ymdopi â'r galw cynyddol, roedd angen blaenoriaethu achosion. Mae hyn wedi arwain at ôl-groniad o achosion. Mae'r goblygiadau o ran adnoddau yn sylweddol, yn enwedig os oes rhaid gwneud ceisiadau i'r Llys Gwarchod lle mae'r amddifadiad yn digwydd y tu allan i gartref gofal neu ysbyty a bod modd ei briodoli i'r wladwriaeth. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr adolygiad o TDAR a chyhoeddi adroddiad yn 2017<sup>1</sup> gan argymhell diwygio'r gyfraith yng nghyd-destun dyfarniad y Goruchaf Lys. Mae'r Mesur Galluedd Meddyliol (Diwygio) yn mynd drwy Senedd San Steffan ar hyn o bryd.

---

<sup>1</sup> Comisiwn y Gyfraith, "Law Commission Mental Capacity and Deprivation of Liberty", [https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2017/03/lc372\\_mental\\_capacity.pdf](https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2017/03/lc372_mental_capacity.pdf) a welwyd 10 Ionawr 2019.

# Pennod 5: Cyfrinachedd a Diogelu Data

## Cyflwyniad

Un maes sy'n peri dryswch mewn perthynas â diogelu oedolion yw sut i reoli gwybodaeth bersonol a sensitif am bobl. Wrth weithio gydag oedolion sy'n cael neu sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, dywedir llawer o bethau wrth ymarferwyr gan y person, ffrindiau, gofalywyr, aelodau o'r teulu ac ymarferwyr eraill. Sut y dylen nhw drin gwybodaeth o'r fath? Mae camsyniadau wedi codi ynghylch cyfrinachedd a diogelu data, yn enwedig y syniad na ellir byth rannu gwybodaeth. Y disgwyliad o dan y gyfraith a'r weithdrefn diogelu yw y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu. Yn yr un modd â diogelu plant, y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau o achosion yw bod methu â rhannu gwybodaeth yn aml yn arwain at ganlyniadau trist.

Er bod 'cyfrinachedd' a 'diogelu data' yn dermau sy'n aml yn cael eu defnyddio fel petaent yn gyfystyr, maent yn bethau gwahanol. Mae cyfrinachedd yn disgrifio dyletswydd, er enghraifft, rhwng gweithiwr cymdeithasol neu gyfreithiwr a'i gleient lle mae disgwyl na fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â neb arall oni bai fod sail gyfreithiol dros wneud hynny. Mae diogelu data, fel y mae'r enw yn awgrymu, yn ymwneud â'r ffordd y mae gwybodaeth bersonol a ddelir am unigolion yn cael ei diogelu wrth ei 'phrosesu' (er enghraifft, casglu, dal, trefnu, ymgynghori, datgelu, a dinistrio) fel y bydd yn cael ei defnyddio'n deg ac yn gyfreithlon.

Nid yw gwybodaeth a roddir i ymarferydd yn cael ei darparu ar sail bersonol: bydd yn cael y wybodaeth fel ymarferydd ac yn amlach na pheidio fel cyflogai. Nid yw'n gyfrinach bersonol a rennir gan ddarparwr y wybodaeth.

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

### Cyfrinachedd

Mae rhai perthnasoedd wedi'u seilio ar ddyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol. Y berthynas rhwng meddyg a'i glaf yw'r enghraifft a grybwyllir amlaf, ond mae'r ddyletswydd yn gymwys i eraill, yn cynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol, nyrsys, cyfreithwyr, offeiriaid a gwirfoddolwyr. Ceir perthynas gyfrinachol lle mae disgwyliad ar ran y darparwr y bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol, dyletswydd sydd wedi'i hymgorffori'n aml mewn codau ymarfer proffesiynol. Y rheswm dros y ddyletswydd yw y byddai pobl yn amharod i siarad ag ymarferwyr (am faterion personol a phreifat yn aml) oni bai eu bod yn teimlo'n sicr bod yr hyn a ddywedir yn cael ei drin yn gyfrinachol. Gellir cymryd bod gwybodaeth a ddarperir neu a geir gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gorfodi'r gyfraith a gofal cymdeithasol yn rhan o'r broses diogelu, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r broses yw dangos bod y ddyletswydd yn gymwys.

Hyd yn oed os rhoddwyd gwybodaeth o fewn perthynas gyfrinachol a bod hawl i'w pharchu, nid yw'r gyfraith yn mynnu bod yr ymarferwyr yn ei chadw iddyn nhw eu hunain. Yr hyn y mae'n ei ddisgwyl yw na fydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei rhannu'n gymdeithasol neu'n gyhoeddus â phobl sydd heb angen proffesiynol i'w chael. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ellir, ac yn wir na ddylid, rhannu'r wybodaeth ag eraill yn rhan o'r broses diogelu. Yn union fel y mae budd i'r cyhoedd mewn cadw gwybodaeth yn gyfrinachol, mae budd cyhoeddus sy'n cystadlu â hynny i rannu gwybodaeth, pan fo angen, i amddiffyn y cleient, oedolion neu blant eraill, neu ymarferydd arall.

Mae'n anodd dweud yn union pa wybodaeth sy'n cael ei diogelu gan y ddyletswydd cyfrinachedd gan nad yw'r gyfraith ar gyfrinachedd i'w chael mewn Deddf Seneddol; yn hytrach, mae'n gyfraith sydd wedi'i datblygu gan y barnwyr. Dywedodd un barnwr fod rhaid i'r wybodaeth ddangos:

**“ ... the necessary quality of confidence about it, namely, it must not be something which is public property and public knowledge.”**

Felly gofal piau hi: gwell trin yr holl wybodaeth am y cleient fel pe bai'n gyfrinachol. Er enghraifft, dylid diogelu'r ffaith eich bod chi wedi ymweld â chleient o dan y ddyletswydd, hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu datgelu yn gyhoeddus bwrpas neu ganlyniad yr ymweliad. Mae prawf synnwyr cyffredin yn ddefnyddiol – neu brawf 'y dyn rhesymol' fel y mae cyfreithwyr yn ei alw. A fyddai dyn rhesymol yn esgidiau derbynnydd y wybodaeth wedi sylweddoli ar sail resymol fod y wybodaeth yn cael ei rhoi'n gyfrinachol. Mae'r 'dyn rhesymol' neu, yn fwy priodol, y 'person rhesymol' yn un sy'n arfer gofal a medr arferol wrth farnu; defnyddir ei farn yn y gyfraith i benderfynu ar atebolrwydd. Cyfeiriodd un barnwr ato fel person 'on the Clapham omnibus'.

Fel y soniwyd, nid yw natur gyfrinachol y wybodaeth a roddir o dan y weithdrefn diogelu yn golygu na fydd yn mynd yn ddim pellach na'r gweithiwr proffesiynol y rhoddyd hi iddo. Un peth na all ymarferwyr ei wneud yw gwarantu i'r cleient na fydd yr hyn a ddywed yn mynd 'dim pellach'; bydd yn rhaid cofnodi'r wybodaeth yn briodol a'i chadw ar ffeil a rhaid adrodd ar bryderon ynghylch materion diogelu. Yn bwysicaf oll, caiff y wybodaeth ei rhannu o fewn y tîm, yn cynnwys ymarferwyr o asiantaethau eraill. Mae'r Canllawiau a ddyroddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiogelu oedolion yn pwysleisio natur amodol y ddyletswydd:

**'Mae dyletswydd cyfrinachedd ar ymarferwyr. Mae hyn yn bwysig o ran cynnal hyder a chyfranogiad mewn gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn ddyletswydd lwyr a gellir ei thorri os mai dyma sydd orau er lles yr unigolyn neu er lles y cyhoedd yn gyffredinol.'** (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg, para 44)

Wrth gwrs, bydd hyn yn effeithio ar y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r cleient. Mae'r Canllawiau yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ymarferwyr fod yn agored â phobl lle gallai fod angen iddynt rannu gwybodaeth ag ymarferwyr eraill neu awdurdodau fel yr heddlu. Felly bydd yn hanfodol egluro hyn yn gynnar fel y bydd y cleient yn gallu dewis ar sail gwybodaeth a fydd yn rhoi gwybodaeth. Mae'n bwysig na fydd yr anawsterau a all fod ynglŷn â sgysiau o'r fath yn drech na'r angen i amddiffyn unrhyw oedolyn sy'n wynebu risg.

## **Pryd y mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth gyfrinachol ag eraill?**

Gall darparwr y wybodaeth roi cydsyniad i rannu'r wybodaeth. Rhaid i unrhyw gydsyniad fod wedi'i seilio ar wybodaeth a rhaid hysbysu'r darparwr am y defnydd y gellir ei wneud o'r wybodaeth, yn cynnwys unrhyw unigolion neu sefydliadau y gellir ei rhannu â nhw.

O dan a.128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI(C) 2014) rhaid i 'bartner perthnasol' i awdurdod lleol ei hysbysu os yw'n credu bod person yn ei ardal yn oedolyn sy'n wynebu risg (neu lle mae'r person yn ardal rhyw awdurdod lleol arall, hysbysu'r awdurdod arall hwnnw). Rhaid i awdurdod lleol hefyd hysbysu awdurdod lleol arall (yng

Nghymru neu Loegr) os yw oedolyn y mae'n amau ei fod yn wynebu risg yn byw yn ardal yr awdurdod arall hwnnw neu'n symud iddi.

Gellir cael budd cyhoeddus tra phwysig mewn datgelu'r wybodaeth gyfrinachol i eraill hyd yn oed os na fydd darparwr y wybodaeth yn cydsynio i hynny. Gall y budd cyhoeddus tra phwysig hwn ymwneud, er enghraifft, ag achub oedolyn sy'n wynebu risg neu achub person arall rhag marwolaeth neu anaf difrifol.

Nid yw'n dderbyniol cadw gwybodaeth diogelu yn ôl ar y sail ei bod yn 'eiddo' i'ch asiantaeth a bod rhaid peidio â'i rhannu ag eraill. Y pwrpas sylfaenol wrth rannu gwybodaeth yw i'r rheini sy'n gweithio o dan y gweithdrefnau diogelu gael asesiad cynhwysfawr ac amlddisgyblaethol o sefyllfa'r person. Mae hefyd yn bwysig am ei bod yn bosibl y byddai eitem o wybodaeth nad yw'n ymddangos yn arwyddocaol, o'i rhoi ochr yn ochr â gwybodaeth debyg a gafwyd gan ymarferwyr eraill, yn dangos bod risg fawr. Nid yw'n dderbyniol bod un gweithiwr proffesiynol yn cadw gwybodaeth iddo'i hun ar y sail ei bod wedi cael ei rhoi'n gyfrinachol.

## Hawliau Dynol

Fel y gwelwyd ym Mhennod 1, mae Erthygl 8 o'r CEHD yn diogelu 'bywyd preifat', ymysg pethau eraill. Mae bywyd preifat yn cynnwys yr hawl i wybodaeth sensitif a chyfrinachol a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus gael ei pharchu a pheidio â chael ei rhannu'n anghyfreithlon. Roedd Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi cydnabod hyn ym 1993 yn achos Z v Finland. Y data personol a oedd dan sylw yn yr achos hwnnw oedd cofnodion meddygol; mae'r un egwyddor yn gymwys i wybodaeth sy'n ymwneud â diogelu oedolion. Dywedodd y Llys:

**“In this connection, the Court will take into account that the protection of personal data, not least medical data, is of fundamental importance to a person's enjoyment of his or her right to respect for private and family life as guaranteed by Article 8 of the Convention. Respecting the confidentiality of health data is a vital principle in the legal systems of all the Contracting Parties to the Convention. It is crucial not only to respect the sense of privacy of a patient but also to preserve his or her confidence in the medical profession and in the health services in general.”**

Fodd bynnag, fel yr ydym wedi gweld, mae'r hawl yn Erthygl 8 yn hawl amodol sy'n caniatáu ymyrryd os bydd amodau penodol wedi'u bodloni. Wrth rannu gwybodaeth o'r fath, rhaid bodloni'r meini prawf yn Erthygl 8(2) o'r CEHD er mwyn i hynny fod yn gyfreithlon. (Gweler Pennod 1).

## Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Yn yr un modd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, mae camsyniadau wedi codi mewn perthynas â diogelu data. Nid yw cyfraith diogelu data yn atal rhannu gwybodaeth, ond mae'n rheoli'r ffordd y gellir 'prosesu' mathau penodol o ddata. Mae symiau sylweddol o wybodaeth bersonol yn cael eu dal gan gyrff cyhoeddus a phreifat, ar ffurf electronig ac ar ffurfiau traddodiadol fel ffeiliau papur. Heb reoliadau priodol ar gyfer sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan y deiliad, gellid storio gwybodaeth a'i defnyddio heb unrhyw fesurau diogelwch ac at ddibenion heblaw'r rheini a fwiadwyd gan ddarparwr y wybodaeth. Wrth ddiogelu oedolion, byddai storio a defnyddio gwybodaeth sensitif yn ddiogel yn gallu peri i'r person wynebu risg ychwanegol, yn ogystal â thresmasu ar ei hawliau dynol. Felly mae cyfraith diogelu data wedi'i

bwriadu'n rhannol i amddiffyn yr unigolyn pan gaiff data eu storio a'u defnyddio gan berson arall neu sefydliad.

Yn ddiweddar, mae Senedd San Steffan wedi pasio Deddf Diogelu Data 2018 (DDD 2018). Yn ogystal â hyn, er 25 Mai 2018, mae rheoliad yr Undeb Ewropeaidd, y GDPR, yn cael effaith uniongyrchol yn yr holl aelod-wladwriaethau. Mae hyn yn cynnwys y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae'r trefniadau pontio ar gyfer yr ymadawriad posibl â'r Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd yn parhau'n gymwys ar ôl Brexit. Mae DDD 2018 yn manteisio ar y cyfle sydd yn y GDPR i wladwriaethau unigol addasu'r rheoliad yn eu gwlad eu hunain, felly mae'r gyfraith gyfredol i'w chael yn DDD 2018 ac yn y GDPR. Mae Erthygl 1 o'r GDPR yn cydnabod bod amddiffyn bodau dynol mewn perthynas â phrosesu data personol yn hawl sylfaenol. Fel y gwelwyd ym Mhennod 1 ynghylch Hawliau Dynol, mae hawliau yn aml yn galw am fantoli manwl ac nid yw'r hawliau yn y GDPR yn eithriad yn hyn o beth. Mae Erthygl 4 o'r GDPR yn cadarnhau hyn:

**'The processing of personal data should be designed to serve mankind. The right to the protection of personal data is not an absolute right; it must be considered in relation to its function in society and be balanced against other fundamental rights, in accordance with the principle of proportionality.'**

Gyda'i gilydd, mae DDD 2018 a'r GDPR yn amddiffyn hawliau unigolion wrth brosesu data personol drwy:

- Ei gwneud yn ofynnol bod data personol yn cael eu prosesu'n gyfreithlon ar sail cydsyniad y person neu ar ryw sail gyfreithlon arall.
- Rhoi hawl i 'wrthrych y data' i gael gwybodaeth am brosesu ei ddata personol a'r hawl i fynnu bod gwybodaeth anghywir yn cael ei chywiro.
- Rhoi'r ddyletswydd i orfodi'r gyfraith i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyflwynir cwynion a phryderon ynghylch defnyddio data personol i'r Comisiynydd.

Sylwer ar y diffiniadau allweddol canlynol:

- **Data personol:** gwybodaeth am unrhyw 'unigolyn byw adnabyddadwy'. Gelwir y person sydd wedi'i adnabod neu y gellir ei adnabod yn wrthrych y data.
- **Unigolyn byw adnabyddadwy:** Y cwestiwn yw a ellir gwahaniaethu rhwng y person a phersonau eraill ar sail yr holl wybodaeth a ddelir. Yr enghraifft fwyaf amlwg yw enw'r person, er y gall fod yn bosibl adnabod person heb wybod ei enw. Fodd bynnag, gall hefyd gynnwys rhif adnabod, data am leoliad ac unrhyw ddull adnabod ar-lein (fel cyfeiriad e-bost neu enw defnyddiwr). Mae'n bosibl y bydd angen cael rhyw wybodaeth ar ben y wybodaeth sy'n cael ei dal ar y pryd i adnabod y person.
- **Prosesu:** mae hyn yn cynnwys casglu, cofnodi a storio gwybodaeth. Mae hefyd yn cynnwys ei haddasu neu ei newid, ei defnyddio, ei datgelu, a'i dileu. Sylwer ei fod yn golygu mwy na rhannu gwybodaeth.
- **Y rheolydd data:** y bod dynol neu berson cyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth, neu gorff arall sy'n penderfynu'r dibenion a'r ffyrdd o brosesu data personol.

Mae deall a dilyn yr hyn sy'n cael eu galw'n **egwyddorion diogelu data** yn hanfodol i DDD 2018 a'r GDPR. Wrth brosesu data personol, rhaid i ymarferwyr lynu wrth yr egwyddorion.

Mae'r egwyddorion newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod y gofynion canlynol yn cael eu bodloni wrth brosesu gwybodaeth bersonol:

**Egwyddor 1 - cyfreithlondeb, tryloywder a thegwch:** Mae'r GDPR yn nodi chwe sail gyfreithlon i brosesu. Mae'r rhain yn cynnwys cydsyniad (gweler isod) gwrthrych y data; rhwymedigaeth gyfreithiol i brosesu'r wybodaeth; lle y bo angen hynny i achub bywyd; neu lle y bo angen hynny i gyflawni tasg er lles y cyhoedd neu i gyflawni swyddogaeth swyddogol (ar yr amod bod sail mewn cyfraith i'r dasg neu swyddogaeth). Mae'n hanfodol bod y sail gyfreithiol briodol yn cael ei phennu cyn prosesu data personol.

**Egwyddor 2 – terfynau'r dibenion:** rhaid i'r rheswm dros brosesu'r data personol gael ei wneud yn glir, a rhaid iddo gael ei wneud am reswm dilys. Ni chaniateir prosesu heblaw i'r dibenion y casglwyd y wybodaeth ar eu cyfer.

**Egwyddor 3 – lleihau data:** rhaid i'r data personol fod yn ddigonol (a dim mwy), yn berthnasol i'r rheswm dros eu cadw, a heb fod yn ormodol.

**Egwyddor 4 – cywirdeb:** rhaid i'r data personol fod yn gywir (rhaid cywiro neu ddileu unrhyw wallau yn ddioed) ac yn gyfamserol.

**Egwyddor 5 – cyfyngiad ar storio:** rhaid peidio â chadw'r wybodaeth am gyfnod hirach nag sydd ei angen.

**Egwyddor 6 – uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch):** rhaid i'r data personol gael eu prosesu'n ddiogel i atal eu defnyddio'n anghyfreithlon neu eu colli.

Er mwyn sicrhau atebolrwydd, mae'r rheolydd data yn gyfrifol am gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a rhaid iddo allu dangos ei fod yn cydymffurfio â nhw.

Mae Erthygl 6 y GDPR yn nodi nifer o seiliau cyfreithiol dros brosesu gwybodaeth bersonol – mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Cydsynio:** mae'r unigolyn wedi cydsynio'n glir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.
- **Rhwymedigaethau cyfreithiol:** mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei phrosesu er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith.
- **Buddiant allweddol i fywyd:** mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei phrosesu er mwyn achub bywyd rhywun.
- **Tasg gyhoeddus:** mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei phrosesu er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau cyhoeddus, ac mae sail gyfreithiol glir i'r dasg neu'r swyddogaeth.

Mae llawer o sôn yn y GDPR am gydsyniad fel ffordd i fodloni'r gofyniad am gyfreithlondeb yn Egwyddor 1. Mae'n gosod safonau uwch ar gyfer cydsynio nag o dan gyfraith flaenorol. Rhaid rhoi dewis gwirioneddol i bobl a rhaid iddynt gydsynio'n gadarnhaol yn hytrach na bod cydsynio yn ddiodyn. Rhaid iddo fod yn gydsyniad ar sail gwybodaeth a rhaid rhoi ateb gonest i unrhyw



gwestiynau neu ymholiadau. Dylid enwi unrhyw reolwyr data trydydd parti a fydd yn dibynnu ar y cydsyniad – awdurdod cyhoeddus arall, er enghraifft. Nid yw cydsyniad cyffredinol yn ddigon; rhaid cael cydsyniad penodol. Hefyd rhaid i bobl allu tynnu cydsyniad yn ôl yn rhwydd a rhaid i gydsyniad beidio byth â bod yn rhagamod ar ddarparu gwasanaeth. Dylai ymarferwyr sicrhau bod cydsyniad yn cael ei roi o wirfodd, a gallu dangos hynny.

Rhaid i gyflogwyr yr ymarferwyr fabwysiadu polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau i sicrhau cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Fodd bynnag, rhaid i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r fframwaith cyffredinol y maent yn gweithio oddi mewn iddo. Mae'n bwysig eu bod yn deall yr egwyddorion diogelu data a sut maent yn gymwys i ddiogelu oedolion.

## **Sut y dylid ei ddefnyddio?**

Drwy'r amser. Mae parchu cyfrinachedd a diogelu data yn hollbwysig. Rhaid i wybodaeth a gesglir yn ystod y broses diogelu gael ei thrin yn sensitif gan roi sylw dyledus i hawliau darparwr y wybodaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rheswm dros beidio â'i rhannu ag ymarferwyr eraill.

## **Pa gyfyngiadau sydd arno?**

Nid oes cyfyngiadau arno fel y cyfryw gan fod gofynion o ran cyfrinachedd a diogelu data yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol clir, er bod y rhain yn galw ar ymarferwyr i arfer eu crebwyll proffesiynol.

## **Pwyntiau i'w cofio**

- Peidiwch byth ag ymrwymo i gyfrinachedd llwyr – mae rhwymedigaeth i rannu gwybodaeth ag ymarferwyr eraill, yn cynnwys yr heddlu.
- Gofalwch bob amser fod y person yn gwybod na allwch gadw gwybodaeth i chi'ch hun cyn iddo ddisgrifio beth a ddigwyddodd – gall benderfynu wedyn a fydd yn datgelu gwybodaeth.
- Mae'r gallu i ymchwilio'n drwyadl i achosion lle mae amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod yn dibynnu ar drosglwyddo'r holl wybodaeth rhwng yr ymarferwyr perthnasol.
- Rhaid peidio â rhannu'r wybodaeth a gewch y tu allan i gylchoedd proffesiynol.
- Rhaid delio â'r holl wybodaeth a gewch yn unol â'r egwyddorion diogelu data.

# Pennod 6: Diogelu Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Cyflwyniad

Cyn i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI(C) 2014) ddod i rym, roedd diogelu oedolion (neu amddiffyn oedolion agored i niwed) yn dibynnu ar y canllawiau statudol Mewn Dwylo Diogel. Er bod y canllawiau hyn yn cydnabod y pwysigrwydd o gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, roedd cydnabyddiaeth nad oeddent bellach yn addas i'w diben. Felly, roedd angen dull newydd o weithredu i sicrhau, ymysg pethau eraill, fod mesurau i ddiogelu oedolion yn gyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD). Er bod Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell mai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol a ddylai fod â'r cyfrifoldeb arweiniol am gydgyssylltu mesurau diogelu oedolion, yn cynnwys dyletswydd i 'ymchwilio', roedd wedi gadael i lywodraethau Cymru a San Steffan benderfynu a ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd gynnwys pwerau gorfodi, fel y rheini yn Neddf Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (yr Alban) 2007.

Mae rhoi diogelu oedolion ar sail statudol yn gyflawniad pwysig gan ei fod bellach ar yr un gwastad ag amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae'n bwysig na cholli'r profiad a'r wybodaeth sydd gan ymarferwyr diogelu oedolion ar ôl gweithio o dan Mewn Dwylo Diogel. Mae DGCLI(C) 2014 yn darparu **fframwaith** statudol ac, yn yr un modd â phob deddfwriaeth, nid yw'n rhoi atebion hawdd i ymarferwyr ond yn hytrach yn darparu cyd-destun ar gyfer gwneud a gweithredu penderfyniadau ar sail crebwyll proffesiynol. Mae profiad proffesiynol a phenderfynu da mor bwysig ag erioed.

## Yr awdurdodaeth gynhenid

Cyn amlinellu DGCLI(C) 2014, bydd yn werth nodi awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys. Mae'r awdurdodaeth gynhenid yn un o egwyddorion y gyfraith sy'n dweud y gall llys uwch wrando unrhyw fater sy'n dod o'i flaen, oni bai fod statud neu reol yn cyfyngu'r awdurdod hwnnw neu'n rhoi awdurdodaeth unigryw i ryw lys neu dribiwnlys arall. Mae'n fath o awdurdodaeth ddiodyn a all fod yn ddefnyddiol mewn achosion diogelu.

Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, cyn i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ddod i rym, y barnwyr a oedd wedi datblygu'r gyfraith ar alluedd a'r budd pennaf gan nad oedd deddfwriaeth a oedd yn gymwys, a bod rhaid gweithredu er mwyn amddiffyn oedolion agored i niwed. Ers i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ddod i rym, mae'r holl achosion sy'n ymwneud â galluedd yn cael eu trafod o dan y Ddeddf; disodlwyd yr awdurdodaeth gynhenid o ran galluedd.

Fodd bynnag, ceir grwpiau eraill o bobl a all fod â galluedd ond sydd yn agored i niwed. Mae'r llysoedd wedi datblygu'r awdurdodaeth gynhenid i gwmpasu oedolion agored i niwed sydd y tu allan i gwmpas Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mewn achos yn 2006 o'r enw **Re SA**, datblygodd Munby J y cysyniad o oedolion agored i niwed. Dywedodd:

**“A vulnerable adult who does not suffer from any kind of mental incapacity may nonetheless be entitled to the protection of the inherent jurisdiction if he or she is, or is reasonably believed to be, incapacitated from making the relevant decision by reason of such things as constraint, coercion, undue influence or other vitiating factors.”**

Un enghraifft o'r defnydd o'r awdurdodaeth gynhenid mewn achosion lle nad yw galluedd yn ystyriaeth yw achos *A Local Authority v DL* yn 2012. Roedd yr achos yn ymwneud â chwpl hŷn a oedd ill dau'n meddu ar alluedd meddyliol ond a oedd yn wynebu ymddygiad cymhellol a gormesol gan eu mab. Daliodd y llys y gallai ddefnyddio'r awdurdodaeth gynhenid i helpu i 'ryddhau ymreolaeth' y cwpl hŷn a oedd yn agored i niwed. Cadarnhawyd hyn mewn achosion diweddarach lle'r oedd y Llys Apêl wedi dal bod hyn yn cydweddu â'r hawl yn Erthygl 8 o'r CEHD i gael bywyd preifat. Roedd yn galluogi'r cwpl i fwynhau'r hawl hon heb gael eu gormesu gan eu mab.

Gellir defnyddio'r awdurdodaeth gynhenid mewn achosion diogelu os oes bwlch yn y fframwaith deddfwriaethol. Os yw'r ffeithiau'n dod o fewn cwrpas Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu DGCLI(C) 2014, yna ni ellir ei defnyddio. Mae cyfraith a wneir gan Senedd San Steffan neu'r Cynulliad yn oruchaf. Fodd bynnag, y tu allan i'r fframwaith statudol, fe all yr awdurdodaeth gynhenid fod ar gael mewn achosion sy'n ymwneud â risg fawr.

## **Trosolwg ar ddiogelu o dan DGCLI(C) 2014**

Mae Rhan VII o DGCLI(C) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud ymholiadau, neu beri iddynt gael eu gwneud, lle mae ganddynt sail resymol dros gredu bod 'oedolyn sy'n wynebu risg' yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae Adran 126(1) yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg; mae'n gysylltiedig ag angen yr oedolyn am ofal a chymorth o dan DGCLI(C) 2014. Ar ôl cwblhau'r ymholiadau, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu pa gamau y bydd yn eu cymryd, os bydd yn gweithredu.

Er mwyn cynnal y broses diogelu, mae DGCLI(C) 2014 yn cyflwyno gorchymyn newydd o'r enw Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ('APSO'). Mae hwn yn caniatáu i 'Swyddog Awdurdodedig' fynd i mewn i fangre i asesu a yw oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg ac sydd ag angen cymorth. Gwneir yr APSO gan ustus heddwch ar ôl cael cais gan y Swyddog Awdurdodedig. Mae DGCLI(C) 2014 yn pennu'r amodau, y dibenion a'r weithdrefn ar gyfer ymgeisio.

Mae dyletswyddau ar yr holl awdurdodau lleol a 'phartneriaid perthnasol' i hysbysu'r awdurdod lleol priodol am achosion lle mae amheuaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod. Mae Adran 162(4) yn diffinio 'partner perthnasol'. Mae'n cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol eraill, yr Ysgrifennydd Gwladol, y gwasanaeth prawf, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG, Gweinidogion Cymru, ac unrhyw rai eraill sydd wedi'u cynnwys mewn rheoliadau.

Mae DGCLI(C) 2014 yn sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i roi cymorth a chynghor, yn ogystal â chwe Bwrdd Diogelu rhanbarthol ar gyfer oedolion ac ar gyfer plant. Gall ymarferwyr weld pa un yw eu bwrdd rhanbarthol drwy ddefnyddio'r map rhyngweithiol yn <http://safeguardingboard.wales/find-your-board/>. Mae DGCLI(C) 2014 yn cynnwys y posibilrwydd o gyfuno byrddau plant a byrddau oedolion.

Cyflwynir diwygiadau penodol gan DGCLI(C) 2014 yn Rhan VII – Diogelu: Oedolion sy'n Wynebu Risg. Fodd bynnag, nid yw diogelu i gael ei osod ar wahân. Mae'r angen i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg yn bresennol yn yr holl ddarpariaethau gofal cymdeithasol yn DGCLI(C) 2014. Mae hyn yn ategu'r neges bod diogelu yn fater i bawb ac nid yn fater i dimau diogelu yn unig.

Er mwyn helpu i weithredu DGCLI(C) 2014, cyhoeddwyd canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru o'r enw Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 – Working Together to Safeguard People. Dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â'r Cyfrolau a ganlyn:

- Introduction and Overview (Canllawiau, Cyfrol 1)
- Adult Protection and Support Orders (Canllawiau, Cyfrol 4)
- Handling Individual Cases to Protect Adults at Risk (Canllawiau, Cyfrol 6)

Mae Cyfrolau 2, 3 a 5 yn ymdrin ag Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, a Delio ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg. Mae'r rhain y tu allan i gwmpas y Canllawiau hyn.

## Diffiniadau

**Oedolyn:** Y diffiniad o 'oedolyn' yn DGCLI(C) 2014 yw person sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn (a.3(2)).

**Camdriniaeth:** Y diffiniad o 'gam-drin' yn DGCLI(C) 2014 ac yn y Canllawiau yw:

**'camdriniaeth gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol'  
(a.197(1))**

Mae'r Canllawiau yn cynnig enghreifftiau o gam-drin neu esgeuluso:

- cam-drin corfforol – taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal yn ormodol, neu sancsiynau amhriodol;
- cam-drin rhywiol – treisio ac ymosod rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn agored i niwed yn cydsynio neu'n gallu cydsynio iddynt a/neu y pwyswyd arno i gydsynio iddynt;
- cam-drin seicolegol – bygwth ei niweidio neu ei adael, gwaradwyddo, cam-drin geiriol neu hiliol, ei ynysu neu ei dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, a rheolaeth gymhellol (mae rheoli cymhellol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, gwaradwyddo, brawychu neu o fathau eraill o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr); ac
- esgeuluso – methu â chael gofal neu wasanaethau meddygol; esgeuluso wrth gymryd risg; methu â rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn; methu â helpu gyda hylendid personol neu i ddarparu bwyd, cysgod, dillad; ac esgeuluso emosiynol (Canllawiau, Cyfrol 1, para 26).

Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw leoliad; gall ddigwydd yng nghartref y person, mewn sefydliad, neu unrhyw le arall.

**Oedolyn sy'n wynebu risg:** Y diffiniad o 'oedolyn sy'n wynebu risg' yn Adran 126(1) yw:

Mae 'oedolyn sy'n wynebu risg' yn oedolyn:

- i. sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,
- ii. y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), a
- iii. nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'r diffiniad yn cynnwys person **sy'n wynebu risg** o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae'n hanfodol cymryd camau cynnar i ymyrryd ac atal cam-drin neu esgeuluso: nid oes angen disgwyl i gam-drin neu esgeuluso ddigwydd.

Nid yw'r diffiniad yn cynnwys hunanesgeuluso. Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n eu hesgeuluso eu hunain yn gymwys i gael asesiad o'u hangen am ofal a chymorth, ond mae ganddynt hawl i wrthod os yw amodau penodol wedi'u bodloni (gweler a.20).

Wrth asesu a yw person yn oedolyn sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeuluso, rhaid i ymarferwyr roi sylw i:

- eiddilwch yr oedolyn sy'n wynebu risg ac a yw'n agored i niwed;
- graddau'r cam-drin neu esgeuluso;
- dros ba gyfnod a pha mor aml y mae'n digwydd;
- yr effaith ar y person; ac
- y risg o ailgyflawni neu waethygu gweithredoedd mewn perthynas â'r person hwn neu eraill. (Canllawiau, Cyfrol 1, para 25).

**Cam-drin ariannol:** Mae hyn yn cynnwys dwyn ei arian neu eiddo arall, cael ei dwyllo, cael ei roi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo a bod ei arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio (a.197(1)). Mae'r Canllawiau yn nodi dangosyddion posibl o gam-drin ariannol mewn perthynas â phobl sydd ag angen gofal a chymorth:

- newid annisgwyl yn ei ewyllys;
- gwerthu neu drosglwyddo'r cartref yn sydyn;
- gweithgarwch anarferol mewn cyfrif banc;
- cynnwys enwau ychwanegol yn sydyn ar gyfrif banc;
- nad yw llofnod yn debyg i lofnod arferol y person;
- amharodrwydd neu bryder ar ran y person wrth drafod ei fusnes ariannol;
- rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti arall;
- diddordeb sydyn gan berthynas neu drydydd parti arall yn lles y person;
- biliau sydd heb gael eu talu;
- cwynion bod eiddo personol ar goll;

- dirywiad yn yr olwg sydd ar y person a all ddangos bod ei ddeiet a'i anghenion personol yn cael eu hanwybyddu; ac
- ynysu'r person yn fwriadol oddi wrth ei ffrindiau a'i deulu gan roi rheolaeth lwyf i berson arall ar ei benderfyniadau (Canllawiau, Cyfrol 1, para 26).

**Awdurdod lleol:** Ystyr awdurdod lleol yw 'cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru'. (a.197)

**Esgeuluso:** Y diffiniad o esgeulustod yn DGCLI(C) 2014 yw:

**'... methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person ...).' (a.197)**

Rhai enghreifftiau o esgeulustod a roddwyd yn y Canllawiau yw:

**'...failure to access medical care or services, negligence in the face of risk-taking, failure to give prescribed medication, failure to assist in personal hygiene or the provision of food, shelter, clothing; emotional neglect.'** (Canllawiau, Cyfrol 1, para 26).

(Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.)

**Sail resymol dros gredu:** Ceir yr ymadrodd 'sail resymol dros gredu' yn a.126 ('oedolyn sy'n wynebu risg' a'r ddyletswydd i wneud ymholiadau), a.127 (APSOs), a.128 (dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg) ac a.130 (dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg). Safon profi isel yw hon. Nid yw'n galw am ddangos y ffaith yn ôl pwysau tebygolrwydd, llai byth y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Er nad oes angen dangos sicrwydd, rhaid bod gwybodaeth ar gael a fyddai'n bodloni sylwedydd gwrthrychol bod y ffaith neu ffeithiau'n bodoli. Wrth ategu bod sail resymol dros gredu, rhaid i ymarferwyr grynhoi'r wybodaeth sy'n sail i'w hasesiad, egluro pam y maent yn credu'n wrthrychol ei bod yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrryd, a pharatoi datganiad byr o'r risgiau y bydd yr oedolyn yn eu hwynebu os na wneir dim. (Canllawiau, Cyfrol 1, para 84).

**Partner perthnasol:** Er ei bod yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, mae DGCLI(C) 2014 yn gosod rhai dyletswyddau ar 'bartneriaid perthnasol'. Y diffiniad o bartner perthnasol yw:

- y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol cydweithredu ag ef o dan yr adran hon;
- yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwy 2007 o ran Cymru;
- unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae'n ofynnol iddo gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwy 2007 weithredu fel partner perthnasol i'r awdurdod;
- Bwrdd Iechyd ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;

- ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- Gweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000; ac
- unrhyw berson, neu berson o unrhyw ddisgrifiad, y bydd rheoliadau yn ei bennu. (a.162(4)).

## Diogelu yng nghyd-destun ehangach DGCLI(C) 2014

Un o'r swyddogaethau cyffredinol sydd gan awdurdodau lleol o dan DGCLI(C) 2014 yw'r ddyletswydd i 'geisio hyrwyddo' llesiant pobl sydd ag angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd ag angen cymorth (a.5(a) a (b)). Er mai dyletswydd gyffredinol yw hon yn hytrach nag un unigol, mae'n bwysig sicrhau bod llesiant pawb yn cael ei hyrwyddo. Mae 'llesiant', yn ôl y diffiniad yn DGCLI(C) 2014, yn cynnwys amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod. Yn ogystal â hyn, effeithir ar yr elfennau eraill yn y diffiniad o lesiant yn a.2(2) o DGCLI(C) 2014 os yw'r person yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso mewn perthynas, er enghraifft, â'i lesiant corfforol, meddyliol neu emosiynol. Bydd effaith niweidiol yn yr un modd ar berthnasoedd domestig a theuluol, sicrhau hawliau, ac addasrwydd llety preswyl os yw'r person yn cael ei gam-drin. Mae bod yn ddiogel yn rhan allweddol o lesiant ac yn elfen ganolog yn athroniaeth DGCLI(C) 2014; mae'n hawl ddynol.

Swyddogaeth gyffredinol arall sydd gan awdurdod lleol o dan DGCLI(C) 2014 yw darparu neu drefnu i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ataliol (a.15). Mae'r rhestr o wasanaethau dichonol yn cynnwys y rheini sydd â'r bwriad o beri na fydd pobl yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (General Functions) yn datgan bod atal wrth wraidd rhaglen newid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol (para 155). Er mai gwasanaethau cymdeithasol yw'r asiantaeth allweddol o ran darparu gwasanaethau ataliol, mae Rhan 2 yn pwysleisio bod rhaid gwreiddio'r diwylliant drwy'r awdurdod lleol cyfan, yn cynnwys yr amgylchedd, trafniadaeth, tai, addysg a hamdden. Er mai'r awdurdodau lleol sydd â'r ddyletswydd i ddarparu, mae DGCLI(C) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod Byrddau Iechyd yn 'rhoi sylw' i bwysigrwydd gwasanaethau ataliol (a.15(5)).

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu person lle mae'n ymddangos bod arno angen gofal a chymorth (a.19). Er mwyn delio ag ansicrwydd cynharach yn y gyfraith, mae a.20 yn ei gwneud yn glir y gall oedolyn wrthod asesiad. Er hynny, gellir diystyru'r hawl honno i wrthod os yw'r awdurdod lleol yn credu bod y person yn cael neu'n wynebu'r risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (a.20(3)). Mewn achos o'r fath, mae'r ddyletswydd i asesu yn parhau, er y byddai amharodrwydd ar ran yr oedolyn i gymryd rhan yn gallu amharu ar y gallu i wneud yr asesiad. Byddai ymddygiad cymhellol neu ormesol ar ran y niweidiwr yn gallu atal y person rhag gwneud penderfyniad annibynnol ar sail gwybodaeth.

Mae Adran 32 o DGCLI(C) 2014 yn cyflwyno meini prawf cymhwysra statudol. Mae manylion y meini prawf hyn yn **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015**. Lle mae'r awdurdod lleol wedi'i fodloni bod gan yr oedolyn anghenion am gymorth a gofal, rhaid iddo benderfynu a yw'r anghenion hynny'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysra. Gofyniad cyntaf y meini prawf yw bod yr angen yn codi oherwydd iechyd corfforol neu feddyliol yr oedolyn, ei oed, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu amgylchiadau tebyg. Yn ail, rhaid i'r angen fod yn gysylltiedig ag un o saith ffactor, sy'n cynnwys amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod. Yn drydydd, mae'n ofynnol nad yw'r oedolyn yn gallu cwrdd â'r angen un ai ar ei

ben ei hun, gyda gofal a chymorth sy'n cael eu rhoi gan eraill o'u gwirfodd, neu gyda help gan wasanaethau cymunedol. Yn olaf, rhaid iddi fod yn annhebygol y bydd yr oedolyn yn cyflawni un neu ragor o ganlyniadau personol heb gael cymorth gan awdurdod lleol. Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn rhan annatod o'r meini prawf cymhwysra.

Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu ei fod yn angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion yr unigolyn er mwyn ei warchod rhag niwed neu gamdriniaeth, neu esgeulustod, nid oes angen rhoi'r meini prawf cymhwysra ar waith. Os byddai'r meini prawf yn achosi oedi wrth ymateb i bryder am ddiogelu, ni ddylid eu rhoi ar waith. Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu'r anghenion hynny sydd, ym marn yr awdurdod lleol, yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn yr oedolyn. Mae hon yn ddyletswydd drechol, ac yn berthnasol boed y meini prawf cymhwysra wedi cael eu rhoi ar waith ai peidio. (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 y Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion, paragraffau 38-39).

## **Dyletswydd i wneud ymholiadau – a.126**

Os oes gan awdurdod lleol 'sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswyllo fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg', mae dyletswydd arno i wneud neu 'beri' gwneud, ymholiadau. Dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- **Y trothwy ar gyfer ymgymryd â'r ddyletswydd yw 'sail resymol dros gredu'.** Fel y nodwyd uchod, nid yw hyn yn galw am wybodaeth anwadadwy bod camdriniaeth wedi digwydd, na bod tystiolaeth argyhoeddiadol iddi ddigwydd. Y cwestiwn yw a fyddai'r ffeithiau sy'n hysbys i'r awdurdod lleol yn peri i berson rhesymol ddod i'r casgliad rhesymol, ar ôl cael gwybod yr un ffeithiau, fod yr oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg.
- **Mae'r ddyletswydd yn gymwys i unrhyw berson sy'n bresennol yn ffisegol yn ardal yr awdurdod lleol.** Nid yw o bwys a yw'n preswyllo yno fel arfer. Felly, er enghraifft, mae person sy'n byw mewn llety gwyliau yn dod o dan y ddyletswydd. Fodd bynnag, os yw'r person yn preswyllo fel arfer yn ardal awdurdod lleol arall ac mai dim ond dros dro y mae'n bresennol, gellid barnu mai mwy priodol yw'r ddyletswydd o dan a.128 i hysbysu'r awdurdod dros yr ardal lle mae'n preswyllo fel arfer, oni bai fod angen ymyrryd ar unwaith.
- **Dyletswydd i wneud 'ymholiadau' yw hon.** Nid yw'n ddyletswydd i ymchwilio. Casglu gwybodaeth yw gwneud ymholiadau, nid cynnal ymchwiliadau llawn.
- **Gall yr awdurdod lleol wneud yr ymholiadau neu gall ofyn i berson neu sefydliad arall wneud hynny.** Os bydd rhywun arall yn gwneud yr ymholiadau, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol o hyd, ac ni fydd wedi'i ryddhau o'i ddyletswyddau o dan DGCLI(C) 2014: Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddyletswyddau sydd ganddo o ran penodi eiriolwr. Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu ar natur yr ymholiadau y mae'n gofyn i eraill eu gwneud. Gall partner perthnasol wneud yr ymholiadau os credir bod hynny'n fwy priodol, er enghraifft, lle byddai arbenigedd mewn ieuchyd yn gallu bod o gymorth. Fel partner perthnasol, rhaid iddo gydsynio oni bai fod y mater y tu allan i'w gylch gwaith. Byddai sefydliad yn y trydydd sector yn gallu gwneud yr ymholiadau os credir bod hynny'n briodol.



## Yr ymholiadau

Mae'n bwysig nodi ar ba ddyddiad yr oedd yr awdurdod lleol yn teimlo bod y ddyletswydd i wneud ymholiadau wedi'i sbarduno. Dylai'r awdurdod lleol gofnodi'r rhesymau dros yr ymholiadau a ffurf yr ymholiadau. Fel arfer dylid cwblhau ymholiadau o fewn saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw, ond gallant bara'n hirach weithiau. Mewn achosion o'r fath, dylid cofnodi'r rheswm dros gymryd amser ychwanegol a gall y wybodaeth hon fod o gymorth i Fyrddau Diogelu Oedolion wrth fonitro perfformiad. Mae'r Canllawiau yn pwysleisio na ddylid brysio ymholiadau, ond y dylid osgoi oedi lle bynnag y bo modd.

Dylai'r ymholiadau fod ar ba ffurf bynnag y mae'r awdurdod lleol yn credu ei bod yn angenrheidiol 'to enable it to decide whether any action should be taken and ... if so, what and by whom.' Rhaid i'r ymholiadau fod yn gymesur â lefel y pryder a bod yn unol â'r CEHD (Canllawiau, Cyfrol 1, para 38). Os daw'n glir ar gam cynnar yn yr ymholiadau nad yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg, yna rhaid iddynt ddod i ben, a rhaid cofnodi'r penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ar y person angen gwasanaethau eraill sydd ar gael, neu gael ei gyfeirio at ddarparwyr yn y trydydd sector.

Mae'r Canllawiau yn cyfeirio at dri cham mewn ymholiadau:

1. sgrinio – gwirio bod ffeithiau cyffredinol yr atgyfeiriad yn gywir;
2. gwerthusiad cychwynol – casglu, adolygu a choladu gwybodaeth; a
3. penderfynu – ar sail canlyniad yr uchod, beth ddylid ei wneud, os rhywbeth? Gall hyn gynnwys ymchwiliad gan un neu ragor o asiantaethau (Canllawiau, Cyfrol 1, para 39).

Mae'n bwysig ystyried beth i'w gynnwys yn yr ymholiadau. Un mater pwysig yw a fydd y person y credir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg yn cytuno i gymryd rhan. Os bydd yn gwrthod, ni ellir ei orfodi; nid oes pwerau gorfodi. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhyddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswydd. Yn wahanol i wrthod asesiad ar gyfer gofal cymdeithasol (heblaw lle credir bod cam-drin neu esgeuluso'n digwydd neu lle mae diffyg galluedd), nid yw gwrthod cymryd rhan yn terfynu'r ddyletswydd.

Er hynny, bydd y gwrthodiad yn amharu ar allu'r awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswydd. Gwaetha'r modd, fe all y gwrthodiad fod yn ganlyniad i ymddygiad cymhellol ar ran y niweidiwr. Mae'n bosibl y bydd y ffaith bod y ddyletswydd yn parhau, yn gymorth wrth geisio canfod a oes ymddygiad cymhellol. Bellach gall rheolaeth gymhellol mewn perthynas bersonol neu deuluol fod yn drosedd o dan a.76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Gall fod yn briodol gwneud APSO mewn achosion lle mae rheswm dros bryderu'n fawr ynghylch oedolyn a bod yr un sydd o dan amheuaeth o niweidio yn gwrthod rhoi mynediad ato.

Ar wahân i gydsynio neu wrthod, mae'r Canllawiau yn rhestru nifer o ffactorau y dylid eu hystyried wrth wneud ymholiadau. Y rhain yw:

- dymuniadau a theimladau'r oedolyn sy'n wynebu risg;
- y posibilrwydd nad yw'r oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd;
- a oes angen cynnwys eiriolwr o dan unrhyw gynllun eiriolaeth statudol neu wirfoddol;

- yr angen i wneud yr ymholiadau mewn ffordd sensitif gan beri'r gofid lleiaf posibl i'r person ac i eraill (er enghraifft, gofalwyr ac aelodau o'r teulu);
- a oes gan y niweidiwr unrhyw anghenion am ofal a chymorth;
- a yw'r niweidiwr yn darparu gofal neu gymorth i oedolyn arall sy'n wynebu risg neu i blentyn a all wynebu risg; ac
- yr angen i'r awdurdod lleol gynnwys a chydweithio'n agos ag asiantaethau eraill a all helpu gyda'r ymholiadau a chyfrannu at gyflawni canlyniadau arfaethedig yr ymholiadau. (Canllawiau, Cyfrol 1, para 38)

Rhaid i bartneriaid perthnasol rannu gwybodaeth yn rhan o'u cyfrifoldebau diogelu, yn cynnwys ymholiadau (a.128). Mae methiant i rannu gwybodaeth yn feirniadaeth gyffredin a geir mewn adroddiadau o Adolygiadau Achos Difrifol ac mae'r gyfraith yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth mewn achosion diogelu yn bwysig. Mae paragraffau 28 a 29 o'r Canllawiau yn darparu arweiniad ynghylch sut a pha bryd y dylid rhannu gwybodaeth a phwy y dylid ymgynghori â nhw (Canllawiau, Cyfrol 1). Mae Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r ddyletswydd cyfrinachedd yn y gyfraith gyffredin yn derbyn y gellir cael budd cyhoeddus pwysig mewn rhannu gwybodaeth bersonol sensitif (gweler Pennod 5) ac mae amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg a phlant rhag eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio yn darparu cyfiawnhad dros rannu gwybodaeth. Dylai gwybodaeth gael ei rhannu'n unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, fframwaith rhannu gwybodaeth ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi ei bod yn ofynnol bod yr adroddiad am yr ymholiadau yn cynnwys y canlynol:

- pwy yw'r unigolyn a nododd y pryder a phwy yw'r unigolyn a benderfynodd gychwyn yr ymholiadau;
- pwy yw'r person sy'n destun i'r ymholiadau a'i fanylion perthnasol;
- crynodeb o'r dystiolaeth sy'n rhoi'r 'sail resymol dros gredu';
- pwy yw'r person neu bersonau ac, os yw'n berthnasol, pa asiantaeth a gynhaliodd yr ymholiadau;
- cronoleg yr ymholiadau;
- rhestr o'r bobl a ddarparodd wybodaeth yn ystod yr ymholiadau;
- rhestr o'r bobl a gyfwelwyd yn ystod yr ymholiadau;
- rhestr o'r dystiolaeth ddogfennol a adolygwyd yn ystod yr ymholiadau;
- datganiad bod y rheini sy'n gwneud yr ymholiadau yn credu bod neu nad yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg. Os mai'r casgliad yw nad yw'r oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg, dylid cynnwys datganiad i egluro pam y daethpwyd i'r casgliad hwn. Dylid ystyried nodi unrhyw bryderon a all godi yn y dyfodol a'r angen am Wybodaeth, Cyngor a Chymorth;

- datganiad ynghylch a gynhaliwyd neu a ddylid cynnal asesiad o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Os cynhaliwyd asesiad o'r fath, dylid cynnwys y canlyniad yn y cofnod; a
- datganiad o ganfyddiadau'r ymholiadau a arweiniodd at y casgliad (os mai hynny a ddigwyddodd) bod yr oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg (Canllawiau, Cyfrol 1, para 42).

Yn ogystal â hyn dylid cofnodi yn yr adroddiad unrhyw gam-drin y gall y person fod yn ei brofi ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol, yn cynnwys y canlynol:

- natur y cam-drin;
- am ba gyfnod y mae'r person wedi cael ei gam-drin;
- dymuniadau a theimladau'r oedolyn sy'n wynebu risg;
- amllder a graddau'r cam-drin;
- y niweidiwr honedig a'i berthynas, os oes un, â'r oedolyn sy'n wynebu risg;
- effaith y cam-drin ar yr oedolyn sy'n wynebu risg;
- unrhyw berson arall ar yr aelwyd a all fod yn oedolyn sy'n wynebu risg neu'n blentyn;
- a yw'r niweidiwr honedig yn darparu gofal a chymorth i'r oedolyn sy'n wynebu risg neu i unrhyw oedolyn arall sy'n wynebu risg y gwyddys amdano. Os yw, natur a graddau'r gofal hwnnw;
- natur unrhyw gymorth a chefnogaeth y mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn eu cael gan ofalwr neu berthynas heblaw'r niweidiwr honedig;
- enwau unrhyw asiantaethau eraill neu sefydliadau trydydd sector sy'n ymwybodol neu'n ymwneud â gweithio gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg; ac
- unrhyw faterion eraill y mae'r rheini sy'n gwneud yr ymholiadau yn credu y dylid eu cynnwys yn y cynllun gofal a chymorth.

Mae'n hollbwysig nodi yng nghasgliad yr adroddiad a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac, os yw, pa gamau y dylid eu cymryd, pa bryd, a chan bwy.

Lle mae awdurdod lleol o dan ddyletswydd i gwrdd ag anghenion am ofal a chymorth o dan DGCLI(C) 2014, rhaid iddo baratoi cynllun gofal a chymorth (a.54). O dan DGCLI(C) 2014, mae'n ofynnol bod y casgliadau o unrhyw ymholiadau yn cael eu cofnodi yng nghynllun gofal a chymorth yr oedolyn (a.126(3)) ac mae Rheoliadau a wnaed o dan a.54 (Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015) yn cadarnhau ei bod yn rhaid i'r cynllun gynnwys cofnod o'r casgliad o unrhyw ymholiadau. Mae hyn yn cael ei bwysleisio eto ym mharagraff 87 o Ran 4 o'r Cod Ymarfer (Cwrdd ag Anghenion). Lle y gwrthodwyd cynllun gofal a chymorth, neu os nad oes angen cynllun o'r fath am fod modd cwrdd ag anghenion mewn ffyrdd eraill, dylid cofnodi'r canfyddiad, er hynny, yng nghofnod yr achos. Gellir cynnwys unrhyw gynllun amddiffyn sydd wedi'i wneud yn y Cynllun Gofal hefyd.

## Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion – APSOs

Yn ystod y ddadl ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), cafwyd trafodaeth am y graddau y dylai gweithdrefnau diogelu oedolion gynnwys pwerau ymyrryd. A ddylid cynnwys pwerau mynediad a phwerau symud? Mae Deddf Cynorthwyo ac Amddiffyn Oedolion (yr Alban) 2007 yn cynnwys pwerau ymyrryd pellgyrhaeddol ochr yn ochr â mesurau angenrheidiol i osgoi eu camddefnyddio. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gwrthsefyll galwadau am gynnwys pwerau symud yn y Bil gwreiddiol, gan bwysleisio ei bod yn bwysig bod unigolyn sydd â galluedd yn gallu penderfynu drosto'i hun a'i bod yn credu bod angen peidio â diystyru hawliau dynol. Roedd Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell diddymu a.47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, fel modd i gael gwared â'r unig bŵer symud gorfodol.

Roedd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol, yn ei Adroddiad Pwyllgor Cam 1 ar y Bil, wedi awgrymu'n betrus y dylid cadw a.47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 os nad oedd pwerau wedi'u cynnwys yn y Bil, ond byddai cadw a.47 ar ei ffurf wreiddiol wedi achosi problemau sylweddol o ran cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn ei hymateb, cytunodd y Llywodraeth i gynnwys pŵer mynediad, sef yr APSO. Ceir y pŵer yn a.127 o DGCLI(C) 2014. Mae'n ddiddorol nodi nad oes darpariaeth debyg yn Neddf Gofal 2014 ar gyfer Lloegr.

Fel y gwelir, mae set o ddibenion penodol yn yr APSO, ac nid yw'r rhain yn cynnwys pŵer i symud neu wahardd unigolyn o'r fangre. Felly dylid ystyried defnyddio rhai o'r gorchmynion trais domestig yn y gyfraith sifil. Gellir defnyddio'r rhain yn lle APSO, yn rhan o gamau i'w cymryd ar ôl gwneud APSO. (Gweler Pennod 9)

Rhagwelwyd na fydd APSOs yn cael eu defnyddio'n aml iawn ac felly y bu hyd yma. Gan eu bod yn ymyriad yng nghartref y person, rhaid iddynt fod yn gymesur â'r amcan a geisir; bydd angen i'r Swyddog Awdurdodedig a'r ustus heddwch arfer eu crebwyll ynghylch a fyddai gorchymyn yn gallu peri bod yr oedolyn yn wynebu risg fwy.

### Beth yw APSO?

Mae APSO yn orchymyn sifil a wneir gan ustus heddwch ar ôl gwneud cais gan 'Swyddog Awdurdodedig'. Mae'n rhoi pŵer mynediad i'r Swyddog Awdurdodedig, ond dim ond i'r dibenion sydd wedi'u rhestru yn DGCLI(C) 2014.

### Y 'Swyddog Awdurdodedig'

Mae'r Swyddog Awdurdodedig yn chwarae rhan ganolog mewn ymgeisio am APSO a'i weithredu. Rhoddir y cyfrifoldeb am yr APSO i'r Swyddog Awdurdodedig ac nid i'r awdurdod lleol. Mae'r rôl yn un ddynodedig a bydd ganddo rywfaint o annibyniaeth. Mae Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol y bydd y Swyddog Awdurdodedig wedi cwblhau 'hyfforddiant priodol', er na nodwyd natur yr hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r Canllawiau (Cyfrol 4) yn rhestru'r sgiliau a'r priodoleddau a ddylai fod yn sail i'r rhaglen hyfforddi:

- y gallu i baratoi a chyflwyno, gyda chymorth cyfreithiol, gais am APSO yn glir ac yn hyderus i ustus heddwch;
- dealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol y mae APSOs yn gweithredu oddi mewn iddo, yn cynnwys goblygiadau Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010, a'r angen i barchu amrywiaeth;

- y gallu i asesu unrhyw risg i'r person y credir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg cyn gwneud y cais ac, os gwneir APSO, ar ôl ei weithredu;
- dealltwriaeth fanwl o'r cyd-destun i gamdriniaeth, sefyllfaoedd camdriniol ac esgeulustod;
- y gallu i adnabod rheolaeth gymhellol a'i heffeithiau ar oedolion sy'n wynebu risg;
- dealltwriaeth glir o ddarpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005, yn benodol o asesuadau o alluedd, asesu'r budd pennaf a rôl yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol;
- sgiliau cyfathrebu effeithiol a'r gallu i adnabod unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig sydd gan y person y credir ei fod yn wynebu risg, a sut i gynyddu ei allu i gyfleu ei ddymuniadau;
- y gallu i fod yn bendant ac arfer rheolaeth mewn sefyllfaoedd anodd ac ymestynnol;
- y gallu a'r parodrwydd i herio ei asiantaeth ei hun ac asiantaethau eraill pan fo angen; ac
- ymwybyddiaeth o ba bryd y bydd angen cynnwys eiriolwr a sut i helpu'r oedolyn i gael gafael ar eiriolwr (para 1.9).

Yn ogystal â'r gofynion am hyfforddiant a meddu ar y sgiliau a phriodoleddau hyn, mae cyfyngiadau eraill ar bwy a gaiff fod yn Swyddog Awdurdodedig. Fel arfer, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig fod yn swyddog yn yr awdurdod lleol dros yr ardal lle mae'r oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg yn byw. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n ymarferol (er enghraifft, oherwydd salwch neu gymryd gwyliau blynyddol), bydd Swyddog Awdurdodedig o awdurdod lleol yn ardal yr un Bwrdd Diogelu yn gallu gweithredu. Os nad yw hynny'n ymarferol, bydd Swyddog Awdurdodedig o awdurdod lleol arall yng Nghymru yn gallu gweithredu. Rhaid pwysleisio mai hierarchaeth yw'r uchod; y disgwyliad yw mai'r Swyddog Awdurdodedig o'r awdurdod lleol dros yr ardal lle mae'r person yn byw fydd yn gweithredu. Os na fydd yn ymarferol penodi unrhyw un o'r uchod, er mor annhebygol yw hynny, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol y bydd swyddog o'r awdurdod lleol sy'n awdurdodi yn cael ei benodi, er na fydd wedi cael ei hyfforddi.

## Sail dros wneud APSO.

Rhaid i'r ustus heddwch gael ei fodloni:

- bod sail resymol gan y Swyddog Awdurdodedig dros gredu bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- ei bod yn angenrheidiol i'r Swyddog Awdurdodedig gael mynediad at y person er mwyn asesu'n iawn a yw'n oedolyn sy'n wynebu risg a phenderfynu ar y camau a gymerir, os cymerir camau o gwbl;
- ei bod yn angenrheidiol gwneud gorchymyn i gyflawni dibenion APSO; a
- na fydd arfer y pŵer mynediad yn peri y bydd y person yn wynebu mwy o risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. (a.127(4)).

Dylai'r cais am APSO gael ei wneud am resymau amgenach na'i fod yn ddymunol neu'n gyfleus. Yng ngeiriau'r Canllawiau, rhaid iddo fod yn 'unavoidable or essential'. Un o'r materion

mwyaf anodd i'w ystyried, gan y Swyddog Awdurdodedig yn gyntaf ac wedyn gan yr ustus heddwch, yw barnu na fydd arfer y pŵer mynediad yn peri bod y person yn wynebu mwy o risg. Oherwydd yr angen am APSO, efallai na fydd yn bosibl rhoi tystiolaeth foddhaol i'r ustus heddwch i ddangos hynny (Canllawiau, Cyfrol 1, para 66).

## **Beth yw dibenion penodol yr APSO?**

Mae Adran 127(2) o DGCLI(C) 2014 yn rhestru tri diben yr APSO:

1. **Galluogi'r Swyddog Awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i gael sgwrs breifat gyda'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg.** Fel y nodir isod, mae rôl y cwnstabl yn cynnwys mwy na chael mynediad. Gall y cwnstabl gyfrannu at helpu i gynnal y sgwrs yn breifat os yw'r un sydd o dan amheuaeth o niweidio yn ceisio ei rhwystro.
2. **Galluogi'r Swyddog Awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd.** Ymddygiad cymhellol neu ormesol yw un o nodweddion camdriniaeth. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig asesu a yw'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn penderfynu o'i wirfodd heb unrhyw bwysau uniongyrchol neu anuniongyrchol gan yr un sydd o dan amheuaeth o niweidio. Rhaid i ymarferwyr ofalu hefyd nad oes pwysau'n cael ei roi ar y person i wneud rhywbeth. Mae'n bwysig cofio bob amser y bydd y digwyddiad hwn yn rhoi straen ar bawb sy'n gysylltiedig a bod perygl bob amser y bydd ymarferydd yn awgrymu rhywbeth yn anfwriadol i'r oedolyn ac y bydd yr oedolyn yn teimlo ei fod yn gorfod ei dderbyn. Gall eiriolwyr chwarae rhan bwysig drwy alluogi'r oedolyn i wneud ei benderfyniad o'i wirfodd.
3. **Galluogi'r Swyddog Awdurdodedig i asesu'n iawn a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.** Mae Adran 126(2) yn rhoi awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i benderfynu a ddylid cymryd camau ar ôl gwneud ymholiadau. Er nad yw hyn yn glir yn DGCLI(C) 2014, dylai awdurdodau lleol gofnodi'r canlyniad i APSO mewn unrhyw gynllun gofal a chymorth yn yr un modd. Once these purposes have been achieved, the justification for the order disappears.

Ar ôl cyflawni'r dibenion hyn, bydd y cyfiawnhad dros y gorchymyn wedi diflannu.

## **Paratoi ar gyfer APSO**

Wrth benderfynu a fydd yn gwneud cais, dylai'r Swyddog Awdurdodedig drafod ag adran gyfreithiol yr awdurdod lleol sut i baratoi'r achos, natur y dystiolaeth sydd ei hangen, a rhoi tystiolaeth yn y gwrandawriad.

Mae natur ymyrgar yr APSO, a'r posibilrwydd y bydd yn peri i'r oedolyn wynebu risg fwy, yn galw am gynllunio gofalus iawn cyn gwneud cais; bydd yn hanfodol cydgysylltu â'r heddlu i sicrhau y bydd y rôl y byddant yn ei chyflawni yn glir – a fyddant yn mynd i mewn i'r fangre, neu'n sefyll wrth law os bydd eu hangen? Mae'n bosibl hefyd y bydd gwybodaeth gan yr heddlu i gefnogi'r cais, a dylid ei rhannu â'r Swyddog Awdurdodedig a'r ustus heddwch. Fodd bynnag, nid yr heddlu yn unig y dylid ei gynnwys wrth gynllunio. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth ddefnyddiol ar gael gan wasanaethau tai, addysg, y Gwasanaeth Tân ac Achub,

gwasanaethau plant, iechyd amgylcheddol ac unigolion ac asiantaethau eraill. Fel y nodwyd uchod, mae a.128 yn rhoi partneriaid perthnasol o dan ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol os bydd ganddynt sail resymol dros gredu ei bod yn ymddangos bod oedolyn sy'n wynebu risg o fewn ardal yr awdurdod.

Mae'n bwysig bod y rheini sy'n gysylltiedig â'r APSO yn deall ei ddibenion a'u rôl nhw yn y broses. Dylid pennu rolau ymlaen llaw, er ei bod yn bosibl y bydd y rhain yn gorfod newid yn ôl yr hyn a welir ar ôl cael mynediad. Un awgrym buddiol yn y Canllawiau yw y dylai'r Swyddog Awdurdodedig lunio mantolen o risgiau a buddion. Gall hyn fod yn ymarfer defnyddiol i'r Swyddog Awdurdodedig ac i'r ustus heddwch (Canllawiau, Cyfrol 1, para 63).

## Beth sydd mewn APSO?

Rhaid pennu yn yr APSO pa fangre y mae'n ymwneud â hi. Nid oes diffiniad o 'fangre' yn DGCLI(C) 2014. Er hynny, mae diffiniad bras yn y canllawiau ar APSOs. Mae 'mangre' yn cynnwys:

- mangre ddomestig – tŷ, fflat neu eu tebyg;
- cartrefi gofal preswyl;
- cartrefi nyrsio;
- ysbytai; neu
- unrhyw adeiladau eraill, strwythurau, cartrefi symudol neu garafannau lle mae'r person yn byw (Canllawiau, Cyfrol 4, para 1.13).

Diffiniad cynhwysfawr yw hwn ac mae'n bwysig nodi ei fod yn cynnwys cartrefi gofal, cartrefi nyrsio ac ysbytai. Nid oes rhaid i'r person fod yn byw yn y fangre yn barhaol. Mae'n ddigon ei fod wedi byw yno am gyfnod ac nid yw o bwys a oes ganddo unrhyw fuddiant cyfreithiol yn y fangre. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r diffiniad yn cynnwys mannau diogel, carchardai neu lety cadw ieuencid. (a.185(6)).

Rhaid cynnwys amod yn yr APSO y **gall** cwnstabl heddlu fynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig. Mae'n bosibl y penderfynir ar sail gwybodaeth flaenorol na fydd angen i gwnstabl fod yn bresennol; os felly, rhaid cofnodi'r rhesymau dros benderfynu hyn.

Fe all yr heddlu gymryd rhan hanfodol, neu fel arall; bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Nid sicrhau mynediad fydd yr unig ffordd y gall yr heddlu gymryd rhan. Mae Adran 127(7) o DGCLI(C) 2014 yn dweud y byddant yno er mwyn gallu cyflawni holl ddibenion yr APSO, nid er mwyn cael mynediad yn unig. Er enghraifft, gellir galw ar y cwnstabl i sicrhau bod y Swyddog Awdurdodedig yn gallu siarad yn breifat â'r person, efallai drwy beri i'r niweidiwr honedig adael y fangre tra cynhelir asesiad. Mae hefyd yn cynnwys sicrhau bod y person yn siarad yn ddirwystr ac nad yw'n cael ei fygwth gan y niweidiwr honedig. Gall y cwnstabl ddefnyddio 'grym rhesymol os yw'n angenrheidiol' i sicrhau bod dibenion yr APSO yn cael eu cyflawni.

Dylai'r APSO nodi hefyd dros ba gyfnod y bydd mewn grym, er nad oes sôn am derfynau amser penodol yn DGCLI(C) 2014 na'r Canllawiau. Rhaid i'r cyfnod fod yn gymesur a pheidio â bod yn hirach na'r hyn sydd ei angen i gyflawni dibenion yr APSO. Ni all yr APSO roi pŵer mynediad parhaus a gaiff ei ddal wrth gefn i'w arfer ar ryw adeg amhenodol yn y dyfodol.

Nid yw'n glir yn DGCLI(C) 2014 a yw APSO yn gallu awdurdodi mwy nag un mynediad. Mae'r Canllawiau yn dehongli hyn yn fras ac yn rhagdybio y bydd mwy nag un mynediad yn cael ei ganiatáu o dan un APSO, ac mae hyn yn gwneud synnwyr am sawl rheswm. Mae'n bosibl, ar adeg ymgeisio am yr APSO a'i gael, na fydd yn glir a oes anghenion cyfathrebu gan yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg, neu a oes arno angen asesiad o alluedd meddyliol neu iechyd meddwl, neu a oes ganddo unrhyw angen arbennig sy'n codi o anabledd neu fel arall; efallai mai dim ond ar ôl yr ymweliad cyntaf y bydd hyn yn dod i'r amlwg. Mae disgrisiwn hefyd i gynnwys amodau eraill. Mae DGCLI(C) 2014 yn darparu enghreifftiau:

- Pennu cyfyngiadau ar yr amser pan ganiateir i'r pŵer mynediad gael ei arfer: Gan nad yw hwn yn bŵer argyfwng, arfer da fydd pennu amser mynediad sy'n rhesymol ac yn briodol. Byddai angen cyfiawnhad cryf dros arfer y pŵer yn ystod y nos. Gall yr ustus heddwch osod amod penodol o ran amser – er enghraifft, bod y **pŵer** i gael ei arfer yn y prynhawn. Yn fwy cyffredinol, gall yr ustus heddwch osod terfyn amser cyffredinol ar y cyfnod pan fydd yn rhaid arfer y pŵer yn yr APSO. Yn gysylltiedig â hyn y mae'r cwestiwn o nifer y mynediadau. Fel y nodwyd uchod, mae'r Canllawiau yn cymryd bod mwy nag un mynediad yn cael ei ganiatáu. Er hynny, os bydd yr ustus heddwch yn pryderu ynghylch gorddefnyddio'r pŵer i gael mynediad nifer o weithiau, gellir cynnwys amod yn cyfyngu ar y nifer hwnnw.
- Darparu i berson penodedig arall fod gyda'r swyddog awdurdodedig: Ar adeg gwneud y cais am APSO, gall fod yn glir y bydd angen cael cymorth gan arbenigwr i gyflawni'r dibenion. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gwybod bod angen penodol o ran cyfathrebu gan y person, neu fod anghenion iechyd meddwl hysbys gan y person. Felly, gall fod yn synhwyrol cynnwys amod yn y gorchymyn y bydd ymarferydd arbenigol, fel Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMHP), yn mynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig. Dylid egluro'r sail resymegol dros gynnwys arbenigwr yn y cais.

Mewn nifer mawr o achosion, ni fydd modd rhag-weld pwy a ddylai fynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig am fod y wybodaeth am yr unigolyn yn brin. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'r Canllawiau yn awgrymu y dylai'r bobl hynny gael eu henwi yn y cais i'r graddau mwyaf posibl (Canllawiau, Cyfrol 4, para 2.16). Ni fydd y ffaith bod person wedi'i enwi yn y gorchymyn yn golygu bod rhaid ei gynnwys. Efallai y bydd yn glir ar ôl yr ymweliad cyntaf nad oes angen ei gynnwys. Rhai enghreifftiau o bobl y gellir eu cynnwys yn y gorchymyn yw:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr (statudol neu anstatudol);
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd y budd pennaf;
- ymarferwr cyffredinol; neu
- AMHP o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. (Canllawiau, Cyfrol 4, para 2.15)

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn a bydd rôl y rheini sy'n mynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau penodol. Mae'r Canllawiau yn rhag-weld y bydd eu rolau'n cynnwys sicrhau bod unrhyw sgwrs â'r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn cael ei chynnal yn deg, helpu i gyfathrebu, darparu gwybodaeth a phrofiad arbenigol ar faterion



penodol, eirioli dros y person, rhannu ei wybodaeth am y person, a meithrin cysylltiad â'r person. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen cynnwys eiriolwr. Mae eiriolwyr arbenigol yn cynnwys Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol, Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol, Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol ac eiriolwyr anstatudol. Gallant chwarae rhan hanfodol drwy sicrhau bod yr oedolyn yn gallu mynegi ei deimladau a'i ddymuniadau (Canllawiau, Cyfrol 1, para 76-7).

Ni fydd bob amser yn bosibl rhag-weld pa arbenigedd y bydd ei angen. Efallai y gwelir ar ôl yr ymweliad cyntaf fod angen gwybodaeth arbenigol iawn, ac na ragwelwyd hyn ar adeg y cais. O dan a.127, mae'r pŵer mynediad yn gyfyngedig i'r Swyddog Awdurdodedig a chwnstabl 'ac unrhyw berson penodedig arall sydd gyda'r swyddog hwnnw yn unol â'r gorchymyn'. A yw hyn yn golygu mai dim ond y personau sydd wedi'u crybwyll yn yr APSO a all fynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig? Er ei fod yn awgrymu bod y pŵer i gael mynediad wedi'i gyfyngu i'r rheini sydd wedi'u henwi yn y gorchymyn, nid oes rheswm pam na fyddai person ychwanegol yn gallu mynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig ar ymweliad diweddarach os yw'r meddiannydd yn cydsynio i hynny. Os gwrthodir cydsynio, nid yw'n glir beth fydd y sail gyfreithiol dros fynediad y person ychwanegol i'r eiddo a dylai Swyddogion Awdurdodedig fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd angen negodi mynediad i berson sydd heb ei enwi yn y gorchymyn.

Mae rhoi pŵer mynediad yn fater difrifol a dylid cymhwyso egwyddorion cyfiawnder naturiol i'r graddau nad ydynt yn anghyson â'r angen i sicrhau diogelwch y person. Felly dylid ystyried rhoi hysbysiad i feddiannydd y fangre a'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg fod cais yn cael ei wneud am APSO.

Mae Atodiad B i Gyfrol 4 y Canllawiau yn cynnwys y ffurflen gais am APSO. Mae'n ofynnol i geiswyr ddatgan pam y rhoddwyd neu pam na roddwyd hysbysiad i'r meddiannydd a'r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Mae unrhyw bryder y byddai rhoi hysbysiad yn peri bod yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn cael ei niweidio ymhellach yn rheswm dros beidio â'i roi. O dan y Canllawiau, rhaid amlinellu'r sail resymegol dros y penderfyniad ar y ffurflen. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig ystyried pa fath o hysbysiad y dylid ei roi os credir bod angen gwneud hynny a bod yn sicr na fydd yn peri i'r oedolyn wynebu mwy o risg neu'n ymyrryd â'r asesiad. Gellir rhoi'r hysbysiad drwy lythyr, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb (Canllawiau, Cyfrol 1, para 68).

## Gweithredu'r APSO

Cyn defnyddio'r APSO, mae'n hollbwysig ystyried beth fydd y strategaeth ymadael. Gan nad oes pwerau symud na gorchmynion gwahardd, mae'n debygol, os yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg, y bydd yn aros yn y fangre gyda'r niweidiwr. I'r graddau y gellir gwneud hynny, rhaid ystyried ymlaen llaw yr wybodaeth a roddir i'r rheini y mae'r APSO yn effeithio arnynt, a beth fydd yn digwydd nesaf. Diogelwch yr oedolyn yw'r flaenoriaeth. Rhaid penderfynu'n gyflym ar y camau a gymerir lle gwelir bod yr oedolyn yn wynebu risg ar ôl gweithredu'r APSO. Yn y pen draw eithaf, mae'n bosibl y bydd yr heddlu yn gallu arfer eu pwerau arestio, ond ni ddylid cymryd y bydd modd iddynt wneud hynny ym mhob achos. Yn wir, mae'n annhebygol y byddant yn gwneud hynny heblaw mewn achosion lle wynebir risg fawr. Mae'r pwerau sydd gan yr heddlu yn cynnwys y rheini sydd yn a.17(1)(e) ac a.24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, pwerau'r gyfraith gyffredin fel arestio am dor heddwch a Gorchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig o dan Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010.

Mae DGCLI(C) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Swyddog Awdurdodedig, ar ôl mynd i mewn i'r fangre, yn datgan beth yw amcan yr ymweliad, yn dangos tystiolaeth o'r APSO, ac yn egluro

i'r meddiannydd sut i gwyno am arfer y pŵer.

Mae'n debygol mai dechrau'r ymyriad diogelu yn unig fydd yr APSO. Gall arwain at adolygu neu baratoi cynllun gofal, ymchwiliad ffurfiol neu gamau gan yr heddlu. Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fydd achos i bryderu, a gellir gweld nad oedd sail i'r amheuaeth resymol.

Dylid cofio bob amser fod diogelu yn rhan hanfodol o DGCLI(C) 2014 yn ei chyfanrwydd a'i hymrwymiad i sicrhau llesiant.

## **Sut y dylid ei defnyddio?**

Y pwerau a'r dyletswyddau o dan DGCLI(C) 2014 yw'r fframwaith statudol ar gyfer diogelu a dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â nhw. Ar gyfer y rheini sy'n gweithio mewn timau diogelu, y fframwaith fydd yr ystyriaeth bwysicaf.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod diogelu yn fater i bawb ac y dylai'r holl ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r fframwaith a rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Anaml iawn y defnyddir yr APSO. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw ei bod yn anodd i Swyddogion Awdurdodedig ac ustusiaid heddwch eu bodloni eu hunain na fydd gwneud APSO yn peri i'r person wynebu mwy o risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso gan niweidiwr dialgar.

Fel y gwelir ym Mhennod 8, mae pwerau mynediad eraill ar gael; nid yw'r darpariaethau diogelu yn DGCLI(C) 2014 yn ateb i bob dim a bydd llawer yn dibynnu ar sgiliau proffesiynol a phrofiad yr ymarferwyr rheng flaen. O fewn y fframwaith, mae'n ofynnol i ymarferwyr ffurfio barn am faterion anodd. Felly mae gwaith tîm da rhwng nifer o ddisgyblaethau a rhannu gwybodaeth yn hanfodol. Rhaid seilio pob penderfyniad ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r ddyletswydd i wneud ymholiadau yn rhoi cyfrifoldeb clir iawn i awdurdodau lleol i ymateb i bryderon.

## **Beth yw'r cyfyngiadau sydd arni?**

Gellir dadlau bod diffyg pwerau symud neu orchmynion gwahardd yn cyfyngu ar effeithiolrwydd DGCLI(C) 2014, er bod anghytuno ar y pwynt hwn.

## **Pwyntiau i'w cofio**

- Mae diogelu yn fater i bawb
- Rhaid i'r holl benderfyniadau a wneir o fewn y fframwaith fod yn gyson â hawliau dynol
- Mae dull rhyngddisgyblaethol o weithredu yn hanfodol
- Rhaid rhannu gwybodaeth

# Pennod 7: Cyfiawnder Troseddol

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn ymdrin â rôl yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol wrth ymchwilio i achosion lle mae amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae'n disgrifio rhai o'r troseddau a all fod wedi'u cyflawni. Edrychir hefyd yn y bennod hon ar y ffordd y gwneir penderfyniadau i erlyn ac ar y ddarpariaeth ar gyfer tystion agored i niwed yn y llys. Ni fydd erlyn am droseddau bob amser yn arwain at y canlyniad gorau, ond nid yw hyn yn golygu bod rôl yr heddlu yn ddiangen neu nad yw byth yn briodol erlyn am droseddau. Dylid trafod opsiynau o ran cyfraith trosedd a chyfraith sifil â'r person hŷn.

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

### Cyfraith Trosedd

Mae nifer mawr o achosion o gamdriniaeth ac esgeulustod – y rhan fwyaf ohonynt yn ôl pob tebyg – yn cynnwys ymddygiad troseddol. Nid yw'r ffaith ei fod yn digwydd o fewn perthynas deuluol neu yng nghyd-destun cyfeillgarwch, ac mewn lle preifat o bosibl, yn effeithio dim ar ei natur droseddol. Mae ymosodiad gan berthynas yng nghartref y person yn gymaint o drosedd ag y byddai pe byddai'n digwydd ar y stryd neu mewn cartref gofal neu ysbyty. Mae'n bwysig pwysleisio natur droseddol camdriniaeth neu esgeulustod. Drwy wneud hynny, fe all niweidwyr gael eu herlyn. Mae hefyd yn cyfleu neges i gymdeithas fod camdriniaeth ac esgeulustod yn annerbyniol a throseddol.

Gall trosedd gael ei waethygu gan y ffaith ei fod wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu gasineb seiliedig ar nodweddion personol. Mae trosedd casineb yn drosedd a gyflawnir yn erbyn person neu eiddo sydd wedi'i ysgogi gan gasineb y troseddwr at y dioddefwr ar sail ei hil, lliw, gwreiddiau ethnig, cenedligrwydd neu wreiddiau cenedlaethol, ei grefydd, rhywedd neu hunaniaeth ryweddol, ei gyfeiriadedd rhywiol neu ei anabledd. Bydd y ffaith bod y trosedd yn deillio o gasineb yn cael ei hadlewyrchu yn y ddedfryd. Nid yw trosedd wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu gasineb at y dioddefwr ar sail ei oed yn drosedd casineb, er y gall person hŷn fod mewn un o'r categorïau eraill.

Mae nifer mawr o wahanol droseddau cyffredinol yn codi o gamdriniaeth ac esgeulustod. Maent yn cynnwys y canlynol:

Ymddygiad	Sail gyfreithiol
Defnyddio trais i gael mynediad i eiddo	a.6(1) Deddf Cyfraith Trosedd 1977
Trais corfforol, gydag arfau neu hebddynt	a.39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
Gwir niwed corfforol	a.47 Deddf Troseddau Corfforol 1861
Niwed corfforol difrifol	a.18/20 Deddf Troseddau Corfforol 1861

Esgeuluso neu gam-drin unigolyn lle mae'r weithred wedi achosi niwed corfforol difrifol neu farwolaeth	a.5 Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004
Defnyddio trais neu fygwth trais i atal rhywun rhag gwisgo fel y mae'n dewis neu ei orfodi i wisgo colur, gemwaith neu steil gwallt penodol	a.47 Deddf Troseddau Corfforol 1861 a.1-2 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
Trais yn arwain at farwolaeth	Llofruddiaeth neu ddynladdiad
Bygwth ag eitem a ddefnyddir fel arf	a.16 Deddf Troseddau Corfforol 1861 a.39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
Galwadau ffôn, negeseuon testun, llythyrau, negeseuon e-bost, negeseuon ar-lein tramgwyddus/anweddus/bygythiol	a127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988
Aflonyddu a stelcian	a.1-2A, 4A Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
Cam-drin geiriol mynych	a.1-2 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
Cloi rhywun mewn ystafell neu dŷ neu ei atal rhag gadael neu atal rhywun rhag ceisio cymorth (er enghraifft, gofal meddygol neu gymdeithasol)	Camgarcharu
Clymu rhywun yn gaeth	a.39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 a.47 Deddf Troseddau Corfforol 1861 Trosedd cyfraith gyffredin: camgarcharu
Atal rhywun rhag ymweld â pherthnasau neu ffrindiau	Camgarcharu
Cam-drin hiliol	a.31 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
Blacmelio	a.21(1) Deddf Dwyn 1968
Bygwth achosi difrod troseddol	a.2 Deddf Difrod Troseddol 1971
Niweidio neu fygwth niweidio anifail anwes	a.1 a 2 Deddf Difrod Troseddol 1971 Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Gweithgarwch rhywiol gorfodol	a.1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 – treisio Gwahanol droseddau rhywiol o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003
Rhoi cyffuriau yn gudd neu'n orfodol	a.39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (ymosod cyffredin)  a.47 Deddf Troseddau Corfforol 1861 (gwir niwed corfforol)  a.18/20 Deddf Troseddau Corfforol 1861 (niwed corfforol difrifol)  a.23 Deddf Troseddau Corfforol 1861 (rhoi gwenwyn)  a.67 Deddf Meddyginiaethau 1968
Dwyn, lladrata, bwrgheriaeth	Deddf Dwyn 1968
Cael eiddo drwy dwyll	a.2 a 3 Deddf Twyll 2006

Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o droseddau posibl y gallant ddod ar eu traws. Mae llawer o fathau o gam-drin pobl hŷn ac ni ddylem gyfyngu ar y mathau o droseddau y gallwn eu hystyried.

Mae rhai troseddau'n cael eu cyflawni yn erbyn pobl sydd, am ba reswm bynnag, yn wynebu risg oherwydd eu sefyllfa bersonol neu gyflwr penodol sydd ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

### **Camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol**

O dan a.127 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae'n drosedd i berson a gyflogir gan ysbyty neu gartref gofal gam-drin neu esgeuluso'n fwriadol glaf sy'n derbyn triniaeth am anhwylder meddyliol fel claf mewnol neu glaf allanol, yn yr ysbyty neu'r cartref. Trosedd hefyd yw cam-drin neu esgeuluso'n fwriadol berson ag anhwylder meddyliol sydd dan warcheidiaeth o dan y Ddeddf. Gall y trosedd hwn gael ei gyflawni gan y gwarcheidwad neu unrhyw berson arall sydd â gwarchodaeth neu ofal am y claf – nid yw'n angenrheidiol bod rhwymedigaeth gyfreithiol i ofalu.

O dan a.44 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, trosedd yw cam-drin neu esgeuluso'n fwriadol berson sydd heb alluedd, neu berson y mae'r niweidiwr yn credu'n rhesymol ei fod heb alluedd. Gall y trosedd gael ei gyflawni gan rywun sydd â gofal am y person.

Yn dilyn argymhelliad gan ymchwiliad Francis i ddiwyddiadau yn ysbyty Canolbarth Swydd Stafford, mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 (DCTLI 2015) yn ehangu ystod y troseddau o gamdriniaeth ac esgeulustod bwriadol. Maent bellach yn mynd ochr yn ochr â'r troseddau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac yn gymwys

yn fwy cyffredinol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae DCTLI 2015 yn creu dau drosedd newydd:

- **Trosedd gweithiwr gofal:** O dan a.20 mae'n drosedd i berson sydd â gofal am unigolyn arall fel gweithiwr gofal gam-drin y person hwnnw neu ei esgeuluso'n fwriadol. Y diffiniad o weithiwr gofal yw person sy'n weithiwr sy'n gweithio am dâl sy'n darparu gofal iechyd am oedolyn neu blentyn neu'n darparu gofal cymdeithasol am oedolyn. Nid yw gofaluwr anffurfiol neu deuluol yn dod o dan y diffiniad hwn. Mae rhai cyfyngiadau ar yr hyn a olygir wrth waith am dâl. Er enghraifft, os mai dim ond treuliau rhesymol am ofalu y mae rhywun yn eu cael, yna nid yw'n gweithio am dâl.
- **Trosedd darparwr gofal:** Bwriad y trosedd hwn yw dal darparwyr gofal, fel perchnogion cartrefi gofal, yn atebol. Mae tair elfen yn y trosedd, a rhaid profi pob un ohonynt er mwyn gallu erlyn yn llwyddiannus:
  - bod person sy'n gofalu am glaf neu breswlydd yn rhan o drefniadau'r darparwr gofal ar gyfer darparu gofal iechyd neu gymdeithasol, yn gam-drin y claf neu breswlydd hwnnw neu'n ei esgeuluso'n fwriadol;
  - bod y darparwr gofal yn rhedeg y gwasanaeth mewn ffordd sy'n gyfystyr â 'thoriad difrifol' ar ddyletswydd gofal gyfreithiol tuag at y person; ac
  - pe na byddai'r toriad wedi digwydd, na fyddai'r gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol wedi digwydd, neu byddai'n llai tebygol o fod wedi digwydd.

Bydd y diffiniadau canlynol o gymorth:

**Camdriniaeth:** Rhaid i hon fod yn fwriadol a gall ddigwydd drwy weithred neu anwaith, neu'r ddau. Nid oes angen profi bod y gamdriniaeth wedi arwain at wir niwed, er y byddai hynny wedi digwydd fel arfer. Mae'r trosedd wedi'i fwriadu i ddelio ag ymddygiad y person yn hytrach na'r canlyniadau. Rhaid i'r gweithiwr gofal un ai deall bod ei ymddygiad yn gamdriniaeth neu fod yn ddi-hid o ran a yw'n gamdriniaeth.

**Esgeulustod bwriadol:** Er mwyn i'r esgeulustod fod yn fwriadol, rhaid bod y niweidiwr un ai wedi cyflawni'r weithred yn fwriadol gan wybod bod risg i'r person gael ei niweidio neu fod wedi cyflawni'r weithred heb bryderu a oes risg o'r fath. Mae esgeulustod yn cynnwys methu â darparu digon o fwyd, dillad, cymorth meddygol neu gynhesrwydd.

**Toriad difrifol:** Sylwer bod trosedd y darparwr gofal o dan DCTLI 2015 yn cyfeirio at doriad difrifol ('gross breach') ac nid toriad yn unig. Bydd yn doriad difrifol 'if the conduct alleged to amount to the breach falls far below what can reasonably be expected of the care provider in the circumstances.'

Ym mhob un o'r uchod, mae camdriniaeth ac esgeulustod bwriadol yn ddau drosedd ar wahân.

Diddorol yw nodi y bydd person a geir yn euog o drosedd y gweithiwr gofal o dan DCTLI 2015 yn gallu cael dedfryd o hyd at bum mlynedd neu ddeuddeg mis, yn ôl lefel y llys sy'n gwrandao'r achos. Bydd darparwr gofal a geir yn euog yn cael dirwy ac efallai un ai gorchymyn adfer neu orchymyn cyhoeddusrwydd.

Mae'r troseddau hyn wedi'u bwriadu i ddelio â'r math gwaethaf o driniaeth mewn lleoliadau gofal ac iechyd ac nid diffygion sy'n ganlyniad i ddiogelwch heb unrhyw fwriad neu ddihidrwydd. Fodd bynnag, rhaid delio â diffygion o'r fath yn rhan o'r ymarfer dysgu gwersi.

## Aflonyddu a pheri i bobl ofni trais

Ers ei chyflwyno ym 1997, mae Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu (DDA 1997) wedi'i diwygio a throseddau newydd wedi'u hychwanegu ati. Mae rhai enghreifftiau o'r math o ymddygiad sy'n dod o dan y Ddeddf ddiwygiedig wedi'u rhestru uchod. Mae'r Ddeddf yn creu'r troseddau canlynol:

**Aflonyddu:** Mae'r adran hon yn cynnwys dau drosedd:

1. rhaid i X beidio â dilyn ffordd o ymddwyn ('course of conduct') sy'n gyfystyr ag aflonyddu ar Y os yw X yn gwybod, neu os dylai wybod, mai aflonyddu ydyw. Mae ffordd o ymddwyn yn ymddygiad tuag at Y ar o leiaf ddau achlysur. Mae'n fuddiol bod DDA 1997 hefyd yn galluogi dioddefwr yr aflonyddu i ddod ag achos sifil yn erbyn y niweidiwr. Bydd y safon profi mewn achos o'r fath yn is na hynny sy'n ofynnol mewn achos troseddol – yn ôl pwysau tebygolrwydd yn hytrach na thu hwnt i bob amheuaeth resymol.
2. rhaid i X beidio â dilyn ffordd o ymddwyn sy'n golygu aflonyddu ar ddau neu ragor o bobl, os yw X yn gwybod, neu os dylai wybod, ei bod yn golygu aflonyddu arnynt, mewn amgylchiadau lle mae X yn bwriadu eu darbwyllo un ai i beidio â gwneud rhywbeth y mae ganddynt hawl i'w wneud, neu y mae'n ofynnol iddynt ei wneud, neu i wneud rhywbeth nad oes rhaid iddynt ei wneud. Mae ffordd o ymddwyn yn golygu ymddygiad ar o leiaf un achlysur mewn perthynas â phob person.

Mae ymddygiad yn cynnwys llefaru. Gall aflonyddu olygu peri dychryn neu ofid i'r person. Mae'r cwestiwn o ba un a ddylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu yn cael ei seilio ar farnu a fyddai person rhesymol sydd â'r un wybodaeth yn meddwl bod y ffordd o ymddwyn yn gyfystyr ag aflonyddu – prawf y 'person rhesymol' fel y'i gelwir.

**Stelcian:** O dan y trosedd hwn, rhaid bod X wedi aflonyddu (gweler uchod) a hefyd rhaid i'r ymddygiad fod yn gyfystyr â stelcian. Rhai enghreifftiau o weithredoedd sy'n gyfystyr â stelcian yw dilyn person; cysylltu ag ef neu geisio cysylltu ag ef mewn unrhyw ffordd; loetran mewn unrhyw le; ymyrryd ag eiddo sydd ym meddiant y person sy'n cael ei stelcian; a gwyllo neu ysbïo ar y person hwnnw. Gall ustus heddwch roi pŵer mynediad i gwnstabl i gasglu tystiolaeth ar gyfer treial posibl.

**Peri i berson ofni trais:** Er mwyn cyflawni'r trosedd hwn, mae angen dangos ffordd o ymddwyn fel honno sydd wedi'i diffinio uchod. Rhaid bod y ffordd honno o ymddwyn gan X wedi peri i Y ofni y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn. Bydd X yn gwybod, neu dylai wybod, y bydd yr ymddygiad yn peri i Y ofni trais. Wrth benderfynu a ddylai X wybod y canlyniadau i'r ymddygiad, bydd prawf y person rhesymol yn gymwys eto.

**Stelcian sy'n gysylltiedig ag ofn trais neu ddychryn neu ofid difrifol:** Rhaid bod y ffordd o ymddwyn gan X yn gyfystyr â stelcian fel y mae wedi'i ddiffinio uchod. Rhaid iddi un ai peri ofn i Y ar o leiaf ddau achlysur y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn neu beri dychryn neu ofid difrifol i Y sy'n cael effaith sylweddol ar weithgareddau arferol Y o ddydd i ddydd. Wrth benderfynu a ddylai X wybod beth fydd canlyniadau'r ymddygiad, bydd prawf y person rhesymol yn gymwys.

Gall y llys wneud gorchymyn atal yn erbyn person sydd wedi'i gael yn euog o drosedd o dan DDA 1997. Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw ddedfryd a roddwyd. Bydd y gorchymyn yn

amddiffyn y dioddefwr rhag ymddygiad pellach sy'n gyfystyr ag aflonyddu neu sy'n peri ofn trais. Mewn achosion eithriadol, gall y llys wneud gorchymyn yn erbyn person a geir yn ddieuog pan fydd angen i atal aflonyddu yn y dyfodol. Gan ei bod yn bosibl y bydd hyn yn ymyrryd â hawliau dynol y person hwnnw, mae'r llysoedd wedi dal mai dim ond lle mae ei wir angen i amddiffyn person arall y caiff ei ddefnyddio.

Mae lle i wneud gwaith ataliol drwy ddefnyddio'r deddfau hyn. Os rhoddir gwybod i'r niweidiwr fod ei ymddygiad yn peri ofn neu ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu, bydd wedi cael rhybudd. Bydd yn anodd iddo ddadlau nad oedd yn gwybod beth oedd canlyniadau ei weithredoedd; gall hyn arwain at newid yn ei ymddygiad.

## Ymddygiad cymhellol neu ormesol

Roedd Deddf Troseddau Difrifol 2015 (DTD 2015) wedi cyflwyno trosedd ymddygiad cymhellol neu ormesol mewn perthynas deuluol agos. Mae ymddygiad cymhellol neu ormesol yn nodwedd sy'n bresennol ym mhob math o gam-drin domestig a cham-drin pobl hŷn. Er ei bod yn bosibl na fydd y dystiolaeth yn ddigon cadarn i fodloni'r safon profi mewn achos troseddol, rhaid ystyried ymddygiad cymhellol neu ormesol bob amser ac ymchwilio iddo ym mhob achos sy'n ymwneud â diogelu.

Elfennau'r trosedd yw:

1. Bod X yn ymddwyn yn fynych neu'n barhaus tuag at Y mewn ffordd sy'n gymhellol neu'n ormesol;
2. Bod cysylltiad personol ar y pryd rhwng X a Y;
3. Bod yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar Y. Bydd ymddygiad X yn cael effaith ddifrifol ar Y os yw'n peri i Y ofni, ar o leiaf ddau achlysur, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn Y, neu os yw'n peri dychryn neu ofid difrifol i Y sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar weithgareddau arferol Y o ddydd i ddydd; a
4. Bod X yn gwybod, neu y dylai wybod, y bydd yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar Y (bydd prawf y person rhesymol yn gymwys wrth benderfynu a ddylai X wybod).

Beth yw ystyr 'cysylltiad personol'? Mae'n golygu un o ddau beth. Yn gyntaf, mae X a Y mewn 'perthynas bersonol agos' ('intimate'). Nid yw'n glir beth mae 'intimate' yn ei olygu yn y cyd-destun hwn. Defnyddir y term hwn mewn deddfwriaeth arall a mater i'r llysoedd yw penderfynu a yw perthynas yn dod o dan y diffiniad; fe all olygu perthynas rywiol. Yn yr ystyr hwn, mae 'intimate' yn cynnwys perthnasoedd agos, personol a phreifat. Nid yw'n cynnwys cyfeillgarwch platonig nac agosrwydd rhywiol neu gorfforol achlysurol. Yn ail, mae ystyr ehangach i 'gysylltiad personol' ac mae'n cynnwys sefyllfa lle mae X a Y yn cyd-fyw a lle maent un ai'n aelodau o'r un teulu neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos o'r blaen. Mae ystyr eang i 'deulu' ac mae'n cynnwys bod yn briod neu'n briod o'r blaen, bod mewn partneriaeth sifil yn awr neu o'r blaen, bod yn berthnasau, cytuno i briodi ei gilydd, neu fod wedi gwneud cytundeb partneriaeth sifil.

Ceir amddiffyniad rhag cyhuddiad yn DTD 2015. Mewn perthynas â pheri dychryn neu ofid difrifol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar weithgareddau arferol o ddydd i ddydd, amddiffyniad yw dangos:

1. bod X yn credu ei fod yn gweithredu er y budd pennaf i Y; a



2. bod yr ymddygiad yn yr holl amgylchiadau yn rhesymol.

Nid yw'r amddiffyniad hwn yn gymwys lle perir i Y ofni trais.

Wrth benderfynu a ddylai X wybod y byddai ei ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar Y, y prawf yw a fyddai person rhesymol a oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn gwybod y byddai'r ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar rywun.

Mae casglu tystiolaeth am ymddygiad cymhellol neu ormesol yn gymhleth a bydd angen edrych yn bellach na'r digwyddiad diwethaf, sef yr un a allai fod wedi dod â'r achos i sylw'r tîm diogelu oedolion. Bydd yn golygu edrych ar hanes y berthynas ac adnabod patrwm ymddygiad sy'n gymhellol neu'n ormesol. Mae'r canllawiau ar erlyn a roddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn darparu rhestr anghyflawn o'r math o dystiolaeth sydd ei hangen:

- Copïau o negeseuon e-bost.
- Cofnodion ffôn.
- Negeseuon testun.
- Tystiolaeth o gam-drin dros y rhyngrwyd, a thrwy dechnoleg ddigidol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Ffotograffau o anafiadau fel anafiadau amddiffynnol i flaen y fraich, ôl cudd o afael yn rhan uchaf y fraich, cleisio croen y pen, clympiau o wallt ar goll.
- Tapiâu neu drawsgrifiadau o alwadau 999.
- Lluniau teledu cylch cyfyng.
- Lluniau o gamera fideo corff.
- Y ffordd o fyw a'r aelwyd yn cynnwys tystiolaeth ffotograffig o'r safle.
- Cofnodion o ryngweithio â gwasanaethau fel gwasanaethau cymorth (hyd yn oed os yw rhannau o'r cofnodion hynny'n ymwneud â digwyddiadau cyn i'r trosedd newydd ddod rym, fe ellir dibynnu ar eu cynnwys mewn tystiolaeth o dan rai amgylchiadau).
- Cofnodion meddygol.
- Tystiolaeth tystion - er enghraifft, mae'n bosibl y bydd aelodau teuluol a ffrindiau'r dioddefwr yn gallu rhoi tystiolaeth am yr effaith o ganlyniad i ynysu'r dioddefwr.
- Ymholiadau lleol gyda chymdogion, cyflenwyr rheolaidd, postmyn, glanhawyr ffenestri, etc.
- Cofnodion banc i ddangos rheolaeth ariannol.
- Bygythiadau blaenorol i blant ac aelodau eraill o'r teulu.
- Dyddiadur wedi'i gadw gan y dioddefwr.
- Disgrifiad y dioddefwr i'r heddlu o'r hyn a ddigwyddodd.
- Tystiolaeth o ynysu fel diffyg cyswllt â'r teulu a ffrindiau, y dioddefwr yn tynnu'n ôl o weithgareddau fel clybiau, neu'r niweidiwr yn mynd gyda'r dioddefwr i apwyntiadau meddygol.
- Dyfeisiau tracio GPS wedi'u gosod ar ffonau symudol, llechi, cerbydau, etc.
- Lle mae'r niweidiwr yn gyfrifol fel gofalwr, gall y cynllun gofal fod yn ddefnyddiol gan ei fod yn dangos ar beth y dylai arian gael ei wario.

Mae'r CPS hefyd yn awgrymu bod y dioddefwyr yn cadw dyddiadur o ddigwyddiadau (mewn llyfr wedi'i rwymo, os oes modd, neu gofnod electronig wedi'i amseru).

## Y baich profi a'r safon profi mewn achosion troseddol

Oherwydd y rhagdybiaeth bod y cyhuddedig yn ddieuog, mae'r baich (pwy sy'n gorfod ei brofi) o brofi bod y cyhuddedig yn euog o drosedd yn cael ei osod ar yr erlyniad. Y CPS fydd hwn fel arfer. Mae'r safon profi (graddau'r prawf sydd ei angen) yn golygu bod rhaid profi achos yr erlyniad y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Safon profi uchel yw hon sy'n galw am gasglu tystiolaeth o ansawdd da i gefnogi'r achos. Rhaid i farnwyr beidio â chyfeirio at ganrannau wrth egluro i'r rheithgor beth mae'r safon profi hon yn ei olygu. Bydd barnwyr yn siarad yn gyffredinol ac yn ceisio osgoi sôn am faterion penodol. Roedd un barnwr wedi'i roi fel hyn (os oedd o gymorth neu beidio):

**“The prosecution must make you feel sure beyond reasonable doubt. A reasonable doubt is a doubt that is reasonable. These are ordinary English words that the law does not allow me to help you with, beyond the written directions.” [yr oedd wedi'u rhoi iddynt cyn hynny] (Mr Ustus Sweeney yn nhreial Vicky Pryce)**

Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd y baich profi mewn achos troseddol gan yr amddiffyniad. Er enghraifft, os yw'r amddiffyniad am ddefnyddio'r amddiffyniad sydd ar gael o dan DTD 2015, rhaid iddo ddarparu rhywfaint o dystiolaeth o leiaf i ategu'r gred bod X yn gweithredu er y budd pennaf i Y. Nid yw'n ddigon ei godi fel amddiffyniad heb unrhyw dystiolaeth i'w ategu. Ar ôl ei godi mewn ffordd sy'n bodloni'r llys, bydd y baich wedyn ar yr erlyniad i brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad oedd yn wir.

## Y penderfyniad i erlyn

Nid yw defnyddio cyfraith trosedd yn ateb i bob dim; ni fydd yn rhoi terfyn ar gam-drin ar ei ben ei hun, ond mae ganddi ran i'w chwarae. Yn aml, bydd paratoi achos yr erlyniad yn galw am gasglu tystiolaeth gan ymarferwyr gofal cymdeithasol ar gyfer yr achos troseddol. Ar ryw bwynt, rhaid iddynt groesi'r llinell o waith therapiwtig i waith fforensig a rhaid cydnabod y newid hwn yn eu rôl.

Gwneir y penderfyniad i erlyn gan y CPS yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu. Bydd y CPS yn adolygu'r dystiolaeth. Y CPS yw un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r broses diogelu. Er nad yw erlyn yn briodol ym mhob achos a bod angen arfer crebwyll yn ofalus, mae hawl gan ddioddefwyr camdriniaeth yn erbyn pobl hŷn i gael eu hamddiffyn gan gyfraith trosedd; mae'r hawl i gyfiawnder yn hawl ddynol.

Wrth adolygu'r dystiolaeth a phenderfynu a fydd yn erlyn, mae'r CPS yn defnyddio prawf dau gam a elwir yn Brawf Cod Llawn.

### Cam 1

Cam y dystiolaeth: a oes digon o dystiolaeth i roi gobraith rhesymol o gael euogfarn? Asesir y dystiolaeth i sicrhau ei bod yn dderbyniadwy ac yn ddibynadwy. A fydd y tyst 'yn sefyll yn y treial'? Mae'r rhagdybiaeth bod pob person hŷn yn sicr o fod yn dyst gwael oherwydd ei olwg eiddil, cof gwael, galluedd ansicr, neu henaint a dim arall, yn rhagfarn seiliedig ar oed. Rhaid herio pob rhagdybiaeth ddi-sail am allu'r unigolyn i gyflwyno tystiolaeth. Bydd nifer mawr o bobl hŷn yn gwneud tystion da. Er ei bod yn

bosibl na fyddant yn mwynhau'r broses (prin yw'r tystion sydd) ac y gall beri straen iddynt, nid yw hynny ar ei ben ei hun yn rheswm dros wrthod cyfiawnder iddynt o dan y system cyfiawnder troseddol.

## Cam 2

A oes angen erlyn er budd y cyhoedd? A yw'r ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyn yn bwysicach na'r rheini o'i blaid? Wrth benderfynu hyn, bydd amgylchiadau'r person hŷn yn berthnasol. Os yw'r dioddefwr yn agored i niwed, mae'n fwy tebygol y bydd angen erlyn er budd y cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o wir lle'r oedd y niweidiwr mewn swydd o ymddiriedaeth. Mae Cod y CPS yn galw ar erlynywyr i ystyried a oedd y trosedd wedi'i ysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu wedi'i seilio, er enghraifft, ar anabledd neu oed. Rhaid ystyried hefyd y posibilrwydd y bydd erlyn yn amharu ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr, ond rhaid pwysu hyn yn erbyn difrifoldeb y trosedd. Dylid ystyried barn y dioddefwr a'i deulu lle bo'n briodol. Er y bydd y CPS yn ystyried barn y dioddefwr a'i deulu, mae ganddo ddyletswydd fwy cyffredinol at y cyhoedd i orfodi'r gyfraith; felly mae penderfyniadau i erlyn yn gymhleth.

Os yw person i roi tystiolaeth mewn llys, rhaid iddo fod yn 'dyst cymwys'. Mae'r prawf cymhwysedd yn datgan:

**'(A) person is not competent to give evidence in criminal proceedings if it appears to the Court that they are unable to understand questions put to them as a witness and give answers to them which can be understood.'** (Adran 53(3) o Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999)

Mae cymhwysedd a galluedd meddyliol yn ddau beth gwahanol. Gall person sydd heb alluedd meddyliol ar gyfer rhai penderfyniadau fod yn dyst cymwys a gallu deall cwestiynau a ofynnir iddo a rhoi atebion dealladwy. Dylai'r CPS gynnwys ymarferwyr gofal iechyd a chymdeithasol yn gynnar wrth wneud penderfyniad am gymhwysedd. Yma eto, rhaid herio rhagdybiaethau di-sail. Bydd trafodaethau o'r fath yn gyfle hefyd i bennu unrhyw fesurau arbennig a all helpu'r person i roi tystiolaeth. Trafodir y rhain isod. Dylai ymarferwyr gofal iechyd a chymdeithasol fod yn rhagweithiol hefyd o ran darparu gwybodaeth i'r CPS.

Mae'r CPS wedi cyhoeddi arweiniad a ddiweddarwyd yn ddiweddar ynghylch erlyn am droseddau yn erbyn pobl hŷn, ac mae ar gael yn <https://www.cps.gov.uk/publication/policy-guidance-prosecution-crimes-against-older-people-0>

## Y system cyfiawnder troseddol

Ar ôl penderfynu erlyn, bydd yn bwysig ystyried beth yw'r ffordd orau o helpu'r person hŷn yn ystod y broses. Rhaid i ymarferwyr sy'n ymwneud â'r ymchwiliad (casglu tystiolaeth, cyf-weld y person hŷn neu ddarparu datganiadau tyst) fod yn ofalus i beidio â thanseilio'r achos drwy gael eu cyhuddo o hyfforddi'r tyst. Mae grwpiau gwirfoddol, fel Cymorth i Ddioddefwyr, yn darparu cymorth, a gall eiriolwr fod o gymorth hefyd. Wrth baratoi ar gyfer y llys, rhaid datrys problemau ymarferol, fel penderfynu sut y bydd y person hŷn yn cyrraedd y llys ac a fydd yn hawdd dod i mewn i'r llys os oes problemau o ran symudedd. Hefyd, mae'n debygol na fydd y person hŷn wedi rhoi tystiolaeth o'r blaen a bydd arno angen gwybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd.

I'r rhan fwyaf o bobl, mae rhoi tystiolaeth mewn llys yn anodd ac yn achosi straen. Gan gydnabod y gall rhai pobl fod yn agored iawn i niwed wrth roi tystiolaeth, cyflwynwyd 'mesurau

arbennig' i helpu rhai grwpiau o dystion. Fodd bynnag, rhaid mantoli unrhyw gymorth a roddir yn erbyn hawl y diffynnydd i gael treial teg a rhaid parchu hyn wrth roi unrhyw gymorth i dystion. Mae'n fater o ddal y ddysgl yn wastad rhwng hawliau'r tyst a hawliau'r diffynnydd.

Roedd mesurau arbennig ar gael ers cryn amser i helpu plant i roi tystiolaeth mewn achosion troseddol. Roedd Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (DCITD 1999) wedi estyn y rhain i gynnwys rhai oedolion. Bydd mesurau arbennig ar gael i oedolion cymwys pan fyddant yn cyflwyno tystiolaeth mewn treialon troseddol lle byddai'r ffaith eu bod yn agored i niwed yn gallu effeithio ar ansawdd eu tystiolaeth. Nid yw'r mesurau arbennig ar gael i bob oedolyn. Yn bwysicaf oll, nid ydynt ar gael i'r diffynnydd.

Cyn i'r llys roi caniatâd i ddefnyddio mesurau arbennig, rhaid i'r tyst fodloni'r amodau sydd yn DCITD 1999. Gall person hŷn fod yn gymwys i gael mesurau arbennig yn yr amgylchiadau canlynol:

**Tystion agored i niwed:** Lle mae'r llys yn penderfynu bod ansawdd y dystiolaeth yn debygol o gael ei leihau oherwydd:

- bod anhwylder meddyliol gan y person o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu fod rhyw nam sylweddol arall ar ei ddeallusrwydd a'i weithrediadau cymdeithasol; neu
- fod anabledd corfforol gan y person neu ei fod yn dioddef anhwylder corfforol

## NEU

**Tystion sy'n cael eu bygwth:** Lle mae'r llys yn dod i'r casgliad bod ansawdd y dystiolaeth yn debygol o gael ei leihau oherwydd ofn neu ofid, bydd nifer o ffactorau'n berthnasol, yn cynnwys:

- Natur amgylchiadau honedig y trosedd honedig.
- Oed y tyst.
- Cefndir cymdeithasol a diwylliannol y tyst.
- Unrhyw ymddygiad tuag at y tyst ar ran y diffynnydd, aelod o'i deulu, neu unrhyw berson sy'n debygol o fod yn gyhuddedig neu'n dyst.

Mae Canllawiau'r CPS ar Fesurau Arbennig yn datgan bod achwynwyr mewn achosion o ymosod rhywiol yn cael eu hystyried yn awtomatig yn dystion sy'n cael eu bygwth. Byddai dioddefwyr troseddau difrifol fel cam-drin domestig, trosedd casineb, ymgais i lofruddio, llathruddo a chamgarcharu, ac anafu neu achosi niwed corfforol yn fwriadol hefyd yn gallu cael eu hystyried yn dystion sy'n cael eu bygwth.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ymarferwyr gofal iechyd a chymdeithasol ddarparu tystiolaeth seiliedig ar eu gwybodaeth broffesiynol am y person er mwyn ategu cais i'r llys am fesurau arbennig.

Mesurau arbennig yw:

- Sgrinio'r tyst rhag y cyhuddedig.
- Recordio'r dystiolaeth flaenaf ar fideo.
- Rhoi tystiolaeth drwy gyswllt byw.

- Rhoi tystiolaeth yn breifat.
- Tynnu wigiau a gynau.
- Gadael i dystion ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu.
- Recordio'r croesholi ac ailholi cyn y treial ar fideo (nid yw mewn grym eto, ond mae'n cael ei dreialu).
- Canolwyr – canolwr cymeradwy i helpu tyst i gyfathrebu â chynrychiolwyr cyfreithiol a'r llys.

Rhaid i'r barnwr roi hynny o rybudd sydd ei angen i sicrhau na fydd y defnydd o fesurau arbennig gan y tyst yn achosi anfantais i'r cyhuddedig. Mae'n bosibl y bydd y defnydd o rai o'r mesurau hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd achos yn cael ei erlyn.

## Sut y dylid ei defnyddio?

Er nad yw bob amser yn briodol nac yn ymarferol defnyddio cyfraith trosedd, mae'n bwysig cofio bod camdriniaeth yn aml iawn yn drosedd. Nid yw natur yr ymddygiad yn newid am ei fod yn ymwneud â pherson hŷn. Dylid rhoi gwybod i niweidiwr y gall ei ymddygiad fod yn drosedd. Bydd y penderfyniad i ddefnyddio cyfraith trosedd yn un cymhleth a bydd yn cynnwys nifer o wahanol asiantaethau, yn cynnwys yr heddlu a'r CPS.

Mae cydweithio agos rhwng asiantaethau a rhannu gwybodaeth yn hanfodol. Os yw'r person hŷn heb alluedd i wneud penderfyniad, bydd pryderon yn codi os na fydd Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (EAGM) yn cael ei gynnwys nes bod yr ymchwiliad bron ar ben. Gall rhai deimlo y byddai'r EAGM yn amharu ar y broses ac y byddai mewn perygl o wynebu honiadau am hyfforddi'r tyst, gan ei gwneud yn llai tebygol y bydd yr achos yn cael ei erlyn. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol cynnwys EAGM yn gynnar gan y bydd nifer o'r penderfyniadau a wneir tua dechrau'r ymchwiliad yn gallu pennu beth fydd y canlyniad. Drwy gynnwys yr EAGM yn ystod yr ymchwiliad, gellir helpu i sicrhau bod rhywun yn eirioli dros y dioddefwr a bod opsiynau'n cael eu hystyried – defnyddio mesurau arbennig, er enghraifft. Gall yr EAGM helpu hefyd i hwyluso'r cyfathrebu â'r dioddefwr. Er bod y person heb alluedd, mae ganddo hawl o hyd i ddefnyddio prosesau cyfiawnder troseddol neu sifil. Drwy gynnwys EAGM yn gynnar, gellir cael cymorth i sicrhau hyn i ddioddefwyr sydd heb alluedd.

## Beth yw'r cyfyngiadau?

Nid yw cyfraith trosedd yn ateb i bob dim. Mae'n dibynnu ar y gallu i lwyddo yn yr agwedd fforensig ar ddiogelu. Wedi i'r person hŷn gydweithredu â'r erlyniad, mae perygl y gall yr achos fethu yn y pen draw oherwydd rhyw gamgymeriad yn y broses ymchwilio. Mewn rhai achosion, bydd defnyddio cyfraith trosedd yn gwneud pethau'n waeth.

## Pwyntiau i'w cofio

- Ni fydd pob person hŷn sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn agored iawn i niwed. Bydd llawer o bobl hŷn yn ymdopi â hyn gystal ag unrhyw dyst neu ddioddefwr arall.
- Rhaid herio ffyrdd stereoteipaidd o edrych ar bobl hŷn – yr unigolyn sy'n bwysig.
- O fewn y system cyfiawnder troseddol, ceir buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae buddiannau'r dioddefwyr a'r dystion yn bwysig. Er hynny, rhaid peidio â cholli golwg

ar y pwysigrwydd o drin y cyhuddedig yn deg. Mae ganddo hawl o dan y CEHD i gael gwrandawriad teg.

- Mae gan yr heddlu arbenigedd a phwerau arbennig sy'n amhrisiadwy. Nid yw'r ffaith bod yr heddlu yn gysylltiedig â'r achos yn golygu y byddant yn ymgymryd â'r broses diogelu bob tro – mewn rhai achosion gellid gweld ei bod yn well iddynt aros yn y cefndir a chael eu galw i mewn os bydd angen. Fodd bynnag, os oes posibilrwydd y bydd achos yn cael ei erlyn, yna fe fydd yr heddlu yn cymryd rhan, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'w hymchwiliad nhw gael blaenoriaeth.
- Mae'n bwysig cydweithio â'r CPS; bydd ganddo benderfyniadau anodd i'w gwneud.
- Dylai ymarferwyr fod yn barod i gynghori'r CPS, yn enwedig ynghylch defnyddio mesurau arbennig.

# Pennod 8: Pwerau Mynediad ac Arestio

## Cyflwyniad

Un rhwystr sy'n codi wrth ymchwilio i achosion o gamdriniaeth ac esgeulustod yw cael mynediad at y person – dim ond wedi i'r ymarferydd gael gweld y person y bydd modd penderfynu ar sail gwybodaeth am ei ddiogelwch a'r canlyniad y mae am ei weld. Mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn rhoi pwyslais ar hawliau eiddo. Os mai'r un a amheuir o gamdriniaeth yw perchennog neu denant y fangre, yna fe all rwystro mynediad. Hyd yn oed os mai'r oedolyn sy'n wynebu risg yw'r perchennog neu denant, gall rhywun bwysu arno i wrthod mynediad i wasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau iechyd. Mae parch at hawliau eiddo a'r cartref yn bwysig ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd bydd angen brys i gael mynediad at oedolyn sy'n wynebu risg.

Mewn ymchwil ar ran yr Adran Iechyd yn Lloegr, cafwyd bod ymarferwyr sy'n wynebu anawsterau wrth sicrhau mynediad at oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn gallu defnyddio nifer o sgiliau gwahanol i drechu gwrthwynebiad. Gall y rhain gynnwys meithrin cysylltiad â'r person sy'n gwrthod mynediad. Mae sgiliau ymarferwyr yn amhrisiadwy ac, yn y rhan fwyaf o achosion, gellir trechu rhwystrau, er bod rhaid aros am gyfnod cyn i hynny ddigwydd. Bydd anawsterau'n codi pan na fydd hyn yn gweithio, neu pan fo angen cael mynediad ar unwaith. Bryd hynny, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio pwerau cyfreithiol.

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

Mae'r gyfraith yn darparu ar gyfer nifer o ffyrdd i gael mynediad at oedolyn sy'n wynebu risg, os ceir gwrthwynebiad.

O dan a.17(1)(e) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (DHTD 1984), gall swyddog heddlu fynd i mewn i fangre a'i chwilio er mwyn achub bywyd, neu atal difrod difrifol i eiddo. Nid yw'r pŵer wedi'i gysylltu ag amheuaeth o drosedd a gellir ei ddefnyddio yn ôl disgrisiwn y swyddog heddlu; nid oes angen gwarant.

Mae pwerau mynediad eraill ar gael. O dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gall ynad gyhoeddi gwarant yn awdurdodi cwnstabl i fynd i mewn i fangre (gan ddefnyddio grym os bydd angen) lle y credir bod person y tybir ei fod yn dioddef anhwylder meddyliol yn cael neu wedi cael ei gamdrin, ei esgeuluso neu heb gael ei gadw o dan reolaeth briodol ('proper control'), neu'n byw ar ei ben ei hun a heb allu i ofalu amdano'i hun. Bydd y warant yn awdurdodi'r cwnstabl i symud y person i le diogel ('place of safety') fel y gellir ei asesu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu lle y gellir gwneud trefniant ar gyfer triniaeth neu ofal. Y sail i'r cais am warant fydd gwybodaeth a ddarperir gan Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP).

Gellir gwneud cais hefyd i'r llys ynadon am warant i fynd i mewn i fangre pan yw person wedi'i awdurdodi o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i hebrwng (neu ailhebrwng) claf i le penodol a bod mynediad wedi'i wrthod i'r fangre lle y mae neu y bu'r claf, neu fod gwrthodiad wedi'i ragweld. Mae'r warant yn awdurdodi'r cwnstabl i fynd i mewn i'r fangre, drwy ddefnyddio grym os bydd angen, a symud y claf.

Mae Adran 115 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn rhoi pŵer i AMHP i fynd i mewn i fangre lle mae claf ag anhwylder meddyliol yn byw ac archwilio'r fangre os oes ganddo sail resymol dros

gredu nad yw'r claf yn derbyn gofal priodol. Dim ond ar amseroedd rhesymol y gellir arfer y pŵer ac nid yw'n gymwys i ysbytai. Er nad oes pŵer gan yr AMHP i gael mynediad drwy rym, fe all gwrthod mynediad fod yn drosedd o dan a.129 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, sy'n ymwneud â rhwystro personau awdurdodedig wrth iddynt arfer eu pwerau. Yn yr amgylchiadau hyn, gellid ceisio gwarant gan yr ynadon o dan a.135.

Dim ond lle y mae neu lle y credir bod anhwylder meddyliol gan y person sydd wedi'i ddiffinio o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 y gellir defnyddio pwerau mynediad o dan Adranau 115 a 135 o'r Ddeddf honno; nid ydynt ar gael yn gyffredinol.

O dan a.34 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016, gall un o arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru, er mwyn cynnal arolygiad, fynd i mewn i unrhyw fangre a ddefnyddir i ddarparu 'gwasanaethau rheoleiddiedig'. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys annedd breifat oni bai fod y meddiannydd yn cydsynio. Ar ôl cael mynediad, bydd gan yr arolygydd bwerau, yn cynnwys asesu llesiant pobl sy'n byw yno neu'n derbyn gofal yno. Mae pwerau ar gael i weld dogfennau a chofnodion a'u cymryd os credir bod angen gwneud hynny. Mae pŵer hefyd i gyf-weld person yn breifat, ar yr amod ei fod yn cydsynio. Hefyd gellir cynnal archwiliad meddygol o'r person sy'n cael y gwasanaeth os bydd yn cydsynio. Bydd hyn yn gymwys lle mae'r arolygydd yn credu y bydd hyn yn 'angenrheidiol neu'n hwylus' wrth asesu gofal a chymorth, a llesiant. Rhaid i'r person sy'n cynnal yr archwiliad fod yn ymarferydd meddygol neu nyrs gofrestredig.

Mae pwerau eraill ar gael a all fod o gymorth, er nad ydynt wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer achosion diogelu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- a. 287 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936: mae hon yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol i fynd i mewn i fangre mewn perthynas â thoriadau posibl ar y Ddeddf. Gellir cael gwarant gan y llys ynadon os gwrthodir mynediad neu os rhagwelir y bydd mynediad yn cael ei wrthod.
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984: Mae nifer o ddarpariaethau o dan y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bobl sydd â chlefydau heintus.
- Mae'n werth cofio bod pŵer yn aml gan landlordiaid i fynd i mewn i eiddo.

Roedd DGCLI(C) 2014 wedi cymryd rhai camau i gyflwyno pwerau mynediad cyfreithiol ym maes diogelu oedolion ar ffurf y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO). Gellir defnyddio'r awdurdodaeth gynhenid hefyd i gael mynediad. Mae'r rhain yn cael eu trafod ym Mhennod 6.

## Arestio

Gall arestio fod yn ymyriad priodol hefyd i amddiffyn person sy'n wynebu risg. O dan a.24 o DHTD 1984, gall swyddog heddlu arestio heb warant unrhyw un:

- sydd ar fin cyflawni trosedd;
- sydd wrthi'n cyflawni trosedd; neu
- y mae ganddo sail resymol dros gredu ei fod ar fin cyflawni trosedd.

Fodd bynnag, dim ond os yw un o nifer o amodau'n cael ei fodloni y gellir gwneud hyn. Un o'r amodau hyn yw amddiffyn plentyn neu berson arall sy'n agored i niwed rhag y person sy'n cael ei arestio.



Mewn nifer bach o amgylchiadau sydd wedi'u disgrifio yn a.24A o DHTD 1984, gall person heblaw cwnstabl heddlu arestio heb warant unrhyw un sydd wrthi'n cyflawni trosedd ditiadwy (yn gyffredinol, trosedd difrifol a fyddai'n cael ei brofi fel arfer yn Llys y Goron) neu y mae ganddo sail resymol dros gredu ei fod yn cyflawni trosedd ditiadwy. Yn yr un modd, os yw trosedd ditiadwy wedi'i gyflawni, gall person heblaw cwnstabl arestio unrhyw un sy'n euog o'r trosedd neu y mae ganddo sail resymol dros gredu ei fod yn euog o'r trosedd. Gellir arfer y pŵer hwn os nad yw'n rhesymol ymarferol i gwnstabl ei arestio. Rhaid iddo gael ei arfer i atal y person rhag achosi anaf corfforol iddo ef ei hun neu i berson arall, rhag cael anaf corfforol neu rhag ffoi cyn i gwnstabl gyrraedd y fan. Dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol y dylid defnyddio'r pŵer 'arestiad y dinesydd' hwn, ac ar yr amod bod y person sy'n arfer y pŵer yn sicr o'i ddiogelwch ei hun. Gofal piau hi!

## Sut y dylid ei ddefnyddio?

Mae'r pwerau uchod yn rhai ymyrgar, a rhaid ystyried a fydd eu defnyddio yn gymesur. Lle y mae'n rhaid gwneud cais i'r ynadon, rhaid darparu tystiolaeth i ategu'r cais a bydd angen cael cyngor cyfreithiol. Nid yw rhai o'r pwerau a ddisgrifiwyd yma wedi'u bwriadu ar gyfer achosion lle mae amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod a rhaid gofalu na fydd deddfwriaeth benodol yn cael ei chymhwyso at bobl dim ond i'ch galluogi i gael mynediad. Er enghraifft, rhaid peidio â chamddefnyddio deddfwriaeth iechyd y cyhoedd. Yn yr un modd, dim ond ar gyfer y rheini sy'n dod o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu y credir eu bod yn dod o dan y Ddeddf honno, y dylid defnyddio darpariaethau iechyd meddwl.

Y rheol sylfaenol yn y gyfraith yw nad oes pŵer mynediad cyffredinol ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pwerau'r heddlu yn ddefnyddiol, ond maent yn dibynnu ar gael perthynas waith dda â'r heddlu. Rhaid i ymarferwyr roi sylw bob amser i'w diogelwch personol eu hunain a pheidio byth â mentro i raddau annerbyniol.

## Beth yw ei gyfyngiadau?

- Gall anawsterau godi wrth geisio cael y dystiolaeth sydd ei hangen i arfer y pwerau hyn.
- Rhaid parchu ymreolaeth y person.
- Ni ddylai ymarferwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol byth defnyddio grym i gadw rhywun yn gaeth neu i gael mynediad i fangre.
- Pwerau tymor byr yw pwerau mynediad ac arestio – dim ond ychydig o gyfle y maent yn ei roi i ymyrryd.

## Pwyntiau i'w cofio:

- Bydd rhannu gwybodaeth yn gwella'r sylfaen dystiolaeth ac yn rhoi'r gallu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am yr angen i arfer y pwerau hyn.
- Os yw'n bosibl ac yn ddiogel gwneud hynny, dylid rhoi cynnig ar ffyrdd anffurfiol i gael mynediad.

# Pennod 9: Cam-drin Domestig

## Cyflwyniad

Yn aml iawn, mae cam-drin pobl hŷn yn gam-drin domestig. P'un ai yw'r camdriniwr yn bartner clòs neu'n aelod o'r teulu, nid rhywun dieithr neu ofalwr proffesiynol, mae'n dal i fod yn gam-drin domestig. Mae'r diffiniad traws-Llywodraeth o gam-drin domestig yn cyfeirio ato fel:

**'Unrhyw ymddygiad neu batrwm o ymddygiad gormesol, bygythiol neu reoli drwy orfodaeth, trais neu gam-drin rhwng pobl 16 oed neu hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid clòs neu'n aelodau o'r teulu, beth bynnag yw eu rhywedd neu rywioldeb.'**

Mae'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i gam-drin seicolegol, rhywiol, ariannol ac emosiynol. Dylai pobl hŷn sy'n profi'r math yma o gam-drin fod yn gallu cael gafael ar yr opsiynau cyfiawnder sydd ar gael i ddiodefwr iau; nid yw'r ffaith eu bod yn hŷn yn golygu ei fod yn dod yn fater o ddiogelu'n unig.

Dros y blynyddoedd daeth pobl yn fwy ymwybodol o gam-drin domestig gyda nifer o fesurau cyfreithiol i ddarparu opsiynau cyfiawnder i ddiodefwr wedi eu cyflwyno. Byddai'n anghywir awgrymu bod y mesurau hyn wedi cynnig atebion parhaol i gam-drin domestig; nid yw hynny'n wir. Er hynny, maen nhw'n cynnig nifer o opsiynau y dylid eu hystyried mewn achosion o gam-drin pobl hŷn yn y cartref, yn ogystal ag unrhyw fesurau diogelu sydd efallai'n cael eu hystyried.

Cyn edrych ar y gyfraith berthnasol, byddai'n werth nodi dwy ran bwysig i'r fframwaith cymorth ar gyfer cam-drin domestig. Y gyntaf yw'r Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC), sef cyfarfod rhwng asiantaethau allweddol i rannu gwybodaeth a rheoli risg ar gyfer diodefwr, ac sy'n delio ag achosion risg uchel. Mae MARAC yn hwyluso, monitro a gwerthuso rhannu gwybodaeth er mwyn gallu cymryd y camau angenrheidiol i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae'n derbyn y wybodaeth risg a'r asesiadau diweddaraf o anghenion y diodefwr gan drefnu gwasanaethau mewn ymateb i hyn ar gyfer pawb sy'n rhan o'r achos cam-drin domestig, sef y diodefwr, unrhyw blant ifanc, a'r niweidiwr. Yr ail ran yw'r asesiad risg DASH. Mae DASH yn sefyll am gam-drin domestig, stelcian a thrais ar sail 'anrhydedd'. Mae asesiad risg DASH yn rhoi adnodd i ymarferwyr sy'n gweithio gyda diodefwr (oedolion) cam-drin domestig i helpu i adnabod pwy sy'n wynebu risg uchel ac, felly, sydd angen eu cyfeirio at gyfarfod MARAC.

## Beth y mae'r Gyfraith yn ei ddweud?

Dros y blynyddoedd mae'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth a mesurau eraill i ddelio â cham-drin domestig.

## Deddf Cyfraith Teulu 1996

Cyflwynodd Deddf Cyfraith Teulu 1996 ddau fath o orchymyn i'r pwrpas o amddiffyn rhai sy'n profi cam-drin domestig. Y math cyntaf yw gorchymyn meddiannu a gellir ei ddefnyddio i gau'r niweidiwr allan o'r cartref, neu allan o ran ohono. Mae wedi'i gymhlethu oherwydd bod angen adnabod natur y budd sydd gan y diodefwr a'r niweidiwr yn yr eiddo. Mae bob amser yn syniad da i'r diodefwr ofyn am gyngor cyfreithiol ar hyn. Yr ail fath yw gorchymyn peidio ag ymyrryd sef gwaharddeb sy'n gwahardd y niweidiwr rhag defnyddio na bygwth trais, neu harasio, bygwth neu aflonyddu ar y diodefwr. Eto, dylai'r diodefwr ofyn am gyngor cyfreithiol

i weld a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gorchymyn o'r fath. Mae torri gorchymyn peidio ag ymyrryd yn ddirmyg llys sifil a hefyd yn drosedd.

Yn wahanol i achosion troseddol, mae achosion o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 yn faterion cyfraith breifat a rhaid i'r person ei hun eu hariannu, neu drwy'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol.

Yn dilyn pasio Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 (LASPO 2012), gwnaed newidiadau radical i ddarparu Cymorth Cyfreithiol. Roedd rheoliadau cynharach o dan LASPO 2012 yn ei gwneud yn anodd i ddioddefwr cam-drin domestig fodloni'r rheoliadau porth ar gyfer Cymorth Cyfreithiol. Ar ôl her gyfreithiol lwyddiannus, penderfynodd Llywodraeth San Steffan ddiwygio'r rheoliadau i gynnwys rhestr ehangach o dystiolaeth sy'n dderbyniol i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'r rheoliadau diwygiedig i'w cael yn Rheoliad 33 o Reoliadau (Diwygiedig) Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012. Nid oes terfyn amser mwyach ar ba mor bell yn ôl y gall tystiolaeth o gam-drin fynd; o'r blaen, roedd yn bum mlynedd. Mae'r mathau o wybodaeth y gellir eu derbyn fel tystiolaeth o gam-drin hefyd wedi cynyddu a bellach yn cynnwys datganiadau gan fudiadau cymorth trais domestig a swyddogion cymorth tai. Bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ystyried y dystiolaeth ganlynol – P yw'r camdriniwr:

1. Tystiolaeth fod P wedi cael ei arestio am drosedd trais domestig perthnasol.
2. Rhybuddiad perthnasol gan yr heddlu am drosedd trais domestig.
3. Tystiolaeth o achos troseddol perthnasol am drosedd trais domestig na ddaeth i ben eto.
4. Euogfarn berthnasol am drosedd trais domestig.
5. Rhybudd amddiffyn rhag trais domestig yn erbyn P o dan a.24 o Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010.
6. Mechnïaeth heddlu am drosedd trais domestig.
7. Gwaharddeb amddiffyn berthnasol.
8. Copi o ganfod ffaith, a wnaed mewn achos yn y Deyrnas Unedig, bod P wedi cyflawni trais domestig.
9. Adroddiad gan arbenigwr a gyflwynwyd fel tystiolaeth mewn achos yn y Deyrnas Unedig ar gyfer llys neu driwlynlys yn cadarnhau bod person y mae P mewn, neu wedi bod mewn, perthynas deuluol â nhw, wedi eu hasesu i fod yn wynebu risg o ddiodef trais domestig gan P.
10. Llythyr neu adroddiad gan weithiwr iechyd proffesiynol priodol.
11. Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth.
12. Llythyr gan gynghorydd trais domestig annibynnol.
13. Llythyr gan gynghorydd trais rhywiol annibynnol.
14. Llythyr gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai.

15. Llythyr gan fudiad sy'n darparu gwasanaethau cymorth trais domestig.

16. Mudiad cymorth trais domestig wedi gwrthod eu derbyn i loches.

17. Tystiolaeth o gam-drin ariannol (er enghraifft, datganiadau banc a negeseuon testun).

Bydd angen gwirio i weld a yw'r person hŷn yn gymwys i dderbyn Cymorth Cyfreithiol.

## **Cyfraith Clare: Y Cynllun Datgelu Trais Domestig**

Ar ôl i Clare Wood gael ei llofruddio gan ddyn iddi ei gyfarfod ar Facebook, ymgyrchodd ei thad dros newid y gyfraith i'w gwneud yn ofynnol i'r heddlu ddatgelu a oedd gan bartner unrhyw hanes o drais. Mae dwy ran i'r cynllun. Y gyntaf yw'r hawl i ofyn. O dan y drefn hon, gall aelod o'r cyhoedd ofyn am wybodaeth gan yr heddlu am eu partner. Bydd yr heddlu'n gwneud ymholiadau i ddarganfod a oes unrhyw wybodaeth berthnasol. Os oes gwybodaeth o'r fath yn bodoli, bydd yn cael ei phasio i'r MARAC lleol fydd yn penderfynu a ddylid datgan y wybodaeth neu beidio. Yn ail yw'r hawl i wybod. Cychwynnir ceisiadau hawl i wybod gan yr heddlu lle mae gwybodaeth anuniongyrchol sydd yn eu meddiant, neu gan asiantaeth bartner, yn awgrymu bod person yn wynebu risg o niwed gan eu partner. Eto, mae'r wybodaeth yn cael ei phasio i'r MARAC lleol fydd yn penderfynu a ddylid datgan y wybodaeth neu beidio. Yn y ddau achos, byddai'r MARAC yn asesu'r cais i weld a fyddai datgelu'r wybodaeth yn gyfreithiol ac yn gam cymesur i amddiffyn y dioddefwr posibl rhag niwed.

## **Hysbysiadau a Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPN a DVPO)**

Cyflwynwyd y DVPN a'r DVPO gan Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010. Mae DVPN yn rhoi pŵer i'r heddlu amddiffyn dioddefwr cam-drin domestig honedig yn syth rhag y niweidiwr lle maent yn credu nad oes unrhyw opsiynau cyfyngu eraill y gellir eu gorfodi yn erbyn y niweidiwr. Gellir eu defnyddio, er enghraifft, lle mae'r heddlu'n penderfynu cymryd 'dim camau pellach' yn dilyn atgyfeirio, lle mae'r person dan amheuaeth wedi derbyn rhybuddiad, neu wedi eu mechnïo heb amodau. Mae DVPN mewn grym am 48 awr yn unig ac yn ystod yr amser hwn gall yr heddlu wneud cais i'r llys ynadon am DVPO, lle bo angen. Mae DVPO yn rhoi pŵer i'r heddlu ac i ynadon:

- i orfodi peidio ag ymyrryd â'r dioddefwr;
- i atal diffynnydd rhag cysylltu â'r dioddefwr;
- i atal diffynnydd rhag troi neu gau'r dioddefwr allan o'r eiddo;
- i symud diffynnydd o'r eiddo; a / neu,
- i atal diffynnydd rhag dychwelyd i eiddo am hyd at 28 diwrnod.

Nid oes angen caniatâd y dioddefwr ar gyfer DVPN neu DVPO.

## **Gorchymyn Ffrwyno mewn achosion troseddol**

Mewn achos troseddol, wrth ddeddfrydu person a gafwyd yn euog o drosedd, gall y llys wneud gorchymyn ffrwyno o dan a.5 o Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997. Mae'r gorchymyn hwn yn gwarchod dioddefwr y trosedd, neu unrhyw berson arall, rhag ymddygiad harasio neu a fydd yn creu ofn trais. Gellir hefyd gwneud gorchymyn ffrwyno yn erbyn person sy'n cael ei ryddfarnu. Fodd bynnag, gellir ond gwneud gorchymyn o'r fath os yw'r llys yn ystyried bod ei angen i amddiffyn person rhag cael eu harasio gan y diffynnydd a rhaid rhoi tystiolaeth i'r

llys er mwyn gallu barnu hyn. Gall gorchmynion ffrwyno fod am amser penodol neu am amser amhenodol, hyd nes y gwneir gorchymyn pellach.

## **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Mesur gan Lywodraeth Cymru i geisio cyflwyno dull mwy strategol a chydgysylltiedig o ddelio â cham-drin domestig yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV 2015). Creodd VAWDASV 2015 y swydd **Cynghorydd Cenedlaethol** i gynghori a chynorthwyo'r Llywodraeth. Mae'n gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus Cymru i hybu arferion gorau ac adolygu'r hyn y mae awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd, y Gwasanaeth Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ei wneud.

Eglurir pwrpas VAWDASV 2015 o dan a.1, a hynny yw:

- gwella'r trefniadau ar gyfer atal cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol;
- gwella'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol; a
- cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

O dan VAWDASV 2015, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei rhaglen 'Gofyn a Gweithredu'. Mae hyn yn cynnwys holi wedi'i dargedu gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus i adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term 'holi wedi'i dargedu' yn disgrifio proses o adnabod arwyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan yna ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i berson a gawsant eu heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn. Mae'r rhaglen yn ceisio:

- adnabod mwy o bobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i rai sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient;
- dechrau creu diwylliant ar draws y sector cyhoeddus lle mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes sy'n cael ei dderbyn a lle mae datgelu'n cael ei ddisgwyl, ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso;
- gwella'r ymateb i rai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl; a
- ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posib, â rhai sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn lle dim ond ymgysylltu'n ymatebol â rhai sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl taer o gael niwed difrifol.

Rhaid i ymarferwyr gofio bod pobl hŷn yn gallu dioddef cam-drin domestig a dylent ddarllen y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru – **Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru (wele'r llyfryddiaeth).**

## Sut y dylid ei defnyddio?

Gall mesurau a deddfwriaeth ar gam-drin domestig chwarae rôl bwysig mewn amddiffyn pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig. Mae cysylltu â'r heddlu'n eithriadol bwysig os credir y byddai rhai o'u pwerau'n ddefnyddiol i amddiffyn person hŷn. Cyn belled ag y mae opsiynau cyfraith breifat yn y cwestiwn, gallai fod angen gofyn am gyngor cyfreithiol proffesiynol gan dwrne neu asiantaeth gynghori. Bydd derbyn Cymorth Cyfreithiol neu beidio hefyd efallai'n ystyriaeth wrth benderfynu dilyn yr opsiwn hwn neu beidio.

## Beth yw'r cyfyngiadau?

Mae opsiynau cam-drin domestig yn amddiffyn rhywfaint, ac nid ydynt ond cystal â'r mesurau gorfodi sydd yn eu lle. Medrant gynnig seibiant dros dro, ac mewn rhai achosion efallai, ateb mwy parhaol. Ond nid ydynt yn golygu nad oes angen cefnogi'r person hŷn mwyach hyd yn oed gyda mesurau amddiffyn yn eu lle. Er bod newidiadau i bwy sy'n gymwys i dderbyn Cymorth Cyfreithiol wedi gwella mynediad, ni fydd pob dioddefwr cam-drin domestig hŷn yn cael eu hariannu. Heb Gymorth Cyfreithiol, efallai na fedrant fanteisio ar opsiynau o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

## Pwyntiau i'w cofio

- Gall pobl hŷn brofi cam-drin domestig hefyd.
- Mae llawer iawn o gam-drin pobl hŷn yn gam-drin domestig.
- Dylid ystyried y darpariaethau uchod ynghyd ag unrhyw fesurau diogelu.
- Dylid rhoi digon o wybodaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig am ba opsiynau sydd ar gael fel y medrant benderfynu beth i'w wneud nesaf.

# Astudiaethau Achos

## Mae'r canlynol yn astudiaethau achos o ffeiliau gwaith achosion y Comisiynydd

### Cyfrinachedd a Diogelu Data:

Mae Mrs Llewellyn yn 89 oed. Mae ganddi dementia difrifol a thybir nad oes ganddi ddigon o alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am ei gofal a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol (er enghraifft, Twitter, Instagram, Facebook). Mae'n byw mewn cartref gofal EMI sy'n eiddo i awdurdod lleol.

Mae gan y cartref gofal gyfrif Facebook.

Mae'r cartref gofal yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned yn y cartref sy'n cynnwys y preswylwyr. Mae ffotograffau'n cael eu tynnu sy'n cynnwys ffotograffau ac enwau rhai o'r preswylwyr, gan gynnwys Mrs Llewellyn. Mae'r ffotograffau hyn yn cael eu rhoi ar Facebook.

Mae mab a merch Mrs Llewellyn yn cwyno wrth yr awdurdod lleol nad oes caniatâd wedi'i sicrhau i luniau eu mam gael eu rhoi ar Facebook ac nad oedd ganddi allu i roi caniatâd o'r fath.

Ymchwiliodd yr awdurdod lleol i'r gŵyn a derbyn y dylai caniatâd wedi'i lofnodi fod wedi'i sicrhau ar gyfer pawb a gymerodd ran yn y ffotograffau, ac y dylai caniatâd fod wedi'i sicrhau gan atwrnai os oedd atwrneiaeth arhosol yn bodoli, ar gyfer y rhai heb allu i roi eu caniatâd.

Tynnodd y cartref gofal y lluniau oddi ar Facebook ac adolygu ei bolisi er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion diogelu data.

### Cam-drin Domestig:

Mae Mrs Johnson yn 86 oed ac yn byw yn ei chartref ei hun gyda'i merch Lucy sy'n 48 oed. Mae Lucy yn sengl, mewn gwaith llawn amser ac yn heini ac iach.

Am 3am ar fore o Ragfyr, mae'r heddlu lleol yn darganfod Mrs Johnson yn cysgu yn ei char sawl milltir o'i chartref. Mae'r tywydd yn eithriadol oer a barugog (minws 40 C).

Mae'r heddwes yn gofyn iddi pam mae'n cysgu yn ei char yr adeg honno o'r bore. Dywedodd wrth y swyddogion bod ganddi ofn ei merch a'i bod yn teimlo bod angen iddi gysgu yn ei char yn hytrach nag yn ei chartref ei hun.

Ni ofynnodd y swyddogion ragor o gwestiynau ynghylch pam roedd yn ofnus a gwnaed penderfyniad i hysbysu'r awdurdod lleol bod Mrs Johnson yn 'oedolyn mewn perygl'.

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, ffoniodd yr awdurdod lleol Mrs Johnson am y digwyddiad. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau ganddynt am y digwyddiad ac ni awgrymwyd y gallai gael cefnogaeth gan wasanaethau cefnogi lleol. Caewyd yr achos wedyn.

Rai misoedd yn ddiweddarach, gwelodd cymydog Mrs Johnson hi ar ddreif ei thŷ. Wedyn gwelodd y cymydog Lucy yn dod allan o'r tŷ ac yn dyrnu Mrs Johnson sawl gwaith yn ei phen a'i chorff yn ogystal â chydio yn ei gwallt, a'i llusgo i'r tŷ.

Cysylltodd y cymydog â'r heddlu gan ddeialu 999. Daeth yr heddlu i'r tŷ a mynd i mewn. Roedd y ferch yn dreisgar tuag at y swyddogion a bu'n rhaid ei hatal. Cafodd ei harestio ac aethpwyd â hi i'r ddalfa.

Dywedodd Mrs Johnson wrth yr heddlu nad oedd eisiau gwneud cwyn yn erbyn ei merch. Cafodd ei rhoi mewn cysylltiad ar unwaith â Chynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA).

Datgelodd Mrs Johnson wrth yr IDVA bod cam-drin gan ei merch wedi bod yn broblem gyson am fwy nag 20 mlynedd, ei bod wedi cysgu allan yn ei char yn gyson a'i bod wedi cael ei cham-drin yn gorfforol yn rheolaidd hefyd.

Wedyn cytunodd i wneud datganiad. Cafodd ei merch ei chyhuddo a'i dedfrydu'n ddiweddarach am ymosod ar ei mam, a chafodd ddedfryd o garchar am hynny.

Yn yr achos hwn, roedd cyfleoedd am ymyriad cynnar wedi cael eu colli. Ni ofynnodd yr heddlu na'r gwasanaethau cymdeithasol gwestiynau a fyddai wedi gallu adnabod risgiau a graddfa'r cam-drin. Ac ni chafodd cynnig i weld IDVA neu wasanaethau cefnogi arbenigol ei ystyried i ddechrau.

### **'Penderfyniadau annoeth'**

Benthycodd Mr Evans (86 oed) arian i ffrind ac roedd wedi benthycu arian yn flaenorol i bobl eraill; ni chafodd yr arian ei ddychwelyd o gwbl. Daeth asiantaeth allanol yn ymwybodol o'r benthycu arian yn ystod asesiad a mynegwyd pryderon am hyn wrth yr heddlu, a ymwelodd â Mr Evans i drafod y pryderon. Gwnaed atgyfeiriad at dîm diogelu oedolion yr awdurdod lleol.

Roedd Mr Evans yn flin bod yr heddlu a'r tîm diogelu wedi cael gwybod heb ei ganiatâd ef. Dywedodd bod ganddo allu ac roedd yn benderfynol bod ganddo hawl i roi'r arian.

Ni chafodd y benthyciadau eu had-dalu.

Roedd gan Mr Evans hawl i wneud y penderfyniad hwn er bod eraill yn ei ystyried fel cam annoeth efallai.

### **Atwrneiaeth Arhosol - cam-drin ariannol - mynediad at gyfiawnder:**

Mae Alice Rees a'i dwy chwaer (Sylvia a Sandra) yn atwrneiod cofrestredig o dan Atwrneiaeth Arhosol (AA) ar gyfer eiddo a chyllid eu mam. Gallant wneud penderfyniadau ar y cyd neu ar wahân.

Roedd Alice yn deall mai eu rôl oedd gweithredu er budd gorau eu mam.

Roedd un chwaer iddi (Sylvia) yn credu bod yr arian yr oedd gan eu mam ar hyn o bryd wedi cael ei adael ar ôl marwolaeth eu tad ac roedd yn teimlo y dylai gael ei wario fel y byddai eu diweddar dad, oedd yn hael iawn yn ariannol gydag aelodau'r teulu, wedi bod eisiau, sef rhoi rhoddion ariannol i aelodau'r teulu.

Roedd anghytuno sylfaenol rhwng Alice a Sylvia ynghylch sut dylent fod yn gweithredu.

Cafodd Alice gyngor i drafod y mater gyda'i chwaer (Sandra) a rhoi gwybod am eu pryderon ynghylch ymddygiad Sylvia fel Atwrnai i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os oeddent



yn teimlo nad oedd Sylvia yn gweithredu er budd gorau eu mam. Byddai hyn yn galluogi i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ymchwilio i'w pryderon.

### **Caniatâd: Gwrthod cymryd rhan a galluedd meddyliol:**

Mae gan Josie fodryb (Betty) sy'n 94 oed ac yn byw yr ochr arall i Gymru (tua 90 milltir i ffwrdd).

Josie yw unig berthynas ei modryb; nid oes ganddi Atwrneiaeth.

Mae gan Betty allu ac mae'n byw yn annibynnol yn ei chartref ei hun ac yn cael ymweliadau gofal am dri deg munud bedair gwaith y dydd. Cafodd Betty godwm yn ddiweddar a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty. Cynhaliwyd cyfarfod i'w rhyddhau o'r ysbyty a phenderfynwyd ei bod yn gallu dychwelyd adref.

Roedd Josie yn anhapus na chafodd wybod am y cyfarfod, ond dywedodd y Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd Betty wedi rhoi ei chaniatâd iddi fod yn bresennol.

Roedd Josie yn bryderus am ddiogelwch Betty ac eisiau trafod mwy o ymweliadau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd wybod bod gan Betty allu a bod ganddi hawl i wrthod gadael i'w theulu fod yn bresennol yn y cyfarfod a pheidio â bod yn rhan o'r broses o'i rhyddhau o'r ysbyty. Os nad oedd Betty eisiau gofal ychwanegol, nid oedd posib ei gorfodi i'w gael.

### **Penderfyniadau annoeth - hunan-esgeulustod:**

Roedd mam John (Pamela, 87 oed) wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Roedd wedi cael codwm cas a achosodd anaf i'w phen. Ar ôl cael profion, gwelwyd ei bod wedi cael strôc flaenorol hefyd. Penderfynodd profion ychwanegol bod ganddi ddementia cysylltiedig ag alcohol (Syndrom Korsakoff).

Cafodd Pamela ei rhyddhau o'r ysbyty yn erbyn dymuniadau John ac ni roddwyd unrhyw becyn gofal yn ei le.

Roedd John yn bryderus bod ei fam yn cael ei gadael am gyfnodau hir o amser ar ei phen ei hun. Nid oedd yn bwyta ac nid oedd yn gadael i unrhyw un ofalu amdani, ac roedd yn gwrthod cymryd ei meddyginiaeth.

Roedd John yn cadarnhau bod gan Pamela allu i wneud penderfyniadau am ei hiechyd a'i lles, ond roedd yn bryderus y byddai ei dementia yn gwaethygu.

Er bod gan ei fam ddiagnosis o ddementia, mae wedi bod yn benderfynol i fod â gallu. Cafodd John wybod bod gan unigolion hawl i wrthod pecyn gofal os ydynt yn dymuno. Os oes gan unigolyn alluedd meddyliol i wneud ei benderfyniadau ei hun mae ganddo hawl i wneud hynny, hyd yn oed os yw'r penderfyniadau hynny'n ymddangos yn annoeth i eraill o'u cwmpas.

# Atodiad 1: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

## Mabwysiadwyd gan y Cynulliad Cyffredinol penderfyniad 46/91 ar 16 Rhagfyr 1991

Mae'r Cynulliad Cyffredinol,

Gan werthfawrogi'r cyfraniad mae pobl hŷn yn ei wneud at eu cymdeithasau,

Gan gydnabod bod, yn Siarter y Cenhedloedd Unedig, pobloedd y Cenhedloedd Unedig yn datgan, ymhlith pethau eraill, eu penderfyniad i ailgadarnhau ffydd mewn hawliau dynol sylfaenol, mewn urddas a gwerth y bod dynol, mewn hawliau cyfartal dynion a merched a gwledydd mawr a bach ac mewn hybu cynnydd cymdeithasol a gwella safonau byw mewn rhyddid ehangach,

Gan nodi'r ymhelaethu ar yr hawliau hynny yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol a'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol a datganiadau eraill er mwyn sicrhau'r defnydd o safonau cyffredinol gyda grwpiau penodol,

Yn unol â'r Cynllun Gweithredu Rhyngwladol ar gyfer Heneiddio, a fabwysiadwyd gan Gynulliad y Byd ar Heneiddio a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cyffredinol yn ei benderfyniad 37/51 ar 3 Rhagfyr 1982,

Gan werthfawrogi'r amrywiaeth aruthrol yn sefyllfaoedd pobl hŷn, nid yn unig rhwng gwledydd ond oddi mewn i wledydd a rhwng unigolion, sy'n galw am amrywiaeth o ymatebion polisi,

Yn ymwybodol bod unigolion, ym mhob gwlad, yn cyrraedd oedran hŷn mewn mwy o niferoedd ac mewn gwell iechyd nag erioed o'r blaen,

Yn ymwybodol o'r ymchwil gwyddonol sy'n chwalu sawl stereoteip am ddirywiad anochel a di-droi'n-ôl gydag oedran,

Yn gwbl grediniol mewn byd a nodweddir gan nifer a chyfran gynyddol o bobl hŷn, bod rhaid darparu cyfleoedd i bobl hŷn fedrus a pharod gymryd rhan yng ngweithgareddau parhaus cymdeithas a chyfrannu atynt,

Yn ymwybodol bod y straen ar fywyd teuluol mewn gwledydd datblygedig a gwledydd sy'n datblygu yn gofyn am gefnogaeth gan y rhai sy'n darparu gofal i bobl hŷn fregus,

Gan gadw mewn cof y safonau sydd wedi'u pennu eisoes gan y Cynllun Gweithredu Rhyngwladol ar gyfer Heneiddio a chonfensiynau, argymhellion a phenderfyniadau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol, Sefydliad Iechyd y Byd ac endidau eraill y Cenhedloedd Unedig,

Yn annog Llywodraethau i ymgorffori'r egwyddorion canlynol yn eu rhaglenni cenedlaethol pan fo hynny'n bosibl:

## Annibyniaeth

1. Dylai pobl hŷn gael mynediad i fwyd, dŵr, cysgod, dillad a gofal iechyd digonol drwy ddarparu incwm, cefnogaeth teulu a chymuned, a hunan-gymorth.
2. Dylai pobl hŷn gael cyfle i weithio neu fynediad i gyfleoedd cynhyrchu incwm eraill.
3. Dylai pobl hŷn allu cymryd rhan yn y penderfyniadau ynghylch pryd ac ar ba raddfa maent yn rhoi'r gorau i fod yn rhan o'r gweithlu llafur.
4. Dylai pobl hŷn gael mynediad i raglenni addysg a hyfforddiant priodol.
5. Dylai pobl hŷn allu byw mewn amgylcheddau diogel y gellir eu haddasu i'w dewisiadau personol a'u gallu fel mae'n newid.
6. Dylai pobl hŷn allu byw gartref am gyn hired â phosibl.

## Cyfranogiad

7. Dylai pobl hŷn barhau'n integredig mewn cymdeithas, cymryd rhan yn y gwaith o ffurfio a gweithredu polisiau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau gyda'r cenedlaethau iau.
8. Dylai pobl hŷn allu ceisio a datblygu cyfleoedd am wasanaeth i'r gymuned a gwasanaethu fel gwirfoddolwyr mewn swyddi priodol i'w diddordebau a'u galluoedd.
9. Dylai pobl hŷn allu ffurfio mudiadau neu gymdeithasau o bobl hŷn.

## Gofal

10. Dylai pobl hŷn elwa o ofal a gwarchodaeth teulu a chymuned, yn unol â system pob cymdeithas o werthoedd diwylliannol.
11. Dylai pobl hŷn gael mynediad at ofal iechyd i'w helpu i gadw neu adfer y lles corfforol, meddyliol ac emosiynol gorau posibl ac i atal neu ohirio gwaeledd rhag cychwyn.
12. Dylai pobl hŷn gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol i wella eu hymreolaeth, eu gwarchodaeth a'u gofal.
13. Dylai pobl hŷn allu defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n darparu gwarchodaeth, adferiad ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol mewn amgylchedd tosturiol a diogel.
14. Dylai pobl hŷn allu mwynhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol wrth fyw mewn unrhyw gyfleuster gwarchod, gofal neu driniaeth, gan gynnwys parch llawn tuag at eu hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd a rhaid gwneud penderfyniadau cywir am eu gofal ac ansawdd eu bywydau.

## Hunangyflawniad

15. Dylai pobl hŷn allu manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu potensial yn llawn.
16. Dylai pobl hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol a hamdden cymdeithas.

## Urddas

17. Dylai pobl hŷn allu byw gydag urddas ac yn ddiogel a bod yn rhydd o gamfanteisio a cham-drin corfforol neu feddyliol.
18. Dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg heb ystyried eu hoedran, rhyw, cefndir hiliol neu ethnig, anabledd neu statws arall, a chael eu gwerthfawrogi yn annibynnol ar eu cyfraniad economaidd.

# Atodiad 2: Llyfryddiaeth

## Cyhoeddiadau Swyddogol

### Protocolau a Gweithdrefnau Cenedlaethol

<https://www.cysur.cymru/protocolau-a-gweithdrefnau-cenedlaethol/>

### Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf>

### Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3 – Adolygiadau arferion oedolion

[https://gofalcymdeithasol.cymru/cms\\_assets/hub-downloads/Gweithio\\_Gyda\\_n\\_Gilydd\\_i\\_Ddiogelu\\_Pobl-\\_Cyfrol\\_3\\_\\_\\_\\_\\_Adolygiadau\\_Ymarfer\\_Oedolion\\_Amlasiantaethol.pdf](https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/hub-downloads/Gweithio_Gyda_n_Gilydd_i_Ddiogelu_Pobl-_Cyfrol_3_____Adolygiadau_Ymarfer_Oedolion_Amlasiantaethol.pdf)

### Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 4 – Amddiffyn Oedolion a Gorchmynion Cymorth

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/working-together-to-safeguard-people-volume-4-adult-protection-and-support-orders.pdf>

### Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 6 – Trin Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion mewn Perygl

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cyfrol-6-gorchymyn-amddiffyn-a-chynorthwyo-oedolion.pdf>

### Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-2-swyddogaethau-cyffredinol.pdf>

### Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/rhan-9-canllawiau-statudol-trefniadau-partneriaeth.pdf>

### Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-10-eiriolaeth.pdf>

### Deddf Galluedd Meddyliol 2005 Cod Ymarfer

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/497459/Deddf-gallu-meddyliol-cod-ymarfer.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/497459/Deddf-gallu-meddyliol-cod-ymarfer.pdf)

### Hawliau Dynol: AGC'- ymrwymiad i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth

<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-04/180409humanrightscy.pdf>

## **Canllaw ar Ddiogelu Data – Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/>

## **Pobl Hŷn: Erlyn am Droseddau yn erbyn - Gwasanaeth Erlyn y Goron**

<https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/older-people-prosecuting-crimes-against>

## **Y Ddeddf Hawliau Dynol – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

<https://www.equalityhumanrights.com/en/human-rights/human-rights-act>

